


Cyflawni a phontio

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2015–16

Gorffennaf 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cyflawni a phontio

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2015–16

Gorffennaf 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

# Cynnwys


Ein perfformiad: trosolwg .......... 1

Rhagair y Llywydd .......... 2

Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr a'r Clerc .......... 3

Comisiynwyr y Pumed Cynulliad .......... 4

Comisiynwyr y Pedwerydd Cynulliad .......... 6

Y cynghorwyr annibynnol .......... 8

Ein diben a'n gweithgareddau .......... 11

O'r Pedwerydd i'r Pumed: ein hetifeddiaeth .......... 14

Crynodeb o berfformiad .......... 18

Ein perfformiad: dadansoddiad .......... 23

Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf .......... 25

Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru .......... 39

Defnyddio adnoddau'n ddoeth .......... 47

Ein hatebolrwydd: llywodraethu corfforaethol .......... 59

Adroddiad y Cyfarwyddwyr .......... 60

Datganiad o gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu .......... 63

Datganiad llywodraethu .......... 64

Ein hatebolrwydd: cydnabyddiaeth ariannol a'r staff .......... 73

Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a'r staff .......... 74

Ein hatebolrwydd: atebolrwydd ac archwilio .......... 89

Datganiad cyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a nodiadau ategol .......... 90

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Cynulliad .......... 96

Ein Datganiadau Ariannol .......... 99

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr .......... 100

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol .......... 101

Datganiad Llif Arian .......... 102

Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr .......... 103

Nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon .......... 105

Atodiad - adroddiadau rheoleidd-dra .......... 129




**10 mlynedd o'r Senedd: 2006-2016**
Ysgol Gynradd Pontyclun yn perfformio yn y digwyddiad 'Adeiladu ar gyfer Democratiaeth', a gynhaliwyd i ddathlu 10 mlynedd ers agor y Senedd.

# Ein perfformiad: trosolwg

# Rhagair y Llywydd



Elin Jones AC
**Llywydd y Cynulliad a Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad**

Rwy'n falch iawn o gael cyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn. Mae'n anrhydedd ac yn fraint cael fy ethol i'r rôl hon gan fy nghyd-Aelodau Cynulliad.

Ond wrth gwrs, mae'r llwyddiannau a ddisgrifir yn yr adroddiad blynyddol hwn yn perthyn i'r cyfnod cyn i mi gael fy mhenodi. Felly, mae angen rhoi cydnabyddiaeth i eraill. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i roi teyrnged i'm rhagflaenydd, y Fonesig Rosemary Butler, a chwalodd y rhwystrau a oedd yn atal cyfranogiad yn y broses ddemocrataidd yng Nghymru, yn enwedig ymysg menywod drwy ei hymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus a thrwy roi lle amlwg i bobl ifanc yng ngwaith y Cynulliad.

Cafodd Rosemary gefnogaeth fedrus gan David Melding y Dirprwy Lywydd, a gyfrannodd mewn ffordd graff a diwyd yn y Siambr a thu hwnt, gan gynnwys fel cadeirydd pwyllgor, a hynny i hybu gwaith y Cynulliad mewn amryw o ffyrdd. Gwnaeth y ddau ohonynt, ynghyd â'r Comisiynwyr Sandy Mewies, Angela Burns, Rhodri Glyn Thomas a Peter Black, ffurfio tîm arwain effeithiol a fu'n llywio gwelliant parhaus ym mhob agwedd ar nodau strategol Comisiwn y Cynulliad.

Wrth wneud hynny, tynnodd y Comisiynwyr ar arbenigedd, brwdfrydedd ac ymroddiad staff Comisiwn y Cynulliad, a hynny o dan arweiniad Claire Clancy, y Prif Weithredwr a'r Clerc. Rwy'n gwybod o fy mhrofiad i o weithio gyda staff y Comisiwn yn y gorffennol y gallaf ddibynnu ar gyngor o'r safon uchaf, gwasanaethau adweithiol a darpariaeth effeithiol yn fy rôl newydd. Rwy'n hynod ddiolchgar am gymorth Claire a'i staff ar ddechrau fy nghyfnod.

Mae'n bwysig bod y gwasanaethau a ddarperir gan Gomisiwn y Cynulliad yn cefnogi fy egwyddorion o ran sut y bydd y Pumed Cynulliad yn gweithredu. Yr egwyddor gyntaf yw bod yn deg, diogelu hawliau pob Aelod a thrin pob Aelod yn gyfartal. Yr ail yw hyrwyddo ac amddiffyn enw da y Cynulliad hwn, yn y Siambr a thu hwnt, ac ym mhob cymuned yng Nghymru. Y drydedd yw sicrhau dadl ddemocrataidd frwd ac iach, gyda gweithdrefnau tryloyw yn gefn iddi. Yn olaf, hoffwn weld y Cynulliad yn chwarae rôl adeiladol a chydweithredol wrth weithio gyda seneddau eraill yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt.

Rwy'n edrych ymlaen at weithio gydag Ann Jones, y Dirprwy Lywydd, a'm cyd-Gomisiynwyr Joyce Watson, Dai Lloyd, Suzy Davies a Caroline Jones, i adeiladu ar lwyddiannau'r Pedwerydd Cynulliad. Rwy'n bwriadu efelychu'r gwaith a wnaed gan ein rhagflaenwyr i bennu strategaeth glir, sydd â chynllunio ariannol trylwyr a llywodraethu effeithiol yn sail iddi. Byddwn yn gwneud hyn mewn sefyllfa o newid parhaus yng Nghymru ac ar draws y byd: newid cyfansoddiadol, gwleidyddol, economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol. Bydd y Cynulliad yn cael pwerau a chyfrifoldebau newydd, yn ogystal â wynebu heriau newydd, ac mae'n rhaid i ni fod yn barod i wasanaethu pobl Cymru yn unol â hynny.

# Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr a'r Clerc



Claire Clancy
**Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Roedd hon yn sicr yn flwyddyn bwysig o ran cyflawni a throsglwyddo.

Rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau yn gyflym ac yn broffesiynol. Llwyddodd staff Comisiwn y Cynulliad i gwblhau'r rhaglen o fuddsoddi a gwella gwasanaethau yn unol â'r nodau strategol a bennwyd gan ein Comisiynwyr ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad. Cefnogwyd y cyfnod terfynol a mwyaf pwysig o graffu deddfwriaethol yn y Cynulliad cyntaf i feddu ar bwerau deddfu llawn, gan gynnwys y ddeddfwriaeth dreth gyntaf. Rydym wedi parhau i ymgysylltu fwyfwy â phobl Cymru, gan ddefnyddio technegau newydd. Cadarnhawyd rôl y Senedd fel canolbwynt i fywyd cyhoeddus, a dathlwyd deng mlynedd ers yr agoriad. Daw llawer o'r lluniau yn yr adroddiad hwn o'r dathliadau hynny.

Rydym hefyd wedi parhau i gryfhau ein prosesau cynllunio a darparu, a chawsom ein cydnabod mewn nifer o ffyrdd am y ffordd rydym yn meithrin ein staff ac yn cael y gorau ohonynt. Drwy ein fframwaith llywodraethu, roeddem yn gallu rhoi sicrwydd pendant ynghylch y defnydd priodol o adnoddau, y mae gennyf gyfrifoldeb personol drostynt fel Prif Swyddog Cyfrifyddu.

Wrth i ni agosáu at ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad, gwnaeth ein meddyliau a'n gwaith droi'n anochel at drosglwyddo i'r Cynulliad nesaf. Cynorthwyodd staff y Comisiwn yr Aelodau i ystyried a chofnodi etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad. Hefyd, trefnwyd amryw o brosiectau a ffrydiau gwaith i baratoi i roi'r profiad gorau posibl i Aelodau newydd a'u helpu i wneud y penderfyniadau sydd eu hangen i sefydlu'r Pumed Cynulliad. Er y bydd yr adroddiad blynyddol nesaf yn ymdrin â digwyddiadau ar ôl yr etholiad ym mis Mai, ni allaf beidio â chrybwyll yma y bu'r cyfnod cynefino yn llwyddiant mawr, ac yn un a gafodd ei ganmol gan Aelodau newydd ac Aelodau a gafodd eu hailethol fel ei gilydd.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i gofnodi fy niolch i holl Aelodau'r Cynulliad a'u staff, Cyfarwyddwyr y Comisiwn, Penaethiaid Gwasanaeth a'u staff, contractwyr ac aelodau o sefydliadau eraill, gyda phob un yn cyfrannu at lwyddiant y Cynulliad.

Rwy'n ystyried fy hun yn ffodus iawn o gael y cyfle i arwain y sefydliad yn y fath gyfnod pwysig yn hanes datganoli. Rwy'n falch iawn o'r hyn rydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd. Gyda'n gilydd fel tîm rydym wedi mynd ati gydag arddeliad ac osgo i gael mwy o gyfrifoldebau a wynebu heriau eraill. Ar yr un pryd, rydym wedi adeiladu democratiaeth seneddol fodern sy'n addas ar gyfer Cymru gref a hyderus.

# Comisiynwyr y Pumed Cynulliad

Rôl Comisiwn y Cynulliad yw darparu'r staff, yr eiddo a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Cynulliad. Roedd y Comisiynwyr a benodwyd ar ddechrau'r Pumed Cynulliad yn gyfrifol am yr adroddiad hwn.

## Y Comisiynwyr



**Elin Jones AC** (Plaid Cymru)
Y Llywydd yw Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad ac mae hefyd ganddi gyfrifoldeb fel Comisiynydd dros gyfathrebu ac ymgysylltu.



**Suzy Davies** AC (Ceidwadwyr Cymreig)
Y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros y gyllideb a llywodraeth, gan gynnwys aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.



**Joyce Watson AC** (Llafur Cymru)
Y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldebau, a'r Comisiwn fel cyflogwr staff y Cynulliad.



**Dai Lloyd AC** (Plaid Cymru)
Y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros ieithoedd swyddogol, a darparu a thrawsnewid gwasanaethau i'r Aelodau.



**Caroline Jones AC** (UKIP)
Y Comisiynydd â chyfrioldeb dros ddiogelwch ac adnoddau'r Cynulliad.

## Y Dirprwy Lywydd



**Ann Jones AC** (Llafur Cymru)
Prif swyddogaeth y Dirprwy Lywydd yw cadeirio Cyfarfod Llawn y Cynulliad yn absenoldeb y Llywydd. Mae'r rôl yn debyg i rôl Dirprwy Lefarydd Tŷ'r Cyffredin. Mae'r Dirprwy Lywydd hefyd yn bresennol mewn cyfarfodydd a digwyddiadau yn ei rhinwedd ei hun, yn ogystal ag ar ran y Llywydd, er mwyn hybu proffil y Cynulliad.

# Comisiynwyr y Pedwerydd Cynulliad

Yn y Pedwerydd Cynulliad, pennodd y Comisiwn ei ddiben i wasanaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i helpu i'w wneud yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn ddeddfwrfa sy'n cyflawni'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru. Goruchwyliodd y Comisiynwyr y gweithgareddau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Roedd Comisiwn y Pedwerydd Cynulliad yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod Cynulliad, un wedi ei enwebu gan bob un o'r pedair plaid wleidyddol a oedd yn cael eu cynrychioli yn y Cynulliad.

## Y Comisiynwyr



**Y Fonesig Rosemary Butler AC** (Llafur Cymru)
Llywydd y Cynulliad a Chadeirydd y Comisiwn, a oedd â'r prif gyfrifoldeb dros gyfathrebu a datblygiad proffesiynol yr Aelodau a'u staff.



**Angela Burns AC** (Ceidwadwyr Cymreig)
Y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros y gyllideb, llywodraethu (gan gynnwys aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg) a chysylltiadau â'r Bwrdd Taliadau. Roedd Angela hefyd yn gyfrifol am wella gwasanaethau i Aelodau'r Cynulliad, a rôl y Comisiwn fel cyflogwr staff y Cynulliad.



**Peter Black AC** (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru)
Y Comisiynydd a oedd â chyfrifoldeb dros TGCh, darlledu, e-ddemocratiaeth, ystâd y Cynulliad, a chynaliadwyedd.



**Sandy Mewies AC** (Llafur Cymru)
Y Comisiynydd a oedd â chyfrifoldeb dros wasanaethau addysg, cyswllt cyntaf, cyfleusterau'r Cynulliad, y siop, arlwyo a diogelwch. Roedd Sandy hefyd yn gyfrifol am swyddogaethau cydraddoldeb statudol y Comisiwn.



**Rhodri Glyn Thomas AC** (Plaid Cymru)
Y Comisiynydd a oedd â chyfrifoldeb dros Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad, gwasanaethau cyfreithiol a Rhyddid Gwybodaeth.

## Y Dirprwy Lywydd



**David Melding AC** (Ceidwadwyr Cymreig)
Yn ogystal â dirprwyo ar ran y Llywydd, roedd y Dirprwy Lywydd hefyd yn mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau yn rhinwedd ei swydd er mwyn codi proffil y Cynulliad.

# Y cynghorwyr annibynnol

Penododd Comisiwn y Cynulliad gynghorwyr annibynnol i sicrhau bod y Comisiynwyr ac uwch dîm rheoli'r Cynulliad yn cael eu cynorthwyo a'u herio mewn modd adeiladol wrth eu gwaith.

Aeth y cynghorwyr ati i gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Comisiwn, gan ystyried ein trefniadau rheoli perfformiad a'n trefniadau adrodd, cynghori ar gyfrifoldebau'r Comisiwn ar gyfer polisïau a systemau arfarnu a thalu staff, a chadw trosolwg beirniadol o reolaeth ariannol y Comisiwn a'i weithdrefn rheoli risg.

## Y cynghorwyr annibynnol



**Keith Baldwin**
Ar hyn o bryd, mae Keith yn Gynghorydd Arbennig i Fwrdd Safonau'r Bar, yn aelod o Gyngor a Phwyllgor Archwilio Amgueddfa Genedlaethol y Fyddin ac yn aelod o Fwrdd a Phwyllgor Archwilio CVQO Ltd, lle y mae hefyd yn cadeirio'r Pwyllgor Taliadau. Treuliodd Keith 20 mlynedd fel partner yn PricewaterhouseCoopers (PWC). Ar wahân i'w gyfrifoldebau dros gleientiaid yn ystod y cyfnod hwn, daliodd hefyd nifer o swyddi rheoli gan gynnwys Dirprwy Bartner yn gyfrifol am ymgynghori â'r Llywodraeth a Phartner yn gyfrifol am y swyddogaethau rheoli risg ac ansawdd o fewn Busnes Cynghori PWC. Mae wedi dal nifer o swyddi anweithredol a chynghori ers gadael PWC.



**Mair Barnes**
Mae Mair yn cynghori ac yn mentora nifer o gyfarwyddwyr ar Fyrddau mewn nifer o sectorau yn ogystal â bod yn gyfarwyddwr anweithredol ar fusnes byd-eang. Mae'n gyn-Gadeirydd Vantios ccc ac yn gyn-Reolwr Gyfarwyddwr Woolworths ccc. Mae wedi dal swyddi cyfarwyddwr anweithredol yn yr Adran Masnach a Diwydiant ac yn Swyddfa'r Cabinet.



**Helena Feltham**
Mae Helena wedi mwynhau gyrfa hir ym maes Manwerthu ac fel Arweinydd ym maes Adnoddau Dynol. Ar hyn o bryd, hi yw Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol B&Q, ac yn y gorffennol mae wedi bod yn Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Byd-eang i TOPSHOP TOPMAN ac yn Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Marks & Spencer, Jack Wills Ltd. a Woolworths De Affrica. Mae hefyd wedi treulio amser gyda Odgers Berndtson mewn perthynas â phenodi uwch swyddogion gweithredol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae Helena wedi bod yn gyfarwyddwr anweithredol mewn un o ymddiriedolaethau'r GIG, ac ar hyn o bryd mae'n Ynad Heddwch, ac yn aelod o fwrdd yr elusen Gweithredu dros Blant a'r Ymddiriedolaeth Manwerthu.



**Eric Gregory**
Eric yw Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Comisiwn y Cynulliad. Mae hefyd yn Gynghorydd Annibynnol ac yn Gadeirydd Pwyllgor Risg a Sicrwydd Swyddfa Basbort Ei Mawrhydi (HMPO), ac yn gyfarwyddwr anweithredol ar gyfer Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) y Weinyddiaeth Gyfiawnder, lle y mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, a Rhaglen Cofrestru Etholiadol Modern Swyddfa'r Cabinet, lle y mae'n cadeirio Bwrdd Risg a Sicrwydd y Rhaglen. Bu'n gweithio i Bartneriaeth John Lewis am 25 mlynedd tan 2009, lle'r oedd yn Gyfarwyddwr Bwrdd am saith mlynedd, yn dal pob un o'r tair prif swydd Cyfarwyddwr TG cyn dod yn Gyfarwyddwr Personél John Lewis. Cyn hynny, roedd yn gyfarwyddwr anweithredol i Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) Llundain ac yn aelod o'i Fwrdd TGCh. Mae hefyd wedi dal swydd Cadeirydd Bwrdd TG y Fforwm Cynnyrch Defnyddwyr, ac roedd yn aelod o Fwrdd Busnesau e-sgiliau am chwe blynedd.

## Aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg



**Hugh Widdis**
Hugh yw  Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth ar gyfer Gogledd Iwerddon a Chyfreithiwr Adrannol ar gyfer Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae ganddo dros 15 mlynedd o brofiad o weithio mewn gwasanaeth cyfreithiol seneddol a llywodraethol. Cyn ymuno â Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Hugh oedd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu Cynulliad Gogledd Iwerddon. Mae wedi gweithio yn flaenorol ym maes ymchwil, fel bargyfreithiwr mewn practis preifat ac fel cyfreithiwr mewnol mewn darparwr gwasanaethau ariannol blaenllaw. Mae hefyd wedi gweithio yn swyddfa gyfreithiol Senedd yr Alban, ac ym maes cyfraith wahaniaethu yn Swyddfa'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog. Mae Hugh yn fargyfreithiwr ac yn aelod o Far Iwerddon a Bar Gogledd Iwerddon.

# Datganiad o ddiben

Ein datganiad o ddiben ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad oedd:

"Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol i feithrin sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar, a deddfwrfa sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru."

Ein nodau strategol oedd:

– darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf;
– ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru; a
– defnyddio adnoddau'n ddoeth.

# Ein diben a'n gweithgareddau

## Mae'r adroddiad hwn yn nodi llwyddiannau Comisiwn y Cynulliad yn erbyn ein nodau strategol rhwng mis Ebrill 2015 a Mawrth 2016.

### Cyd-destun

Mae Cymru yn derbyn tua £16 biliwn y flwyddyn i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, fel ysgolion ac ysbytai, ar gyfer pobl Cymru. Caiff hyn ei adnabod fel "bloc Cymru".

Caiff cyfran fechan (0.3 y cant) o floc Cymru ei dyrannu i'r Comisiwn i dalu costau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r arian hwn yn caniatáu i'r 60 Aelod Cynulliad i gynrychioli pobl Cymru, gwneud cyfreithiau a chraffu ar bolisïau a phenderfyniadau gwariant Llywodraeth Cymru.

### Ein cyllideb

Yn ystod 2015-16, roedd y Comisiwn yn gyfrifol am gyllideb o £52.3 miliwn, a oedd yn cynnwys:

- £15,700,000 ar gyfer talu ein 60 Aelod Cynulliad, eu staff cymorth, costau cyllid pensiwn a chostau rhedeg eu swyddfeydd etholaeth a swyddfeydd rhanbarthol ledled Cymru; a
- £36.6 miliwn i'r Comisiwn i ddarparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen i'r Cynulliad weithredu.

Ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad, cytunodd y Comisiwn ar strategaeth ar gyfer y gyllideb i bennu'r fframwaith ar gyfer ein cyllideb flynyddol. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi Dangosyddion Perfformiad Allweddol i ddangos perfformiad corfforaethol ar draws pob maes gweithgarwch (gweler tudalen 20 i 21. Rydym yn cael sicrwydd allanol ar ein gwariant gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn ogystal â chraffu gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgor Cyllid y Cynulliad.

### Ein cynllun i gyflawni strategaeth y Comisiwn

Yn ein cynllun strategol ar gyfer dwy flynedd olaf y Pedwerydd Cynulliad, a gyhoeddwyd ym Mai 2014, nodwyd pum maes blaenoriaeth ar gyfer newid, arloesi a buddsoddiad:

- galluogi'r Cynulliad i fod mor effeithiol â phosibl drwy'r gefnogaeth a ddarperir gennym, a thrwy gamau nesaf ein strategaeth TGCh;
- ehangu ein gwasanaethau dwyieithog;
- ymgysylltu mwy â phobl yng Nghymru;
- gwneud y gorau o'n hystâd; a
- bod yn gwbl barod ar gyfer y Pumed Cynulliad, a'r heriau newydd a ddaw yn sgil hynny.

Defnyddiodd staff y Comisiwn y blaenoriaethau hyn a'r nodau strategol i ddatblygu eu cynlluniau gwasanaeth a'u hamcanion perfformiad eu hunain.

## Sut y caiff Comisiwn y Cynulliad ei drefnu

Mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn rhagnodi bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod Cynulliad arall. Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn nodi sut y mae'r Aelodau yn cael eu penodi. Yn y Pedwerydd Cynulliad, roedd hyn yn golygu bod pob un o'r pedair plaid wleidyddol a oedd yn cael eu cynrychioli yn y Cynulliad yn enwebu Comisiynydd.

Mae'r Comisiwn yn cyflogi tua 450 o aelodau o staff parhaol sy'n wleidyddol ddiduedd, dan arweiniad y Prif Weithredwr a'r Clerc. Y Prif Weithredwr yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn, sydd â nifer o swyddogaethau statudol eraill. Mae'r Comisiwn yn dirprwyo rhai o'i swyddogaethau i'r Prif Weithredwr.

Mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr a'i thîm o bum cyfarwyddwr, sy'n gyfrifol am Fusnes y Cynulliad, Adnoddau, Gwasanaethau Cyfreithiol, Gwasanaethau'r Comisiwn a Chyllid.

Mae'r cyfarwyddwyr yn cyfarfod fel fforwm ac fel y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau. Yn ymuno â nhw ar y Bwrdd Rheoli mae deuddeg o uwch-swyddogion o'u cyfarwyddiaethau i ffurfio'r Bwrdd Rheoli.

Mae aelodau'r Bwrdd Rheoli wedi sefydlu nifer o grwpiau eraill o staff y Comisiwn i arwain meysydd gwaith allweddol, fel newid cyfansoddiadol, deddfwriaeth a thrawsnewid gwasanaethau busnes y Cynulliad.

## Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad

**Claire Clancy**

## Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad

Yn darparu cymorth seneddol arbenigol i'r Aelodau i sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.

Cyfarwyddwyd Busnes y Cynulliad
**Adrian Crompton**

## Cyfarwyddiaeth Adnoddau'r Cynulliad

Yn darparu gwasanaethau TG, Adnoddau Dynol, ystadau a chyfleusterau, cyswllt cyntaf a diogelwch, yn ogystal â rheoli trefniadau caffael a llywodraethu.

Cyfarwyddwr Adnoddau'r Cynulliad
**David Tosh**

## Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau'r Comisiwn

Yn darparu gwasanaethau a chymorth i'r Llywydd, y Comisiwn a'r Bwrdd Rheoli, yn ogystal â chyfieithu a chofnodi, a chymorth busnes a datblygiad proffesiynol i'r Aelodau.

Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn
**Craig Stephenson**

## Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol

Yn darparu cymorth cyfreithiol i gefnogi craffu gan Aelodau a phwyllgorau, yn ogystal ag i'r Comisiwn wrth arfer ei swyddogaethau.

Cyfarwyddwr a Phrif Gynghorydd Cyfreithiol
**Elisabeth Jones**

## Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Ariannol

Yn darparu gwasanaethau mewn perthynas â chynllunio ariannol corfforaethol, rheoli cyllidebol, taliadau a phensiynau.

Cyfarwyddwr Cyllid
**Nicola Callow** (hyd at 21 Ebrill 2016)

# O'r Pedwerydd i'r Pumed: ein hetifeddiaeth

Yn ystod blwyddyn olaf y Pedwerydd Cynulliad, gwelwyd penllanw strategaeth fuddsoddi a chyflawni'r Comisiwn. Rydym wedi cadarnhau ein cyflawniadau yn erbyn ein hamcanion strategol i gynnig sylfaen gadarn ar gyfer heriau'r Pumed Cynulliad.

## Adroddiad etifeddiaeth

Ar Ddydd Gŵyl Dewi, 1 Mawrth 2016, cyhoeddwyd **'Llwyfan i Gryfder: Adroddiad Etifeddiaeth Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011-2016'**. Roedd yr adroddiad etifeddiaeth yn ystyried sut rydym wedi canolbwyntio ar safonau uchel, gwelliant parhaus, arloesi a gwerth am arian o ran diwallu heriau'r Pedwerydd Cynulliad. Dyma oedd tymor pum mlynedd cyntaf y Cynulliad a'r cyntaf gyda phwerau deddfu llawn. Gyda dim ond 60 o Aelodau, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn fach yn ôl unrhyw gymhariaeth leol, genedlaethol neu ryngwladol wrthrychol. Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at ein llwyddiannau allweddol a gwnaeth argymhellion i helpu'r Comisiwn newydd yn y Pumed Cynulliad.

## Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, datblygwyd ystod o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr Aelodau. Mae'r rhain wedi rhoi'r Cynulliad mewn sefyllfa gref, sy'n aml yn destun cenfigen i sefydliadau seneddol eraill ar draws y Deyrnas Unedig a thu hwnt. Mae gennym dystiolaeth o hyn yn y galw cynyddol sydd gan ddeddfwrfeydd eraill i gael gwybodaeth am ein gwaith ac o'n harolygon rheolaidd o Aelodau a'u staff cymorth sy'n dangos boddhad cynyddol.

Tynnodd yr adroddiad etifeddiaeth sylw at nifer o lwyddiannau:

- **Cyrsiau cynefino a datblygiad proffesiynol parhaus.** Cefnogwyd 23 o Aelodau a oedd newydd eu hethol yn 2011 a thri rhwng 2013 a 2015. Cymerodd o leiaf 40 o Aelodau a 150 o staff cymorth ran yn ein rhaglenni hyblyg ac amrywiol ym mhob un o bedair blynedd gyntaf y Pedwerydd Cynulliad.
- **Gweithio yn ein dwy iaith swyddogol.** Cyflwynwyd yr hyn a ddaeth yn *Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012*. O dan ein Cynllun Ieithoedd Swyddogol, gweithiwyd gyda Microsoft i ddarparu meddalwedd cyfieithu yn Gymraeg, lansiwyd strategaeth sgiliau dwyieithog, rhoddwyd mwy o gyfleoedd dysgu Cymraeg, darparwyd mwy o ddeunydd briffio pwyllgorau yn Gymraeg a darparwyd cortynnau gwddf er mwyn rhoi lle mwy amlwg i'r Gymraeg yn y gweithle. Yng nghanlyniadau arolwg yr Aelodau, gweithio yn eu dewis iaith a gafodd y sgôr uchaf o blith holl feysydd cymorth y Comisiwn.
- **Cefnogi ein gweledigaeth ar gyfer pwyllgorau seneddol o'r radd flaenaf.** Adolygwyd a chryfhawyd y gwaith o integreiddio gwasanaethau pwyllgorau, gan roi mwy o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus, ehangu'r dulliau ymgysylltu ac adrodd a pharhau i fuddsoddi yn swyddfa bwrpasol yr UE ym Mrwsel.
- **Cefnogi craffu deddfwriaethol.** Aethom ati i fynd i'r afael â her y swm cynyddol o ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad yn ei hystyried, a'i chymhlethdod cynyddol, drwy gynllunio capasiti effeithiol ar draws pob maes gwasanaeth, yn ogystal â mentrau penodol fel cryfhau sgiliau drafftio

deddfwriaethol cyfreithwyr y Comisiwn. Cefnogodd timau integredig o staff y Comisiwn bum Aelod i gyflwyno eu Biliau eu hunain, a daeth dau o'r Biliau hyn yn gyfraith.

- **Y sefyllfa gyfansoddiadol.** Bu'r Llywydd yn llais gweithredol ac awdurdodol mewn trafodaethau datganoli drwy gydol y Pedwerydd Cynulliad. Cyflwynodd dystiolaeth gref ac argyhoeddiadol i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (y Comisiwn Silk) a gweithiodd yn agos gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar *Ddeddf Cymru 2014* a Bil Cymru drafft a gyhoeddwyd yn 2015. Aethom ati i hwyluso gwaith craffu cadarn gan y Cynulliad ar bob cam cyfansoddiadol gan sicrhau ein bod yn paratoi'n dda ar gyfer y newidiadau i wasanaethau'r Comisiwn a fydd yn ofynnol yn dilyn datganoli pellach.
- **Meithrin cysylltiadau â'r Bwrdd Taliadau annibynnol.** Drwy ddeialog rheolaidd, gan gynnwys cyfarfod ar y cyd, ceisiodd y Comisiynwyr sicrhau bod y Bwrdd yn cydnabod yn llawn pa mor eang a heriol yw rôl yr Aelodau a bod angen ymgynghori â hwy.
- **Democratiaeth fodern gyda'r offer cywir.** Cafodd gwasanaethau TGCh eu tynnu'n fewnol drwy raglen 18 mis a gyflwynwyd yn brydlon ac o fewn y gyllideb ac a gydnabuwyd fel esiampl dda gan archwilwyr allanol. Arweiniodd hyn arwain at arbedion blynyddol o tua £700,000 a rhyddhawyd £400,000 i'w ail-fuddsoddi. Yn ogystal, gosodwyd rhwydweithiau, system ffôn ac offer clyweledol gwell a rhatach, platfform gwefan newydd, a gwasanaethau cwmwl.
- **Bod yn senedd agored, ddigidol.** Adolygwyd y ffordd rydym yn cofnodi trafodion y Cynulliad a chyhoeddwyd ein setiau data agored cyntaf (gwybodaeth y gall unrhyw un, unrhyw le, at unrhyw ddiben ei defnyddio, ei rhannu ac adeiladu arni'n rhydd). Yna cychwynnwyd rhaglen ehangach o drawsnewid digidol, gan gynnwys gwella ein gwefan.
- **Gwella cyfleusterau i ymwelwyr.** Buddsoddwyd ym mynedfa Tŷ Hywel i wella'r profiad i ymwelwyr. Roedd y newidiadau yn cynnwys mwy o le dan do i ymwelwyr gysgodi, mynediad cyfartal i ymwelwyr anabl a mannau mwy hyblyg ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad daeth dros 780,000 o bobl ar ymweliad ag ystâd y Cynulliad, ac aeth dros 98,000 o bobl ar daith o amgylch y Senedd.

## Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru

Canolbwyntiodd y gwaith ymgysylltu ar ddeall gwaith y Cynulliad yn well drwy gyrraedd cynulleidfa ehangach, yn y Senedd ac ar draws Cymru.

Tynnodd yr adroddiad etifeddiaeth sylw at nifer o lwyddiannau:

- **Ystâd seneddol i fod yn falch ohoni.** Datblygwyd rhaglen fuddsoddi 10 mlynedd ar gyfer ein hystâd i sicrhau ei bod yn parhau i ddenu mwy o ymwelwyr a hwyluso ymgysylltiad y cyhoedd â gwaith y Cynulliad. Yn 2012, croesawodd y Llywydd y miliynfed ymwelydd â'r Senedd, a gafodd Dystysgrif Rhagoriaeth TripAdvisor yn 2015. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, cynhaliwyd cannoedd o ddigwyddiadau cenedlaethol, gan gynnwys dathliadau Dydd Gŵyl Dewi, gwasanaethau coffa, a dathliadau ar gyfer llwyddiannau gan Gymry yn y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd, Gemau'r Gymanwlad a'r Chwe Gwlad.
- **Addysg ac ymgysylltu â phobl ifanc** Yn dilyn ymgynghoriad gyda bron 3,000 o bobl ifanc, datblygwyd Siarter Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc a lofnodwyd gan y Llywydd a holl arweinwyr y pleidiau. Ers hynny, mae bron 13,000 o bobl ifanc wedi ymwneud yn uniongyrchol â gwaith y pwyllgorau. Cymerodd dros 10,000 o bobl ifanc ran mewn sgwrs genedlaethol ynglŷn â gostwng yr

oed pleidleisio i 16. Cryfhawyd ein cysylltiadau â grwpiau ieuenctid a sefydliadau eraill er mwyn i ni allu ymgysylltu â phobl ifanc y tu allan i leoliadau addysg ffurfiol.

- **Senedd@Wrecsam a Senedd@Abertawe**. Aeth y Cynulliad ar daith i Wrecsam ym mis Mawrth 2015 ac Abertawe ym mis Hydref 2015. Daeth digwyddiadau i ysgolion, sefydliadau lleol a'r cyhoedd â'n gwaith yn agosach nag erioed o'r blaen at y bobl rydym yn eu gwasanaethu.
- **Mynd i'r afael â'r diffyg democrataidd.** Aethom ati i ymgysylltu â ffigurau blaenllaw ym maes cyfryngau'r DU, yn ogystal â phrifysgolion a newyddiadurwyr hyperleol (cymunedol), i geisio mwy o sylw i waith y Cynulliad ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru.
- **Manteisio ar y cyfryngau cymdeithasol.** Datblygwyd ein presenoldeb ar-lein yn sylweddol ac erbyn hyn mae gennym dros 50 o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n rhoi gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg. Llwyddwyd i gyrraedd dros 30,000 o broffiliau ar Twitter, a gwyliwyd ein fideos 75,000 o weithiau ar YouTube. Drwy ein gwasanaeth Senedd.tv galluogwyd defnyddwyr i rannu clipiau fideo o drafodion y Cynulliad ac roedd dros 7,500 o ymweliadau a 22 o gofnodion y mis ar gyfartaledd ar Pigion/In Brief, sef blog y Gwasanaeth Ymchwil. Parhawyd i arloesi, gan ddefnyddio platfformau ar-lein i ddarparu gwybodaeth a cheisio adborth.
- **Adlewyrchu ein cymdeithas amrywiol.** Adroddwyd yn flynyddol ar gynnydd yn erbyn y camau gweithredu a nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb. Yn 2016, roeddem yn drydydd ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall o'r 100 cyflogwr gorau yn y DU a ni oedd Cyflogwr Gorau'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru am y drydedd flwyddyn yn olynol. Roedd llwyddiannau eraill yn cynnwys cydnabyddiaeth gan Action on Hearing Loss a'r Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, bod ymhlith y Deg Cyflogwr Gorau i Deuluoedd sy'n Gweithio yn 2012 ac ymhlith y 50 Cyflogwr Gorau i Fenywod gan y Times yn 2014, yn ogystal ag ennill Safon Aur Buddsoddwyr mewn Pobl. Hefyd penodwyd cydgysylltydd dros dro i'n helpu i recriwtio, cadw a datblygu mwy o staff BME.
- **Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus.** Cynhaliodd y Llywydd gyfres o seminarau rhanbarthol i ymchwilio i ffyrdd o annog mwy o fenywod i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, a arweiniodd at gynhadledd genedlaethol. Dilynwyd hyn gan raglen o fentrau, a oedd yn cynnwys cyfres o ddarlithoedd gan siaradwyr uchel eu proffil, cynllun mentora, gwefan ar gyfer cyfleoedd gyrfa a Chawcws Menywod mewn Democratiaeth gyda chynrychiolwyr o bob un o'r pedair plaid wleidyddol yn y Cynulliad.
- **Ymgysylltu rhyngwladol.** Cymerodd y Comisiynwyr ac Aelodau Cynulliad eraill ran helaeth yng ngwaith rhwydweithiau a fforymau rhyngwladol, gan gynnwys Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig a Chynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop. Mae'r Cynulliad wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â sefydliadau'r UE ac Aelodau Cymru o Senedd Ewrop, a gefnogir gan ein swyddfa ym Mrwsel.
- **Gwella mynediad at gofnod y trafodion.** Yn dilyn adolygiad pellgyrhaeddol, nodwyd nifer o arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau yn y broses o gyhoeddi'r cofnod seneddol swyddogol dwyieithog. Roedd arddull golygu newydd yn golygu ei bod yn haws defnyddio'r cofnod ysgrifenedig ochr yn ochr â'r fersiwn glyweledol.

## Defnyddio adnoddau'n ddoeth

Tynnodd yr adroddiad etifeddiaeth sylw at nifer o lwyddiannau:

- **Y gyllideb.** Rhoddodd strategaeth y gyllideb eglurder, tryloywder a chysondeb drwy ganiatáu i ni lunio cynlluniau manwl yn seiliedig ar olwg hirdymor o ofynion gwariant.

- **Llywodraethu.** Cawsom ein cydnabod fel esiampl o arfer da am ein fframwaith llywodraethu, sy'n defnyddio elfennau goruchwyliaeth lluosog a gefnogir gan gyngor a sicrwydd annibynnol.
- **Craffu a thryloywder.** Ymgysylltwyd mewn ffordd agored a chadarnhaol â gwaith pwyllgorau'r Cynulliad.
- **Effeithiolrwydd.** Mabwysiadodd y Comisiynwyr egwyddorion llywodraethu corfforaethol yn eu cyfarfod cyntaf a chynhaliwyd tri adolygiad effeithiolrwydd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Arweiniodd y rhain at welliannau i agweddau ar waith y Comisiwn fel strategaeth, y gyllideb a buddsoddi, cynllunio gwaith ymlaen llaw, gweithio gyda'n gilydd a chyfathrebu.
- **Dangosyddion Perfformiad Allweddol.** Datblygwyd set o ddangosyddion perfformiad allweddol ar ddarparu gwasanaethau, perfformiad cyllidebol, llywodraethu a sicrwydd a chyhoeddwyd adroddiadau perfformiad corfforaethol yn rheolaidd. Rhoddodd y rhain ddadansoddiad o berfformiad yn erbyn mesurau a thargedau manwl, cymariaethau â chyfnodau blaenorol a sylwebaethau. Rhoddodd y trosolwg goleuadau traffig hwn arwydd clir o berfformiad cyffredinol a helpodd o ran nodi meysydd lle roedd angen gweithredu. Dangosodd y dangosyddion perfformiad allweddol y bu gwelliant o ran boddhad Aelodau ac ymwelwyr ac o ran ymgysylltu ar-lein, yn ogystal â chyrraedd ein targedau ar gyfer arbedion gwerth am arian, ac amseroldeb taliadau i gyflenwyr a gwasanaethau Aelodau.
- **Gwerth am arian ac effeithlonrwydd**. Llwyddwyd i wella gwybodaeth reoli, symleiddio prosesau a sicrhau'r buddion ac arbedion cost mwyaf posibl ym maes caffael a rheoli contractau. O ganlyniad, rhagorwyd ar ein targed arbedion effeithlonrwydd blynyddol o £500,000 bob blwyddyn ers 2012 a gwnaed arbedion i'n llinellau sylfaen gweithredu ym meysydd caffael, cadw gwaith yn fewnol a datblygu cyflenwyr.
- **Staffio.** Rydym yn gwerthfawrogi ein gweithlu medrus, proffesiynol a hyblyg. Sefydlodd y Bwrdd Rheoli system o gynllunio capasiti ddwywaith y flwyddyn er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio'r bobl iawn, sydd â'r sgiliau iawn, yn y mannau iawn. Dangosodd arolygon staff rheolaidd bod lefelau ymgysylltu â staff yn uwch na chyfartaledd y sector cyhoeddus.
- **Y cynghorwyr annibynnol.** Penodwyd cynghorwyr annibynnol i gefnogi a herio'r Comisiynwyr a'r uwch dîm rheoli. Cymerodd y cynghorwyr ran mewn ystod o weithgareddau, gan gynnwys cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Comisiwn, cynghori ar reoli perfformiad a chynnal trosolwg beirniadol ar reolaethau ariannol a rheoli risg.
- **Gwella ein hôl troed carbon.** Ym mis Rhagfyr 2014, cwblhawyd y Cynllun Rheoli Carbon a ddatblygwyd yn ystod y Trydydd Cynulliad a sicrhawyd gostyngiad o 35 y cant mewn allyriadau ynni, sef y gorau yn sector cyhoeddus Cymru. Hefyd, cyflawnwyd gostyngiad o 4 y cant mewn allyriadau teithio busnes er gwaethaf cynnydd o 16 y cant mewn milltiroedd. Enillwyd dyfarniad y Sefydliad Sector Cyhoeddus Mwyaf Cynaliadwy mewn Llywodraeth ar draws y DU yn 2014 ac mae gennym ardystiad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd hyd at 2016. Cytunwyd ar Fap Llwybr Lleihau Carbon ym mis Mehefin 2014, sy'n gosod targed o leihau allyriadau ynni gan 30 y cant arall erbyn 2021.

## CRYNODEB PERFFORMIAD

### DARPARU CEFNOGAETH SENEDDOL O'R RADD FLAENAF

**8.70** ALLAN O **10**

OEDD Y SGÔR CYFARTALOG A RODDWYD GAN AELODAU A STAFF CYMORTH AR GYFER CYMORTH YN Y CYFARFOD LLAWN YN YR AROLWG (I FYNY O 7.70 Y FLWYDDYN FLAENOROL)

**46**

O STAFF YN DYSGU CYMRAEG

**90,004**

WEDI EDRYCH AR INBRIEF/PIGION, BLOG Y GWASANAETH YMCHWIL

**100%**

O ADRODDIADAU PWYLLGOR WEDI CAEL SYLW YN Y CYFRYNGAU DARLLEDU NEU'R WASG

### YMGYSYLLTU Â PHOBL CYMRU A HYRWYDDO CYMRU

**131**

YSGOL WEDI CYMRYD RHAN AM Y TRO CYNTAF

**163,158**

O YMWELWYR Â'R SENEDD/PIERHEAD

**274,905**

O YMWELWYR Â'R WEFAN Y MIS AR GYFARTALEDD

**239**

YMWELIAD RHYNGWLADOL I'R CYNULLIAD NEU GANDDO

**72%**

LEFEL YR YMGYSYLLTIAD STAFF YN ÔL YR AROLWG STAFF BLYNYDDOL
(59% YW CANOLRIF Y GWASANAETH SIFIL)

**7.6%**

LLEIHAD MEWN ALLYRIADAU
(YMHELL DROS Y TARGED BLYNYDDOL O 6%)

**£866,000**

ARBEDION GWERTH AM ARIAN (YN ERBYN TARGED O £500,000)

**0.13%**

TANWARIANT CYLLIDEB
(YMHELL O FEWN Y TARGED O <1%)

**450** O STAFF AMSER LLAWN A DIDUEDD YN WLEIDYDDOL YN GWEITHIO I GOMISIWN Y CYNULLIAD

**£52.3 MILIWN**

CYLLIDEB FLYNYDDOL CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## Crynodeb o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol

| Darparu cefnogaeth seneddol o’r radd flaenaf | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| **KPI 1: Prydlondeb a darparu gwasanaethau**<br>Perfformiad cyson uchel o ran cyhoeddi papurau pwyllgor, papurau briffio a Chofnod y Trafodion yn brydlon, er gwaethaf cyfnod brig o ran craffu deddfwriaethol. | gwyrdd | gwyrdd |
| **KPI 2: Datblygiad proffesiynol**<br>Arweiniodd adolygiad o'r ddarpariaeth dysgu iaith ar gyfer Aelodau a staff at greu tîm Sgiliau Iaith newydd. Mae'r Comisiwn yn parhau i rannu ei brofiadau a'i arbenigedd ar weithio'n ddwyieithog a chafodd ei gynrychioli ar y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg ym maes Datblygu Economaidd a Gweinyddu Llywodraeth Leol. | oren | gwyrdd |

| Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| **KPI 3: Ymgysylltu yn y Cynulliad**<br>Er y bu gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr, cynyddodd y nifer sy'n ymgysylltu â'r Cynulliad drwy fynd ar deithiau. Roedd lefelau boddhad yr ymwelwyr yn parhau i fod yn uwch na'r targed. | gwyrdd | gwyrdd |
| **KPI 4: Proffil allanol y Cynulliad**<br>Gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, tyfodd ein presenoldeb ar-lein yn sylweddol. Mae gwaith y pwyllgorau yn parhau i gael cryn sylw yn y cyfryngau. | gwyrdd | gwyrdd |

| Defnyddio adnoddau’n ddoeth | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| **KPI 5: Perfformiad cyllidebol**<br>Sefyllfa gref: cyflawni tanwariant o 0.13 y cant o'r gyllideb, ymhell o fewn y targed o lai nag un y cant; roedd hefyd yn rhagori ar y targed gwerth am arian. | gwyrdd | gwyrdd |
| **KPI 6: Staff**<br>Roedd rheoli absenoldeb yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol, ac roedd rhai lefelau absenoldeb yn peri pryder. Cyflwynwyd gwelliannau i'n dulliau o reoli perfformiad a datblygu staff a chafwyd adborth cadarnhaol. | oren | oren |
| **KPI 7: Gwasanaeth i gwsmeriaid TGCh**<br>Gwnaed gwelliannau drwy hyfforddiant parhaus ar gyfer asiantau'r Ddesg Gymorth. Cafodd hyn ei adlewyrchu gan gynnydd yn sgoriau boddhad cwsmeriaid. | oren | oren |
| **KPI 8: Llywodraethu**<br>Er gwaethaf cynnydd yn y nifer o geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd, bu cynnydd yn y nifer a atebwyd o fewn y terfyn amser statudol. | gwyrdd | gwyrdd |

| | | |
|---|---|---|
| **KPI 9: Cynaliadwyedd**<br>Parhaodd y cynnydd da yn erbyn y targed newydd ar gyfer gostyngiad yn y cyfanswm ynni. Pennwyd targed newydd o sero tunnell o wastraff i safleoedd tirlenwi erbyn Mawrth 2021 a dechreuodd gwaith tuag at gyflawni hyn. | gwyrdd | gwyrdd |

| Hynt blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| **Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf**<br>Cefnogodd staff y Comisiwn y pwyllgorau i lunio adroddiadau etifeddiaeth a ddisgrifiodd effaith eu gwaith yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, ac a wnaeth argymhellion i lywio gwaith y pwyllgorau a fydd yn eu holynu yn y Pumed Cynulliad. | gwyrdd | gwyrdd |
| **Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru**<br>Mae lefelau ymgysylltu da yn parhau â busnes y Cynulliad. Mae ymgysylltiad â'r cyfryngau cymdeithasol wedi gwella'n sylweddol. | gwyrdd | gwyrdd |
| **Defnyddio adnoddau'n ddoeth**<br>Roedd y gwaith i adnewyddu TGCh Siambr y Senedd a gwella'r ergonomeg bron wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Cafodd rhwydweithiau diwifr gwell eu gosod ym mhob swyddfa etholaeth, a gwnaed newidiadau i helpu i ddefnyddio llai o ynni a chyflawni targedau cynaliadwyedd. | gwyrdd | gwyrdd |

| Arolwg o foddhad yr Aelodau | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| **Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf**<br>Dangosodd arolwg boddhad 2015 welliant sylweddol yn y sgoriau ar gyfer cymorth cyffredinol y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgorau, gan godi o 7.7 i 8.7 ac o 7.9 i 8.4 yn y drefn honno. | gwyrdd | gwyrdd |
| **Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru**<br>Dangosodd arolwg boddhad 2015 welliant amlwg yn y sgôr ar gyfer effeithiolrwydd cyffredinol o ran ymgysylltu, gan godi o 6.7 i 7.4. | oren | gwyrdd |
| **Defnyddio adnoddau'n ddoeth**<br>Dangosodd arolwg boddhad 2015 welliant sylweddol yn y sgoriau ar amrywiaeth o wasanaethau i Aelodau, gan gynnwys lwfansau a staffio a TGCh, gan godi o 8.7 i 9.3 ac o 7.5 i 8.4 yn y drefn honno. | gwyrdd | gwyrdd |

## Allwedd

COCH: Mae materion sylweddol yn effeithio ar y gallu i gyflawni amcanion busnes. I sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni, mae angen newidiadau o ran amser, costau a/neu gwmpas.

OREN: Mae materion neu risgiau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd modd cyflawni'n llwyddiannus heb effeithio rhyw lawer ar y gyllideb, safon gwasanaethau na dyddiadau targed.

GWYRDD: Mae gwaith yn bodloni'r safonau y cytunwyd arnynt neu yn mynd rhagddo fel y cynlluniwyd. Mae pob risg sy'n hysbys yn cael ei rheoli.



**10 mlynedd o’r Senedd: 2006-2016**
Yr Arglwydd Richard Rogers, un o benseiri’r Senedd, yn llofnodi’r llyfr gwadd yn dilyn taith o amgylch yr adeilad gyda’r Llywydd.

# Ein perfformiad: dadansoddiad

## BUSNES Y CYNULLIAD

Yn ystod 2015-16, bu Aelodau'r Cynulliad yn cynrychioli eu hetholwyr ac yn craffu ar bolisi, deddfwriaeth a gwariant y Llywodraeth mewn cyfarfodydd pwyllgor a'r Cyfarfod Llawn yn wythnosol.

**66** CYFARFOD LLAWN

**20** CWESTIWN BRYS

**8** DADL AELODAU UNIGOL

**10** BIL YN CAEL CYDSYNIAD BRENHINOL

**286** CYFARFOD PWYLLGOR

**82** ADRODDIAD PWYLLGOR

# Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf

Eleni, darparodd y Comisiwn ystod o gefnogaeth i Aelodau er mwyn: cwblhau rhaglen craffu deddfwriaethol drom y Cynulliad (gan gynnwys y Bil treth cyntaf); archwilio cynigion ar gyfer newid cyfansoddiadol pellach; ymgymryd â gwaith pwyllgorau; defnyddio ein dwy iaith swyddogol; ystyried newidiadau gweithdrefnol a newidiadau i brosesau; trawsnewid y ffordd rydym yn creu, defnyddio a rhannu gwybodaeth; a myfyrio ar waith y Pedwerydd Cynulliad.  Roedd yr holl weithgareddau hyn yn sail i'r paratoadau manwl ar gyfer y Pumed Cynulliad.

## Craffu deddfwriaethol a'r Bil treth cyntaf

Fe wnaeth y Cynulliad waith craffu ar 11 Bil eleni, gan gynnwys pedwar Bil a gyflwynwyd eleni. Rhwng mis Ebrill a mis Hydref, roedd y Cynulliad yn aml yn trafod wyth Bil ar yr un pryd. O'r 11 Bil, cafodd naw eu rhoi i dri phwyllgor. Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth, cafodd 930 o welliannau i bum Bil eu trafod yn y Cyfarfod Llawn. Roedd y rhain yn cynnwys 34 o welliannau a gyflwynwyd gan Aelodau nad oeddent yn perthyn i'r Llywodraeth a dderbyniwyd gan y Cynulliad. Sicrhawyd bod cefnogaeth effeithiol ar gyfer y lefel hon o graffu drwy gynllunio capasiti yn dda a gweithio mewn ffordd integredig ar draws meysydd gwasanaeth er mwyn gallu ymateb a bod yn hyblyg.

Roedd y gwelliannau a wnaed i wasanaethau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys canllawiau newydd ar y broses ddeddfu, cyhoeddi newidiadau argraffu (cywiriadau i Filiau rhwng y Cyfnodau gwneud gwelliannau) i wella tryloywder a diweddaru'r templed i Aelodau ei ddefnyddio i gyflwyno gwelliannau. Cryfhawyd hefyd y dull o graffu ar faterion hawliau dynol, er enghraifft, yn ystod Cyfnod 1 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys ar y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru). Ynghyd â'r timau craidd sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chefnogi craffu deddfwriaethol (clercod, cyfreithwyr, ymchwilwyr, arbenigwyr cyfathrebu a chyfieithwyr), roedd rolau allweddol gan dechnegwyr, staff diogelwch ac arlwywyr.

Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i ddeddfau â'r bwriad i:

- sicrhau bod y sector cyhoeddus yn canolbwyntio ar atal trais yn erbyn menywod, trais domestig a thrais rhywiol, amddiffyn dioddefwyr a chefnogi'r rhe'ni y mae'r materion hyn yn effeithio arnynt;
- sefydlu corff rheoleiddio annibynnol â chyfrifoldeb dros gydnabod cyrff dyfarnu ac adolygu a chymeradwyo cymwysterau heblaw graddau;
- gwarchod adeiladau rhestredig a henebion yn fwy effeithiol, gwella'r trefniadau presennol ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn effeithiol, a gwneud penderfyniadau ynghylch yr amgylchedd hanesyddol yn fwy trlyloyw ac atebol;
- caniatáu rhywfaint o waith paratoadol i alluogi rhaglen o uno a diwygio mewn llywodraeth leol a chynnwys darpariaethau i hwyluso uno cynnar gwirfoddol gan ddau awdurdod lleol neu fwy;
- diwygio'r gyfundrefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth;

- pennu fframwaith i awdurdodau cyhoeddus Cymru allu ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu, heb atal cenedlaethau’r dyfodol rhag diwallu eu hanghenion eu hunain (yr egwyddor datblygu cynaliadwy);
- cryfhau gwaith cynllunio ar sail cynlluniau, gan gynnwys fframwaith cyfreithiol newydd i Weinidogion Cymru ar gyfer paratoi cynllun defnydd tir cenedlaethol;
- diwygio’r sail gyfreithiol ar gyfer rhentu cartref gan landlord preifat neu landlord cymunedol, gan gynnwys awdurdodau lleol a landlordiaid cofrestredig;
- gwneud newidiadau i’r gwaith o gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru ar lefel genedlaethol a lleol; a
- gofyn bod cyrff y gwasanaeth iechyd yn sicrhau bod niferoedd digonol o nyrsys yn cael eu defnyddio.

*Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* oedd yr ail Fil a gyflwynwyd gan Aelod Cynulliad unigol (yn hytrach nag ar ran Llywodraeth Cymru, y Comisiwn neu bwyllgor) i ddod yn gyfraith. Mae gan y Comisiwn rôl ddeuol mewn perthynas â Bil o'r fath. Rydym yn cynorthwyo'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil i'w ddatblygu a'i hyrwyddo, yn ogystal â chynorthwyo'r Aelodau eraill i graffu ar y Bil.

Mae craffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol wedi bod yn nodwedd reolaidd o waith y pwyllgorau. Mae'r rhain yn darparu gwybodaeth i helpu'r Cynulliad i benderfynu a ddylid rhoi caniatâd i Senedd y DU wneud deddfau sy'n cael effaith yng Nghymru. Fe wnaeth y pwyllgorau drafod 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol eleni ac adrodd arnynt, ac fe gawsant eu trafod yn y Cyfarfod Llawn yn dilyn hynny. Rhoddodd y Cynulliad ei gydsyniad ar gyfer wyth Memorandwm. Ni roddwyd cydsyniad ar gyfer dau Fil, ac fe wnaeth Senedd y DU ddiwygio un o'r rheini.

Ym mis Gorffennaf 2015, cafodd y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) ei gyflwyno. Hwn oedd Bil treth cyntaf y Cynulliad yn dilyn datganoli pwerau trethi penodol i'r Cynulliad gan Ddeddf Cymru 2014. Mae'r Bil yn sefydlu'r fframwaith cyfreithiol angenrheidiol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru, sef y rhai ar drafodion tir ac anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi, a dyma fydd y trethi Cymreig cyntaf ers 800 mlynedd.

Wrth baratoi ar gyfer craffu ar y Bil, cynhaliodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad ymchwiliad rhagarweiniol i gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru.  Cyfarfu'r Pwyllgor â'r pwyllgor cyfatebol yn yr Alban i rannu arfer da ac i ddysgu o'i brofiad o graffu ar ddeddfwriaeth trethi, yn dilyn rhoi pwerau o dan Ddeddf yr Alban 2012. O ystyried natur gymhleth a thechnegol y Bil, penododd y Pwyllgor gynghorydd arbenigol a oedd yn gweithio ochr yn ochr â staff y Comisiwn i ddarparu'r safon uchaf o gefnogaeth drwy gydol y broses craffu deddfwriaethol.

Mae datganoli pwerau trethi yn ychwanegu dimensiwn newydd at waith y Cynulliad. I gydnabod hynny, fe sefydlwyd rhaglen ddatblygu ar gyfer Aelodau, eu staff cymorth a staff y Comisiwn. Nod y rhaglen yw datblygu sgiliau a gwybodaeth fewnol mewn perthynas â threthiant a defnyddio arbenigedd allanol ac arferion da deddfwrfeydd eraill. Fe ddechreuodd gwaith hefyd ar weithdrefnau cyllideb newydd i sicrhau parodrwydd ar gyfer craffu ar y gyllideb yn dilyn newidiadau cyllidol yn 2018.

# Dysgu a gwella trwy ymgysylltu

Oherwydd natur gymhleth a thechnegol y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid ddigwyddiad rhanddeiliaid anffurfiol cyn ystyried y Bil yn ffurfiol. Cynlluniwyd y digwyddiad i roi cyfle i gyfranogwyr rannu eu barn a chael trafodaeth fwy agored. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i glywed gan arbenigwyr trethi a chynrychiolwyr o'r sector cyfreithiol a'r sector cyfrifyddu, ac fe sicrhawyd achrediad datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y digwyddiad fel cymhelliad pellach i bobl ddod. Yn dilyn y digwyddiad, rhoddodd y cyfranogwyr adborth cadarnhaol eu bod yn croesawu trafod y materion yn llawn ac yn agored ac roeddent yn awyddus i fynychu digwyddiadau tebyg i drafod Biliau trethi datganoledig yn y dyfodol.

Fel rhan o'n cenhadaeth i gynyddu'r ymgysylltiad mewn gwaith pwyllgorau, mae staff y Comisiwn, mewn partneriaeth â Chwarae Teg, wedi datblygu rhaglen hyfforddi gyda'r nod o annog mwy o fenywod, yn enwedig y rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r pwyllgorau. Cafodd y rhaglen ei chynllunio i chwalu unrhyw ddirgelwch o ran rhoi tystiolaeth i bwyllgor ac i fagu hyder wrth siarad o flaen cynulleidfa. Yn ogystal â chael cyflwyniadau ar brosesau'r pwyllgorau gan Aelodau Cynulliad a staff y Comisiwn, gofynnwyd i gyfranogwyr lunio tystiolaeth ysgrifenedig i'w chyflwyno i gyfarfod pwyllgor ffug. Mae'r rhaglen wedi bod ar waith ers dwy flynedd, ac mae wedi cael adborth cadarnhaol iawn gan y cyfranogwyr.

Defnyddiodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol banel arbenigol o dri ymarferydd cyfreithiol i ystyried drafft cyntaf yr adroddiad ar ddeddfu yng Nghymru. Roedd y Pwyllgor yn gallu profi canfyddiadau cychwynnol ac argymhellion gyda'r panel, a oedd yn hynod ddefnyddiol wrth helpu i sicrhau bod yr adroddiad o ansawdd uchel ac yn mynd i gael derbyniad da.



# DEDDFU AR GYFER CYMRU

Biliau a'u cynnydd drwy'r Cynulliad (ar 31 Mawrth 2016) a'r Biliau a gafodd Gydsyniad Brenhinol dros y flwyddyn ddiwethaf.

1

**Cyfnod 1:** Ymchwiliad pwyllgor ac yna dadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr egwyddorion cyffredinol

**Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)***

**Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)***

2

**Cyfnod 2:** Pwyllgor yn trafod gwelliannau

3

**Cyfnod 3:** Trafod y gwelliannau yn y Cyfarfod Llawn

4

**Cyfnod 4:** Trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar a ddylid pasio'r Bil

**Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)**
Gwrthodwyd gan y Cynulliad yng Nghyfnod 4

**Ar ôl Cyfnod 4:** Cyfnod paratoi Bil ar gyfer Cydsyniad Brenhinol, neu ei gyfeirio at y Goruchaf Lys

**Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)***
Canfu'r Goruchaf Lys fod y Bil y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ar ei ffurf bresennol.

**Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)**
(cafodd Gydsyniad Brenhinol yn dilyn hynny)

**Cydsyniad Brenhinol:** Daw'r Bil yn gyfraith

- **Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**
- **Deddf Cymwysterau Cymru 2015**
- **Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016**
- **Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015**
- **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016**
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
- **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**
- **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016**
- **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**
- **Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016**

* Methodd y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru), y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) a'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) ar ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad (5 Ebrill 2016).

## Newid cyfansoddiadol pellach a Bil Cymru drafft

Ar ôl hir aros, cyhoeddwyd Bil Cymru drafft ym mis Hydref 2015. Roedd y Bil drafft yn nodi cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer setliad datganoli newydd i Gymru. Mae'n darparu ar gyfer model "cadw pwerau", a fyddai'n galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ar unrhyw fater nad yw wedi'i gadw'n benodol. Nod y model, ynghyd â'r profion cymhwysedd ar gyfer deddfwriaeth y Cynulliad, yw creu'r fframwaith ar gyfer gweithredu datganoli yng Nghymru yn y dyfodol. O ystyried ei arwyddocâd cyfansoddiadol, nid yw'n syndod bod y Bil drafft a'r ffordd yr aeth Llywodraeth y DU ati i ddatblygu darpariaethau'r Bil drafft wedi bod yn destun cryn drafodaeth.

Roedd gan y Llywydd rôl flaenllaw wrth weithio gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i geisio dylanwadu ar y cynigion yn y Bil drafft, cyn ac ar ôl ei gyhoeddi. Cyfrannodd y Llywydd hefyd at waith Senedd y DU ynghylch nifer o faterion cyfansoddiadol eraill, gan gynnwys Pleidleisiau Lloegr ar gyfer Cyfreithiau Lloegr, dyfodol y DU, yr Adolygiad o Siarter y BBC a chymhwyso athrawiaeth Wilson i Aelodau'r Cynulliad.

Darparodd y Comisiwn gefnogaeth i drafodaethau'r Cynulliad ar y Bil drafft, gan gynnwys rhoi sesiynau briffio rheolaidd i Aelodau. Gweithiodd y staff gydag arbenigwyr mewn trefniadau cyfansoddiadol a llywodraethu, gan sicrhau y byddai'r Cynulliad yn parhau i gael mynediad at adnoddau ac arbenigedd ychwanegol i helpu i baratoi ar gyfer newid cyfansoddiadol a'i roi ar waith.

Yn fuan ar ôl ei gyhoeddi, cynhaliodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad ymchwiliad ar y Bil drafft gan ymgynghori ag amrywiaeth eang o randdeiliaid. Yn dilyn cais gan y Llywydd, edrychodd pwyllgorau eraill y Cynulliad ar effaith debygol y Bil drafft ar y meysydd pwnc o fewn eu cylchoedd gwaith. Darparodd cyfreithwyr y Comisiwn, ynghyd â chlercod ac ymchwilwyr, wybodaeth fanwl i fod yn sail i'r broses craffu cyn deddfu hon. Roedd y wybodaeth yn cynnwys dadansoddiad o'r cymalau cadw arfaethedig yn ogystal â chyngor ar faterion technegol a drafftio. Cyflwynodd y pwyllgorau eu casgliadau fel tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac yna eu hanfon at y Prif Weinidog, y Llywydd ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Rhoddodd swyddogion y Comisiwn gefnogaeth i Aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gyhoeddi adroddiad trylwyr ac awdurdodol er gwaethaf cyfyngiadau amserlen dynn iawn ar gyfer ymgynghori ar y ddeddfwriaeth. Roedd yr adroddiad yn destun dadl "digynsail", yng ngeiriau'r Llywydd, yn y Cyfarfod Llawn, wedi'i strwythuro o amgylch casgliadau allweddol yr ymchwiliad. Roedd yr Aelodau a gymerodd ran yn y ddadl yn unfrydol o ran croesawu'r adroddiad.

Yn ddi-os, dylanwadodd hyn ar yr oedi cyn cyflwyno'r Bil a'r newidiadau a addawyd gan Lywodraeth y DU.

## Defnyddio dulliau adrodd arloesol

Mabwysiadodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol nifer o ddulliau ymgysylltu arloesol fel rhan o'i ymchwiliad i gamddefnyddio alcohol a sylweddau. Sefydlwyd dau grŵp cyfeirio, mewn partneriaeth â NewLink Cymru, er mwyn galluogi'r Aelodau i ddefnyddio profiadau defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau ar y rheng flaen. Roedd fforwm ar-lein yn galluogi aelodau'r grŵp cyfeirio i rannu eu barn rhwng cyfarfodydd. Yn ddiweddarach, cyfarfu'r grŵp ag aelodau'r Pwyllgor i drafod cwestiynau a materion pwysig cyn sesiwn dystiolaeth gyda'r Dirprwy Weinidog.

Ar gyfer yr ymchwiliad i waith athrawon cyflenwi, creodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ddau arolwg; un ar gyfer plant a phobl ifanc oed ysgol a'r llall ar gyfer eu rhieni a'u gofalwyr. Roedd yr arolwg yn gofyn i gyfranogwyr am waith athrawon cyflenwi a'i effaith ar ddisgyblion, gan gynnwys sut y mae gwersi athrawon cyflenwi yn wahanol i rai athrawon parhaol. Cafodd y Pwyllgor 1,486 o ymatebion i'r arolwg; 929 gan blant a phobl ifanc a 557 gan rieni a gofalwyr. Cafodd canlyniadau'r arolwg sylw yn y newyddion, ar ôl i'r cyfryngau gymryd diddordeb cyn diwedd yr ymchwiliad.

Yn ogystal â'r dull traddodiadol o lunio copïau caled o adroddiadau, mae sawl pwyllgor hefyd wedi llunio adroddiadau cryno i'w darllen ar ddyfeisiau symudol. Aeth y Pwyllgorau ati i gyhoeddi'r adroddiadau cryno hyn ar eu gwefannau, eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol a'u cynnwys mewn blogiau. Fe elwodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar y dull hwn ar gyfer adroddiad ar dlodi ac anghydraddoldeb yng Nghymru. Cafodd y crynodeb 3,000 o ymweliadau.



## Cefnogi pwyllgorau o'r radd flaenaf

Y pwyllgorau yw asgwrn cefn y broses ddemocrataidd yng Nghymru. Roedd gan bwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad rôl ddeuol yn archwilio deddfwriaeth ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi. Ystyriwyd hefyd bolisi a chyllid yr UE, lle bo hynny'n briodol i'w cylch gwaith. Cafodd y rôl graffu ddeuol ei chynllunio i ddefnyddio a datblygu gwybodaeth ac arbenigedd yr Aelodau yn eu meysydd pwnc, gan alluogi gwaith craffu manylach a gwell ar bolisi a deddfwriaeth.

Nododd y Comisiwn weledigaeth ar gyfer pwyllgorau:

> "Dylent wella yn amlwg ansawdd canlyniadau polisi, deddfwriaeth, gwasanaethau cyhoeddus a gwariant y Llywodraeth ar gyfer y gymdeithas gyfan yng Nghymru. Dylent gael eu parchu a bod yn ddylanwadol a hygyrch, gan weithredu gyda gonestrwydd ac annibyniaeth. Dylai eu gwaith fod yn strategol a thrwyadl."

Cafodd pob pwyllgor gefnogaeth yn ei waith gan dîm integredig sy'n darparu cyngor a gwybodaeth arbenigol, ac sy'n cynnwys clercod, ymchwilwyr, staff allgymorth, staff cyfathrebu, cyfreithwyr a chyfieithwyr. Defnyddiodd yr Aelodau yr arbenigedd hwn drwy gydol y flwyddyn i gydbwyso llwyth gwaith craffu deddfwriaethol trwm gydag amrywiaeth o ymholiadau polisi pwysig ac arloesol ar ystod o bynciau.

Mae'r timau integredig wedi parhau i wella'r gwasanaethau a ddarperir i Aelodau. Gan fynd ati i wella canlyniadau'r ymarfer a gynhaliwyd y flwyddyn flaenorol ynghylch dewisiadau'r Aelodau, parhaodd y timau i weithio gydag Aelodau a'u staff i sicrhau bod y cymorth a gânt yn ystyried eu hanghenion unigol. Parhaodd boddhad Aelodau â'r gwasanaethau hyn i gynyddu. Gwelwyd gwelliant cyffredinol yng nghanlyniadau Arolwg Aelodau'r Cynulliad a'u Staff Cymorth yn 2015 yn sgôr yr Aelodau (cynnydd i 8.4 allan o 10 yn hytrach na 7.9 allan o 10) a chafwyd sylwadau cadarnhaol dros ben, yn canmol cymwynasgarwch aelodau'r tîm ac ansawdd y gwaith ymchwil, gan gynnwys yr agweddau cyfreithiol, a ddarparwyd.

Parhaodd y pwyllgorau i fynd ar drywydd nod y Comisiwn o ehangu ymgysylltu â gwaith y Cynulliad a dealltwriaeth ohono. Gwnaed hynny drwy gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau y tu allan i Gaerdydd, yn ogystal â dod o hyd i ffyrdd newydd o gasglu barn pobl nad yw eu lleisiau wedi cael sylw.

Mae defnyddio cyfryngau cymdeithasol wedi dod yn rhan annatod o gynnwys pobl yng ngwaith y pwyllgorau. Defnyddiodd pob pwyllgor gyfrif Twitter Cymraeg a Saesneg i hyrwyddo eu gwaith a'u digwyddiadau i gynulleidfa ehangach ar-lein. Manteisiodd y Pwyllgorau ar dechnolegau eraill i gyflwyno eu gwaith mewn ffyrdd cynyddol arloesol a hygyrch, er enghraifft, defnyddio Storify i rannu gwybodaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol ynghylch ymchwiliadau pwyllgorau, cynhyrchu adroddiadau fideo 60 eiliad a chyhoeddi adroddiadau cryno i'w darllen ar ddyfeisiau symudol.

# Datblygiad Proffesiynol Parhaus i Aelodau'r Cynulliad a'u staff

Eleni, manteisiodd Aelodau a'u staff cymorth ar ystod eang o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys:

- Rhaglen ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgorau
- Cwrs Cynefino ar gyfer dau Aelod newydd
- Gweithdy deddfwriaeth
- Sesiwn Friffio ar Fil Cymru a Chadw Pwerau
- Sesiwn Friffio ar Gyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi
- Gloywi Iaith (sesiynau gloywi ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl)
- Gwersi Cymraeg wythnosol a chyrsiau Cymraeg dwys
- Ysgrifennu areithiau
- Diploma Rheoli ac Arwain Lefel 5
- Sesiwn gwybodaeth bolisi gan y Gwasanaeth Ymchwil
- Cymorth cyntaf yn y gwaith a chymorth cyntaf iechyd meddwl
- Ymgysylltu a chyfathrebu â'r cyhoedd, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyron
- Cydraddoldeb



## Gweithio yn ein dwy iaith swyddogol

Gweithiwyd yn galed drwy gydol y flwyddyn i wneud cynnydd gwirioneddol tuag at ein nod o gael ein cydnabod fel sefydliad gwirioneddol ddwyieithog. Mae'r adroddiad blynyddol diweddaraf ar gydymffurfiaeth â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn dangos rhagor o welliannau yng ngwasanaethau dwyieithog y Comisiwn. Ym mis Ebrill 2015, cyhoeddwyd ein Strategaeth Sgiliau Dwyieithog gyntaf, a oedd yn nodi ein dull o ddarparu gwasanaeth dwyieithog o safon uchel i Aelodau a'r cyhoedd. Defnyddiwyd y strategaeth i ddechrau newid ffocws adnoddau staff a newid diwylliant y sefydliad er mwyn sicrhau mai gweithio'n ddwyieithog yw'r norm. Mae cynllun iaith ar gyfer pob maes gwasanaeth yn sail i hynny, sy'n galluogi swyddogion recriwtio i ystyried capasiti'r tîm i ddarparu gwasanaethau dwyieithog cyn hysbysebu swyddi gwag.

Hefyd adolygwyd a chryfhawyd ein darpariaeth addysgu a dysgu Cymraeg i Aelodau, staff cymorth a staff y Comisiwn.

Mae'r gwasanaeth dwyieithog a ddarperir i bobl sy'n ffonio prif rif cyswllt y Cynulliad wedi gwella gydag opsiwn newydd i ddewis Cymraeg neu Saesneg ar gyfer parhau â'r alwad, fel y gall galwyr glywed cyhoeddiadau a chael eu cyfarch gan aelod o'r tîm Gwybodaeth i'r Cyhoedd yn eu dewis iaith.

Roedd dewis iaith yn rhan fawr o'r gwaith a gyflawnwyd gan dimau integredig y pwyllgorau er mwyn nodi dewisiadau Aelodau a'u rhoi ar waith. Arweiniodd hyn at gynnydd yn nifer y papurau pwyllgor preifat sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae swydd clerc-gyfieithydd barhaol wedi'i chreu yn y Swyddfa Gyflwyno ac mae hynny wedi sicrhau bod cyflwyno cwestiynau i Weinidogion a chynigion ar gyfer dadleuon yn y Cyfarfod Llawn yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog yn gyflymach ac yn effeithlon.

## Adolygu gweithdrefnau a phrosesau

Cafodd dwy set sylweddol o newidiadau i'r Rheolau Sefydlog eu cymeradwyo yn ystod y flwyddyn. Ym mis Mehefin 2015, diwygiodd y Cynulliad ei weithdrefnau ar ddatgan buddiannau, yn unol ag argymhellion y Comisiynydd Safonau a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Y prif newid oedd cyflwyno gofyniad newydd fod Aelodau'n datgan buddiannau "perthnasol" cyn cymryd rhan mewn trafodion, lle y gallai eraill feddwl yn rhesymol y gallai'r buddiant ddylanwadu ar gyfraniad yr Aelod. Cyn hynny, dim ond mewn amgylchiadau penodol iawn yr oedd angen datgan buddiannau, ac mae'r newid wedi gwella tryloywder.

Roedd yr ail set o newidiadau gweithdrefnol yn ymwneud â deddfwriaeth y Cynulliad. Cafodd Rheol Sefydlog 26 (Deddfau'r Cynulliad) ei hadolygu yn dilyn argymhellion gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ei adroddiad 'Deddfu yng Nghymru'. Nododd yr adroddiad nifer o ffyrdd y gellir gwella'r broses deddfu ac fe wnaed argymhellion i'r Comisiwn, Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Busnes, sy'n gyfrifol am strwythur, amserlenni a gweithdrefnau'r Cynulliad. Ymatebodd y Comisiwn yn gadarnhaol i adroddiad y Pwyllgor gan dderbyn yr holl argymhellion. Cynigiodd y Pwyllgor Busnes newidiadau sylweddol yn sgil yr adroddiad, fel cynyddu faint o wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu pan gaiff Bil ei gyflwyno a gwella eglurder a chysondeb y weithdrefn ddeddfu yn ei chyfanrwydd. Cytunodd y Cynulliad i'r newidiadau hyn, yn ogystal â'r newidiadau i ymestyn cwmpas Rheol Sefydlog 26A ar Filiau preifat. Cafodd gweithdrefn gwbl newydd ar gyfer Biliau hybrid hefyd ei chyflwyno, gan gyfuno elfennau o weithdrefnau Biliau cyhoeddus a phreifat.

Yn dilyn adolygiad o'r trefniadau ar gyfer deisebau cyhoeddus, gan gynnwys ymweld â Dulyn a Brwsel i ddysgu o brofiadau seneddau eraill, gwnaeth y Pwyllgor Deisebau nifer o argymhellion i'w hystyried gan y Pumed Cynulliad.

Cafwyd cyfle annisgwyl i brofi rhai o'n gweithdrefnau a'n prosesau pan alwodd y Llywydd, ar gais y Prif Weinidog, y Cynulliad yn ôl yn ystod Toriad y Pasg i drafod mater brys o bwysigrwydd cyhoeddus: y cyhoeddiad ynghylch gwerthu Tata Steel UK. Galwodd Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes gyfarfod o'r Pwyllgor hwnnw y diwrnod canlynol hefyd. Gan mai'r disgwyliad oedd y byddai toriad y Pasg yn arwain yn syth ymlaen i ddiddymiad y Cynulliad, dechreuodd y paratoadau ar gyfer y gwaith o adnewyddu ystâd y Cynulliad (gan gynnwys y Siambr - gweler tudalen 52) yn syth ar ôl i fusnes ddod i ben ar 16 Mawrth ac, erbyn galw'r Cynulliad yn ôl ar 30 Mawrth, roedd y gwaith yn mynd rhagddo'n dda. Fodd bynnag, o ganlyniad i'n gwaith cynllunio cadarn o ran rheoli risg a pharhad busnes, cafodd yr ystâd ei pharatoi ar gyfer cefnogi busnes y Cynulliad gydag ychydig ddyddiau o rybudd. Roedd modd i'r Aelodau ddychwelyd i drafod a chraffu ar y datblygiad pwysig hwn ac asesu'r effaith ar economi Cymru.

## Trawsnewid ein gwybodaeth

Eleni, rydym wedi cynnal sawl prosiect i wella gwasanaethau busnes y Cynulliad er mwyn gwneud y mwyaf o'n gallu i ddarparu cefnogaeth o'r radd flaenaf a galluogi'r Cynulliad i fod yn wirioneddol hygyrch a thryloyw. Y prif ysgogiad ar gyfer y gwaith hwn oedd:

- y pwysau cynyddol ar Aelodau a gwasanaethau'r Comisiwn;
- y ffaith bod disgwyliadau'r cyhoedd am sut y maent yn ymgysylltu â gwleidyddiaeth, gan gynnwys eu profiad digidol, yn newid yn gyflym; a'r
- y cyfle i sicrhau bod ein gwybodaeth yn fwy hygyrch, yn hawdd dod o hyd iddi, yn berthnasol, ac y gellir ei hailddefnyddio er mwyn gwasanaethu'r Aelodau a phobl Cymru yn well.

Ddiwedd 2015, cwblhawyd adolygiad cynhwysfawr o Gofnod y Trafodion, gan ystyried barn defnyddwyr. Cytunodd y Comisiwn ar weledigaeth ar gyfer y dyfodol mewn byd digidol sy'n esblygu, sef y dylai'r Cofnod fod ar gael yn gynt, yn hygyrch a bod modd ei ailddefnyddio. Cydnabu'r Comisiwn y dylai sicrhau bod trafodion y Cynulliad yn fwy tryloyw fod yn rhan annatod o'n strategaeth gyfathrebu, i helpu pobl Cymru i ddeall beth y mae’r Cynulliad yn ei drafod ac yn penderfynu arno.

Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer y Pumed Cynulliad, heb unrhyw gost ychwanegol, fe aildrefnwyd adnoddau i gyhoeddi'r Cofnod drafft o fewn dwy awr i'r geiriau gael eu siarad, a hynny mewn fformat haws ei ddefnyddio. Mae'r Cofnod dwyieithog terfynol ar gael yn gynt na'r amserlen pum niwrnod blaenorol. Gall y cyhoedd chwilio am areithiau Aelodau unigol a sut y gwnaethant bleidleisio ac fe gaiff y Cofnod ei gyhoeddi fel setiau data agored. Yn ogystal â chyflwyno arbedion effeithlonrwydd yn ystod y broses, cytunodd y Comisiwn fod angen rhagor o integreiddio ar draws y Cofnod, trawsgrifiadau pwyllgor, Senedd TV, datganiadau newyddion a'n sianelau cyfryngau cymdeithasol i roi mwy o amlygrwydd iddynt ar ein hafan ar y rhyngrwyd ac ar ein gwasanaethau newyddion.

Fe gynyddwyd hefyd ein hystod o dechnegau ymgysylltu digidol ac fe wnaed gwelliannau i wefan y Cynulliad yn dilyn adborth gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgor Cyllid y Cynulliad.

Rydym yn cydnabod bod angen newid sylweddol yn y Pumed Cynulliad i'r ffordd rydym yn cynhyrchu, rheoli a defnyddio gwybodaeth busnes y Cynulliad os yw'r Comisiwn yn dymuno i'r Cynulliad gael ei ystyried fel senedd ddigidol o'r radd flaenaf sy'n agored, yn gynhwysol ac yn hawdd ymgysylltu â hi.

# Senedd10

Ym mis Mawrth 2016, cynhaliwyd ymgyrch Senedd10 i nodi 10 mlynedd ers agor y Senedd ac i godi ymwybyddiaeth am y Cynulliad, ei Aelodau a'u gwaith hwy. Roedd yr ymgyrch hefyd yn rhan o raglen ehangach o weithgareddau i hyrwyddo etholiad y Cynulliad.

Cynhaliodd y Llywydd dderbyniad amser cinio ar Ddydd Gŵyl Dewi i ddathlu cyflawniadau'r Pedwerydd Cynulliad a diolch i'r unigolion a'r sefydliadau hynny a helpodd y Cynulliad dros y pum mlynedd diwethaf. Gyda'r hwyr, cynhaliwyd y digwyddiad 'Adeiladu ar gyfer Democratiaeth' yng nghwmni penseiri'r Senedd, yr Arglwydd Richard Rogers ac Ivan Harbour, a fu'n trafod y Senedd ddegawd ar ôl ei hagoriad. Cadeirydd y digwyddiad oedd Menna Richards OBE, cyn-reolwr BBC Cymru, ac fe drefnwyd y digwyddiad mewn partneriaeth â Chymdeithas Frenhinol Penseiri Cymru.

Cafwyd hefyd benwythnos o hwyl i'r teulu yn y Senedd, a ddenodd dros 3,000 o ymwelwyr, gan gynnwys perfformiadau gan Sioe Cyw S4C, Ysgol Glanaethwy, a lwyddodd i gyrraedd rownd derfynol 'Britain's Got Talent', a'r grwpiau lleol, côr 'City Voices' a syrcas 'No Fit State'.

Cafodd ymgyrch Senedd10 gryn sylw yn y cyfryngau, gan gynnwys darllediadau byw o'r Senedd ar Ddydd Gŵyl Dewi gan BBC Radio 2, Radio Wales a Radio Cymru.



# Y Bwrdd Taliadau: trosglwyddo i'r Pumed Cynulliad

Bu'r Bwrdd Taliadau annibynnol yn ystyried pob agwedd ar y pecyn cydnabyddiaeth ar gyfer Aelodau'r Pumed Cynulliad.  Roedd hynny'n cynnwys adolygiad llawn o'r trefniadau pensiwn, newidiadau i faterion sy'n ymwneud â'r trefniadau ar gyfer staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, a lwfansau a chyflogau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Cyhoeddodd y Bwrdd ei Benderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad ym mis Mai 2015, flwyddyn gyfan cyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016.

Daeth cyfnod o wasanaeth aelodau'r Bwrdd Taliadau i ben ym mis Medi 2015 a phenodwyd Bwrdd newydd. Roedd y Comisiwn yn falch iawn o ddenu unigolion o safon uchel i wasanaethu yn ystod ail dymor pum mlynedd y Bwrdd.

Cymerodd y Bwrdd newydd ran mewn ymarfer i gysgodi amrywiaeth o rolau'r Aelodau, gan gynnwys deiliaid swyddi ac Aelodau'r meinciau cefn, yn ogystal â staff cymorth, er mwyn llywio ei raglen strategol ar gyfer y tymor nesaf.



## Paratoi ar gyfer y Pumed Cynulliad

Rhoddodd y Comisiwn gynllun ar waith ar gyfer trosglwyddo i'r Pumed Cynulliad, ar sail y profiadau yn 2011. Roedd y cynllun yn cynnwys ffrydiau gwaith gwahanol, o dan arweiniad staff uwch ac fe gafodd ei oruchwylio gan y Bwrdd Rheoli. Roedd y prif feysydd cynllunio yn cynnwys cynllunio senarios, paratoi ar gyfer y cyfnod yn union cyn ac ar ôl yr etholiad a pharatoi i gefnogi Aelodau i ddatblygu yn eu rolau ac i wella capasiti'r Pumed Cynulliad. Cafodd canllawiau eu paratoi ar gyfer pob ymgeisydd yn yr etholiad ac ar gyfer Aelodau newydd ac Aelodau fyddai'n dychwelyd a'u staff.

Rhoddwyd gwasanaethau all-leoli yn eu lle i gynorthwyo staff yr Aelodau a oedd yn rhoi'r gorau i'w seddi a'r rhai a oedd yn aflwyddiannus yn yr etholiad. Cafodd ystod eang o wasanaethau Datblygiad Proffesiynol Parhaus eu caffael ar gyfer yr Aelodau etholedig a'u staff, y rhai profiadol a'r rhai newydd, fel rhan o ddatblygu pecyn cynefino cynhwysfawr.

Fel y Comisiwn, manteisiodd pwyllgorau'r Cynulliad ar y cyfle i adolygu eu gwaith dros y pum mlynedd ddiwethaf wrth i ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad agosáu. Mabwysiadodd y Pwyllgorau ddulliau gwahanol o wneud y gwaith hwn, gan gynnwys ymgynghoriadau cyhoeddus, digwyddiadau i randdeiliaid, sesiynau craffu ar Weinidogion ac ymholiadau dilynol. Cyhoeddodd pob pwyllgor adroddiad etifeddiaeth yn ystyried ei waith yn ystod y Pedwerydd Cynulliad a'i effaith ar bolisi Llywodraeth Cymru. Gwnaeth yr adroddiadau etifeddiaeth hefyd nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer y pwyllgorau olynol.

Cafodd Fforwm Cadeiryddion, yn cynnwys cadeiryddion holl bwyllgorau'r Cynulliad, ei gynnull ym mis Medi 2015. Cadeirydd y fforwm oedd y Dirprwy Lywydd, a oedd hefyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog. Y nod oedd bwrw golwg strategol a gonest dros system bwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad a gwneud argymhellion ar gyfer gwella perfformiad yn y Pumed Cynulliad. Adroddodd y grŵp i'r Llywydd ym mis Tachwedd 2015, gan wneud sawl argymhelliad yn ymateb i'r 10 maen prawf a nodwyd gan y Comisiwn ar gyfer pwyllgorau sy'n perfformio'n dda.

Lluniodd y Pwyllgor Busnes adroddiad etifeddiaeth hefyd, gan ddefnyddio barn y cyhoedd, pwyllgorau'r Cynulliad, grwpiau gwleidyddol a Fforwm y Cadeiryddion. Cyhoeddwyd yr adroddiad etifeddiaeth ar 1 Mawrth 2016, a gwnaed sawl argymhelliad i'r Pwyllgor Busnes newydd eu hystyried ynghylch gweithdrefnau a strwythurau'r Cynulliad, gan gynnwys argymhellion ynghylch:

– maint a strwythur y system bwyllgorau;

– y defnydd o amser yn y Cyfarfod Llawn;

– amserlen y Cynulliad; a

– rôl a gweithrediad y Pwyllgor Busnes ei hun.

# Senedd@Abertawe

Cynhaliwyd yr ail fenter Senedd@... yn Abertawe ym mis Hydref 2015, gan ychwanegu at lwyddiant ymweliad y Cynulliad â Wrecsam. Dewiswyd Abertawe fel lleoliad yr ail fenter oherwydd canran pleidleisio isel yr ardal yn etholiad y Cynulliad yn 2011, er mwyn creu momentwm ar gyfer yr etholiad yn 2016.

Trefnwyd gweithgareddau'r wythnos mewn partneriaeth â'r South Wales Evening Post, gan gydweithio'n agos hefyd â Phrifysgol Abertawe ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.
Cynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, y Pwyllgor Menter a Busnes a'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog gyfarfodydd ffurfiol yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. I ategu busnes ffurfiol y Cynulliad, trefnodd staff y Comisiwn 33 o weithdai a phum digwyddiad a seminar arall o amgylch y ddinas. Fe ymgysylltwyd yn uniongyrchol â dros 1,500 o unigolion ac fe wnaed cysylltiadau â nifer o ysgolion, grwpiau ieuenctid a sefydliadau eraill.

Yn y cyfnod cyn Senedd@Abertawe, cyrhaeddwyd dros 300,000 o bobl trwy gynnwys golygyddol yn yr Evening Post ac ar orsaf radio The Wave. Yn ystod yr wythnos ei hun, cyrhaeddwyd dros 500,000 o bobl drwy'r Evening Post, The Wave a BBC Radio Wales.



# Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru

Parhawyd i ymgysylltu'n ehangach ac yn ddwysach â phobl Cymru. Sicrhawyd bod y Cynulliad yn bresennol mewn digwyddiadau cenedlaethol, a'i fod yn cynnal ac yn cyflwyno digwyddiadau o'r fath. Parhawyd i flaenoriaethu'r gwaith o ymgysylltu â phobl ifanc ac ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus y Llywydd. Hefyd cynhaliwyd perthynas waith gref â sefydliadau'r UE a'r Aelodau o Senedd Ewrop o Gymru, a chrëwyd cysylltiadau newydd ledled y byd.

## Canolbwyntio ar gofio

Mae'r nifer gynyddol o ddigwyddiadau cenedlaethol a gynhelir ar ein hystâd wedi cadarnhau rôl y Cynulliad wrth galon bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Cynhaliodd y Llywydd wasanaeth coffa yn y Pierhead er mwyn nodi 75 mlynedd ers Brwydr Prydain. Daeth cyn-filwyr i'r gwasanaeth ac roedd yn gyfle i ddweud 'diolch' wrth Gymru a'i phobl am eu rhan yn y frwydr hanesyddol. Cafodd y gwesteion fwynhau 'seremoni machlud haul' gan fand catrawd yr Awyrlu Brenhinol.

Er mwyn dathlu 800 mlynedd ers rhoi sêl ar y Magna Carta, rhoddodd yr hanesydd enwog, yr Athro David Carpenter, ddarlith yn y Pierhead yn trafod rôl arweinwyr Cymru wrth greu'r ddogfen. Canolbwyntiodd yr Athro Carpenter ar y gwrthryfel yn erbyn y Brenin Ieuan a arweiniwyd gan Llywelyn, Tywysog Gogledd Cymru (a gafodd yr enw Llywelyn Fawr yn ddiweddarach) a'i gynghreiriaid a bu'n trafod y penodau sy'n ymdrin â'u cwynion amrywiol. Dangosodd hyn fod y Magna Carta wir yn ddogfen Brydeinig, gyda phenodau pwysig ar Gymru a'r Alban.

Parhawyd i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ogystal â nodi Diwrnod y Cofio, sy'n cael ei gynnal yn flynyddol ar y cyd â'r Lleng Brydeinig Frenhinol, aeth y Llywydd ati yn 2015 i gyflwyno darlith am fywyd Keir Hardie gan hanesydd enwog arall, Syr Deian Hopkin, a lansio arddangosfa: Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Cofio. Roedd yr arddangosfa yn cynnwys eitemau personol Aelodau Cynulliad a staff y Comisiwn ac yn dangos sut y cyfrannodd eu teuluoedd at y Rhyfel Mawr, boed gartref neu yn y lluoedd arfog. Gwnaethom gydweithio â Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru i arddangos Llyfr Coffa Cymru yn y Senedd i gyd-fynd â'r arddangosfa. Mae'r llyfr yn 1,100 o dudalennau o hyd ac yn cynnwys enwau 35,000 o ddynion a menywod a anwyd yng Nghymru i rieni o'r wlad, ynghyd â'r rhai a wasanaethodd mewn catrodau Cymreig, a fu farw yn y Rhyfel Mawr.

# Cynrychioli'r Cynulliad ledled Cymru

Yn ystod ein rhaglen haf fwyaf uchelgeisiol erioed aethom i naw digwyddiad gan ymgysylltu ag 8,000 o bobl. Roedd modd i ymwelwyr â stondin y Cynulliad gyfrannu at yr ymgynghoriadau a oedd ar y gweill gan y pwyllgorau drwy gyfres o holiaduron, a dysgu rhagor am y Cynulliad, ei Aelodau a'u gwaith. Trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau ar gyfer y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn Sioe Frenhinol Cymru a noddwyd Pabell y Cymdeithasau gennym yn yr Eisteddfod Genedlaethol am y pumed flwyddyn yn olynol.


Cynhaliwyd 49 o sesiynau 'Deall ac Ymgysylltu' ar gyfer 1,243 o gynrychiolwyr o grwpiau amrywiol eleni, gan gynnwys RNIB Cymru, sawl adran ranbarthol o'r Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol, Pobl yn Gyntaf, Chwarae Teg a Popeth Cymraeg.

Mae ein hystâd yn parhau i ddenu a diddanu ymwelwyr o bob cwr o'r byd. Roedd mwy na 160,000 o ymwelwyr eleni, ac aeth 22,000 o'r rheini ar daith tywys o amgylch y Senedd. Ym mis Mai 2015, cyflwynodd TripAdvisor Dystysgrif Rhagoriaeth i'r Cynulliad. Caiff y Dystysgrif Rhagoriaeth ei chyflwyno i letyau, atyniadau a bwytai sy'n cael adolygiadau da iawn yn gyson.



# YMGYSYLLTU

Mae ein timau allgymorth ac ymgysylltu â phobl ifanc, ochr yn ochr â’n pwyllgorau, wedi teithio i bob cwr o Gymru i ddangos i bobl sut y gallant greu newid yn eu cymunedau drwy gymryd rhan ym musnes y Cynulliad. Cafodd Pwyllgorau hefyd fudd o brofiadau gwledydd eraill; gan deithio i Lundain, Dulyn, Brwsel a Baden-Württemberg eleni.



# ADDYSG AC YMGYSYLLTU Â PHOBL IFANC

Eleni, parhawyd i weld llawer iawn o bobl ifanc o bob rhan o Gymru - gan rannu gwybodaeth am waith y Cynulliad a sut y gall pobl ifanc gymryd rhan.

**215** GWEITHGAREDD ADDYSGOL YN Y CYNULLIAD

**234** GRŴP

**6,027** MYFYRIWR YN BRESENNOL





**251** GWEITHGAREDD ALLGYMORTH ADDYSG

**154** GRŴP

**11,757** MYFYRIWR YN BRESENNOL

**128** GWEITHGAREDD YMGYSYLLTU Â PHOBL IFANC



**183** GRŴP

**3,183** MYFYRIWR YN BRESENNOL

**85** CYFARFOD Â GRWPIAU IEUENCTID

**571** GRŴP FEL CYFANSWM

**649** GWEITHGAREDD FEL CYFANSWM

CYFANSWM NIFER Y MYFYRWYR YN BRESENNOL **20,967**

## Ymgysylltu â phobl ifanc

Ar ôl cyhoeddi Siarter Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc y Cynulliad yn 2014, llwyddwyd i ychwanegu at ein rhaglen ymgysylltu â phobl ifanc. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu cynllun Llysgenhadon Ifanc y Cynulliad a gynlluniwyd i alluogi sefydliadau ieuenctid i hyfforddi pobl ifanc i annog eraill i ymgysylltu â gwaith y Cynulliad. Cafodd sianelau arbennig DyGynulliad i bobl ifanc ar-lein eu gwella hefyd.

Pen llanw'r gwaith eleni oedd cynhadledd 'Llais Dy Gynulliad' ar 15 Gorffennaf, lle y daeth 27 o grwpiau gwahanol o bobl ifanc ynghyd i drafod canlyniadau ymgynghoriad Pleidleisio@16. Roedd y gynhadledd yn dilyn ymgynghoriad chwe mis a rhoddodd gyfle i 10,375 o bobl ifanc roi eu barn ar leihau'r oedran pleidleisio, sef y nifer fwyaf o ymatebion a gafwyd erioed i un o ymgynghoriadau'r Cynulliad. Bu'r cynadleddwyr ifanc yn trafod cofrestru ac addysgu pleidleiswyr a sut i annog rhagor o bobl ifanc i bleidleisio yn etholiadau'r dyfodol. Roedd y gynhadledd, ynghyd â'r sioeau haf, yn gyfle hefyd i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg holi barn pobl ifanc am y materion a ddylai fod yn rhan o flaenraglen waith y Pwyllgor.

Roedd cymhwyster newydd Bagloriaeth Cymru 2015 yn gyfle arall i wella'r ffordd y mae pobl ifanc yn ymgysylltu â gwaith y Cynulliad. Felly, datblygwyd heriau Dinasyddiaeth Gymunedol a Byd-eang newydd a chyflwynwyd gweithdai newydd yn seiliedig ar sgiliau ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Parhawyd i groesawu pobl ifanc i weithio yma hefyd. Cynigiwyd amrywiaeth o gyfleoedd profiad gwaith mewn gwahanol rannau o'r Comisiwn, cwblhawyd ein hail gynllun prentisiaeth yn llwyddiannus a lansiwyd y trydydd cynllun o'r fath.

## Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus

Parhaodd y Llywydd i ganolbwyntio ar chwalu'r rhwystrau sy'n atal menywod rhag bod yn rhan o fywyd cyhoeddus drwy ei hymgyrch #POWiPL. Ym mis Gorffennaf, y siaradwr gwadd yn narlith olaf #POWiPL yn y Senedd oedd Julia Gillard, sef cyn-Brif Weinidog Awstralia, a aned yng Nghymru. Dyma oedd darlith fwyaf poblogaidd y gyfres.

Cynhaliwyd Ffair Rwydweithio Menywod Mewn Bywyd Cyhoeddus yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst. Roedd yn gyfle i sefydliadau hyrwyddo swyddi gwag ar eu byrddau gweithredol ac yn gyfle i fenywod a oedd yn chwilio am swyddi o'r fath ddod i ddeall y rolau a oedd ar gael yn well.

Ym mis Medi, cyfarfu cawcws trawsbleidiol Menywod mewn Democratiaeth y Cynulliad i drafod gweithredu rhai o'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad y cyhoeddodd yn gynharach yn 2015. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o S4C ac ITV i'r cyfarfod i drafod sut yr oeddent yn bwriadu mynd i'r afael â'r ffaith bod cyn lleied o fenywod yn cyfrannu fel arbenigwyr at eu rhaglenni newyddion a materion cyfoes.

Cynhaliodd y Llywydd dderbyniad yn y Senedd ym mis Rhagfyr hefyd i nodi diwedd cynllun mentora #POWiPL a dathlu'r llwyddiannau amrywiol. Roedd y cynllun yn llwyddiannus iawn, gydag 11 o'r 14 o fenywod a gafodd eu mentora yn gwneud cais am swyddi mewn bywyd cyhoeddus.

Denodd ymgyrch #POWiPL sylw gan ddeddfwrfeydd eraill yn Ewrop. Daeth 16 o fenywod a oedd yn cynrychioli rhaglen Women in Society sefydliad Belfast Interface Project i'r Senedd i ddysgu mwy am yr ymgyrch. Ymwelodd y Llywydd â Senedd Georgia er mwyn rhannu ei phrofiadau wrth arwain y fenter hon.

## Cysylltiadau rhyngwladol

Parhaodd y Cynulliad i ymddiddori'n frwd mewn materion Ewropeaidd a chynnal cysylltiadau cryf â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd. Paratôdd y ddau gynrychiolydd o'r Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau adroddiadau rapporteur eleni a chyflwynwyd un o'r rhain yn Gymraeg.

Ym mis Mai, cynhaliodd y Llywydd gyfarfod ar gyfer cadeiryddion y pwyllgorau a'r pedwar Aelod o Senedd Ewrop o Gymru, sef y cyfarfod ffurfiol cyntaf o'i fath ers etholiad Senedd Ewrop yn 2014. Cymerodd Aelodau o Senedd Ewrop o Gymru ran yng ngrŵp trawsbleidiol y Cynulliad ar Ewrop, a gynhaliwyd gan Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru. Roeddent hefyd yn rhan o waith nifer o bwyllgorau, gan gyfrannu at gynadleddau fideo ac ymweliadau â Brwsel.

Bu'r Aelodau'n trafod amrywiaeth eang o faterion sy'n gysylltiedig â'r UE mewn cyfarfodydd pwyllgor ac yn y Cyfarfod Llawn. Un o ddigwyddiadau rheolaidd y Pedwerydd Cynulliad, a barhaodd eleni, oedd cyfarfod chwe-misol cadeiryddion y pwyllgorau a Llysgennad y DU ar gyfer y wlad o ble y deuai Llywydd Cyngor yr UE.

Mae ein swyddfa ar gyfer yr UE a'r Gwasanaeth Ymchwil wedi paratoi amrywiaeth o gyhoeddiadau defnyddiol i gefnogi gwaith yr Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â'r UE, fel y neges e-bost wythnosol am yr UE, y bwletin ynghylch Materion Ewropeaidd, ffrwd Twitter @SeneddEurope a blogiau a'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau'r UE. Soniwyd am bynciau fel cynllun buddsoddi Juncker, y bartneriaeth masnach a buddsoddi trawsatlantig (TTIP) (trafodaethau masnach rhwng yr UE ac UDA), polisi bioamrywiaeth, cynhyrchion organig, organebau a addaswyd yn enetig, yr argyfwng ffermio, datblygu gwledig ac agenda Llywodraeth y DU ar gyfer diwygio'r UE.


Cymerodd yr Aelodau ran mewn sawl cynhadledd ryngwladol yn ystod y flwyddyn. Arweiniodd y Dirprwy Lywydd ddirprwyaeth o Aelodau i Gyfarfod Llawn rhif 51 Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon (BIPA) yn Cheltenham ym mis Tachwedd. Roedd Aelodau hefyd yn bresennol yng nghynhadledd ranbarthol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a oedd yn trafod yr heriau cyfredol sy'n wynebu seneddau, yn ogystal â chynhadledd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad rhanbarth Ynysoedd Prydain a gwledydd Môr y Canoldir yn Limassol, Cyprus.

Mae staff y Comisiwn a'u cymheiriaid o seneddau eraill wedi trefnu mwy a mwy o secondiadau ac ymweliadau hefyd. Rydym wedi gweithio gyda sefydliadau fel Global Partners Governance, y Cenhedloedd Unedig, Westminster Foundation for Democracy a Chymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Fel rhan o berthynas barhaus, treuliodd pennaeth adran TGCh Senedd Ffiji bythefnos gyda'n tîm TGCh er mwyn dysgu rhagor am sut y mae'r Cynulliad yn defnyddio systemau a rhaglenni i gyflwyno gwybodaeth fusnes i'r Aelodau, gan ganolbwyntio ar ddefnyddio dyfeisiau symudol. Rhoddwyd cyngor gennym hefyd i seneddau Bougainville a Papwa Gini Newydd ar systemau TGCh seneddol. Yn nes at gartref, aeth staff ar secondiadau i Dŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin a chynhaliwyd cynadleddau llwyddiannus ar gyfer gwasanaethau ymchwil a llyfrgelloedd seneddau'r DU ac arbenigwyr ar wasanaethau corfforaethol.

Mae ein gweithgareddau rhyngwladol wedi codi proffil y Cynulliad ac wedi golygu bod modd rhannu arfer da i hybu democratiaeth seneddol yng Nghymru a thu hwnt.

# YMWELIADAU RHYNGWLADOL

Mae'r Cynulliad wedi croesawu amrywiaeth o gynrychiolwyr o bob rhan o'r byd, yn ogystal ag ymweld â'n cymheiriaid i hyrwyddo Cymru a'r Cynulliad.



**Ymweliadau â'r Cynulliad - Ebrill 2015-Mawrth 2016**

**Lwcsembwrg**
Ebrill 2015

**Gogledd Iwerddon**
Mai 2015

**Tsieina**
Mai 2015

**Iorddonen**
Mai 2015

**UDA**
Mai 2015

**Estonia**
Mai 2015

**Kazakhstan**
Mehefin 2015

**Chile**
Mehefin 2015

**Awstralia**
Mehefin 2015

**Awstralia**
Gorffennaf 2015

**Mecsico**
Awst 2015

**Lwcsembwrg**
Medi 2015

**Georgia**
Hydref 2015

**Yr Almaen**
Tachwedd 2015

**Hwngari**
Tachwedd 2015

**Tasmania**
Rhagfyr 2015

**Awstria**
Rhagfyr 2015

**Ffrainc**
Ionawr 2016

**Yr Iseldiroedd**
Chwefror 2016

**Mongolia**
Chwefror 2016

**Gwlad yr Iâ**
Mawrth 2016

**Kyrgyzstan**
Mawrth 2016

**Ymweliadau â gwledydd eraill - Ebrill 2015-Mawrth 2016**

**Cyprus**
Mai 2015

**Yr Eidal**
Hydref 2015

**Yr Ariannin**
Hydref 2015

**Awstralia**
Tachwedd 2015

**Malta**
Tachwedd 2015

**De Affrica**
Chwefror 2016

**Guernsey**
Chwefror 2016

Mae'r ffeithlun yn dangos dirprwyaethau o dan arweiniad gwleidyddion; cafodd ymweliadau eraill eu gwneud a'u cynnal gan staff y Comisiwn

# Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn cadw mewn cysylltiad â mwy o bobl ac yn darparu cynnwys diddorol trwy ein holl lwyfannau ar-lein.

MAE EIN DILYNWYR AR TWITTER WEDI CYNYDDU **8,988**

AR GYFARTALEDD **749** O DDILYNWYR NEWYDD Y MIS

YN 2015, ANFONODD EIN CYFRIFON TWITTER DROS **17,000** O NEGESEUON TRYDAR

MAE GENNYM DROS **50** O SIANELAU AR DRAWS YR AMRYW LWYFANNAU CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

MAE NIFER Y BOBL SY'N EIN HOFFI AR FACEBOOK WEDI CYNYDDU **59%**

MAE **4,792** O BOBL WEDI EIN HOFFI AR EIN 5 TUDALEN FACEBOOK

MAE NIFER Y BOBL SYDD WEDI GWYLIO EIN SIANEL YOUTUBE BELLACH DROS **130,000**

CYNNYDD **73%** ERS Y LLYNEDD

# Defnyddio adnoddau'n ddoeth

Mae'r adrannau o'r adroddiad hwn sy'n ymdrin â datganiadau ariannol ac atebolrwydd yn cynnwys disgrifiadau manwl o'r ffyrdd amrywiol yr ydym yn defnyddio adnoddau'n ddoeth. Yn yr adran hon, rydym yn tynnu sylw at rai o'r prif feysydd gwaith a'r buddiannau a sicrhawyd ac yn cyflwyno ein hadroddiad ar gynaliadwyedd ar gyfer y flwyddyn.

## Ein dull gweithredu o ran buddsoddi

Ein nod pennaf ym mhob peth a wnawn yw sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth o safon uchel a'r gwerth gorau am arian i'r pwrs cyhoeddus, mewn ffordd agored ac effeithiol. Cyflawnir hyn drwy gynllunio'r gyllideb mewn ffordd arbenigol, drylwyr a thryloyw, drwy gynllunio'r gweithlu a chapasiti ar y cyd, drwy sicrhau bod gennym fframwaith llywodraethu cynhwysfawr (gweler tudalen 64), drwy drefnu bod y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau yn goruchwylio'r gwaith o sicrhau buddsoddiad a dyrannu adnoddau a thrwy gyflwyno adroddiadau ariannol yn rheolaidd.  Mae Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad yn craffu ar ein cyllidebau a'n cyfrifon bob blwyddyn.

Eleni, parhawyd i geisio sicrhau safon, gwerth a thryloywder. Cyflwynwyd adroddiadau rheolaidd ar ein cyfres lawn o fesurau perfformiad. Pennwyd targed blynyddol i sicrhau bod tanwariant yn y gyllideb o fewn 1 y cant. Yn nhymor yr hydref, aethom ati i gynnal asesiadau dwysach o'n rhagolygon. Yna, aed ati i benderfynu a oedd ein cynlluniau buddsoddi yn ddigon credadwy i sicrhau'r gwerth gorau posibl o'r gyllideb oedd ar gael.  Ein hegwyddor ganolog yw dychwelyd arian i Floc Cymru a diweddaru ein cyllideb i adlewyrchu ein cynlluniau gwariant os yw'n glir ar y cam hwn o'r flwyddyn na gyflawnir ein targed o ran tanwariant.

## Ein pobl

Mae ymrwymiad, gallu, capasiti a llesiant ein pobl yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall y Comisiwn ddarparu gwasanaethau'n llwyddiannus i'r Cynulliad a'i Aelodau. Eleni, parhawyd i ganolbwyntio ar gynllunio capasiti, gan edrych ymlaen at flynyddoedd cyntaf y Pumed Cynulliad. Adolygwyd ein dulliau rheoli perfformiad hefyd fel ffordd o wella perfformiad y sefydliad yn barhaus drwy ein pobl. Er enghraifft, cafodd ein harferion rheoli perfformiad eu gwella er mwyn cynnwys y gwerthoedd a'r ymddygiadau disgwyliedig a geir yn ein fframwaith cymwyseddau a dechreuwyd meincnodi adolygiadau rheoli perfformiad a datblygu.

Drwy wneud hyn, llwyddwyd i wella safon y trafodaethau a geir ynghylch perfformiad a datblygu yn sylweddol. Cafwyd cynnydd yn nifer yr adolygiadau a gwblhawyd cyn y terfyn amser ac roedd gwelliant yn safon yr adolygiadau sy'n seiliedig ar gymwyseddau.

Atgyfnerthwyd ein harferion recriwtio sy'n seiliedig ar gymwyseddau ymhellach drwy gyflwyno dulliau asesu mwy soffistigedig. Cafodd y broses gynefino ar gyfer staff ei hadolygu'n llwyr i roi croeso cynnes i recriwtiaid newydd ac sicrhau ffocws, o'r cychwyn, ar ein diwylliant perfformiad uchel ac ar ein nodau, ein hamcanion a'n gwerthoedd sefydliadol.

Gwnaed rhai newidiadau yn ein hadran adnoddau dynol er mwyn sicrhau bod partner busnes adnoddau dynol ar gael i bob un o wasanaethau'r Comisiwn. Roedd hynny'n caniatáu i'r gwasanaethau

a'r partneriaid gydweithio er mwyn canolbwyntio ar faterion penodol o ran rheoli pobl, perfformiad, gallu a chapasiti.

Roedd tîm y gyflogres, y tîm systemau adnoddau dynol a'r tîm recriwtio yn destun adolygiadau archwilio allanol yn ystod y flwyddyn, gan sicrhau bod ein sgôr sicrwydd yn un gadarn. Cyrhaeddodd tîm y gyflogres rownd derfynol y wobr ar gyfer tîm y gyflogres yng nghategori'r sector cyhoeddus yng ngwobrau cyflogres y byd 2015.

## Cynllun Ymadael Gwirfoddol

Er mwyn ein helpu i sicrhau bod y Comisiwn mewn sefyllfa gref i wynebu heriau'r Pumed Cynulliad, lansiwyd cynllun ymadael gwirfoddol ym mis Tachwedd 2015. Dyma oedd nodau'r cynllun:

– galluogi'r sefydliad i ymateb i newidiadau yn ein gofynion o ran sgiliau;

– hwyluso newid sefydliadol, gan gynnwys newidiadau o fewn timau penodol;

– gwella effeithlonrwydd y gweithlu; a

– sicrhau arbedion hirdymor lle y bo'n bosibl a / neu osgoi costau ychwanegol wrth lenwi bylchau o ran sgiliau.

Wrth baratoi ar gyfer y cynllun, adolygwyd ein prosesau ymadael gwirfoddol blaenorol ac argymhellion ein tîm archwilio mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru. Cafwyd sicrwydd annibynnol fel rhan o'r broses asesu a'r broses gwneud penderfyniadau ac roedd cynrychiolydd o'n hundebau llafur cydnabyddedig (Ochr yr Undebau Llafur fel y cânt eu hadnabod) yn rhan o'r panel.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ar gyfer 2014-15 ym mis Gorffennaf 2015. Mae'n olrhain hynt ein gwaith o ran cyflawni'r amcanion a nodwyd yn ein Cynllun Cydraddoldeb, yn dathlu'r gwaith da a wnaed ar draws y sefydliad ac yn cynnwys data monitro staff a recriwtio yn ogystal â chanlyniadau ein harchwiliad cyflog cyfartal.

Ym mis Mehefin 2015, cynhaliwyd wythnos o weithgareddau a mentrau codi ymwybyddiaeth fel rhan o'r wythnos cydraddoldeb ac amrywiaeth flynyddol. Eleni, cyflwynwyd hyfforddiant ar y canlynol:

– ymwybyddiaeth trawsrywedd;

– ymwybyddiaeth deurywioldeb;

– hyder o ran anabledd;

– cyfeillion dementia;

– cefnogi staff LGBT.

Hyrwyddwyd cydraddoldeb yn fewnol ac yn allanol hefyd, gydag erthyglau ar y canlynol i godi ymwybyddiaeth:

– Wythnos Gofalwyr;

– y Cynulliad fel cyflogwr cynhwysol;

– stereoteipio ar sail rhywedd;

– amrywiaeth ddiwylliannol;

– ein cynllun gweithredu BME;

– asesiadau effaith ar gydraddoldeb;

– cefnogi staff anabl;

– rhagfarn ddiarwybod;

– y Cynulliad fel sefydliad sy'n ystyriol o ddementia.

Cadwyd ein nod siarter 'Louder than Words' gan yr elusen Action on Hearing Loss, sef siarter arfer gorau i sefydliadau sy'n gweithio tuag at gynnig gwasanaethau gwych i bobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw. Fel rhan o'r broses hon, archwiliwyd ein cyfleusterau, ein hoffer cymorth cyfathrebu a'n harferion gwaith i weld pa mor addas a hygyrch ydynt. Hefyd, dyfarnwyd Gwobr Arian Rhagoriaeth Cymru Action on Hearing Loss inni, sy'n cydnabod llwyddiant wrth ddarparu gwasanaethau addas i bobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw. Darparwyd hyfforddiant hefyd i swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl ar draws y sefydliad a darparwyd sesiwn flasu ar gyfer staff ar Iaith Arwyddion Prydain. Roeddem yn falch o ddal gafael ar Wobr Mynediad y Gymdeithas Awtistig Genedlaethol, sy'n cydnabod y cyrff hynny sydd wedi gwneud addasiadau i'w hadeiladau, cyfleusterau ac arferion gwaith fel bod pobl ag awtistiaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn ei chael yn haws ymweld â'r adeiladau a'u defnyddio. Y tu hwnt i'r Cynulliad ei hun, anfonwyd cynrychiolwyr i nifer o ddigwyddiadau cymunedol dros yr haf, gan gynnwys Pride Caerdydd a Mela.

Mae gennym nifer o rwydweithiau staff ar gyfer gweithwyr sydd â chyfrifoldebau rhianta neu ofalu, ynghyd â rhwydweithiau anabledd, LGBT a BME. Mae ein Tîm Iechyd a Lles, ynghyd â'n Tîm Cydraddoldebau, wedi gweithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) i rannu arferion gorau a phwyntiau dysgu sy'n cyfrannu at ein ffyrdd o weithio a'n polisïau a'n gweithdrefnau. Mae ein rhwydweithiau staff yn chwarae rhan hanfodol o ran gwerthfawrogi amrywiaeth. Eleni, cynhaliodd ein rhwydwaith staff BME gyfarfod cyntaf Rhwydweithiau Staff BME Sector Cyhoeddus Cymru. Cynhaliodd ein rhwydwaith staff i Rieni a Gofalwyr sy'n Gweithio arolwg o'i aelodau i nodi lle mae modd gwneud gwelliannau i'r prosesau o gefnogi rhieni a gofalwyr sy'n gweithio.

Eleni, daeth y Cynulliad yn drydydd ym Mynegai Cydraddoldeb y Gweithle Stonewall, sef dull meincnodi sy'n galluogi sefydliadau ledled y DU i asesu eu llwyddiannau a'u cynnydd ym maes cydraddoldeb LGBT yn y gweithle gan gynnwys polisi, ymgysylltu â staff a datblygu gyrfa. Cafodd y Cynulliad hefyd deitl Cyflogwr Gorau'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer pobl LGBT am y drydedd flwyddyn yn olynol. Yng ngwobrau Stonewall Cymru ar 27 Ionawr, cafodd y Llywydd wobr arbennig am ei hymrwymiad i hybu cydraddoldeb LGBT. Mae ein rhwydwaith staff LGBT, OUT-NAW, yn dal i ffynnu, a chofnododd y diwrnod rhyngwladol yn erbyn Homoffobia, Biffobia a Thrawsffobia ym mis Mai. Mae hefyd wedi trefnu sesiynau hyfforddiant ar gyfer Cyfeillion LGBT sy’n cefnogi eu cydweithwyr LGBT.

## Iechyd, diogelwch a llesiant

### Iechyd a diogelwch

Rydym yn buddsoddi yn iechyd, diogelwch a lles holl staff y Comisiwn, Aelodau'r Cynulliad a'u staff, contractwyr a phawb sy'n ymweld ag ystâd y Cynulliad, ac rydym yn sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol. Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd ein strategaeth lesiant ar lesiant meddyliol a chefnau iach. Cynhaliwyd cyfres o raglenni hybu iechyd, gan gynnwys wythnos cefnau iach, a chymerwyd rhan yn ymgyrch Ar Eich Traed Brydain, sy'n annog gweithwyr i symud mwy yn y gwaith. Anogwyd staff hefyd i siarad am eu llesiant meddyliol fel rhan o ddiwrnod Amser i Siarad, ac ysgrifennodd aelodau o staff gofnodion blog am eu profiadau iechyd meddwl.

### Data ynghylch absenoldeb oherwydd salwch

Y gyfradd absenoldeb gyffredinol oherwydd salwch am y flwyddyn oedd 3.68 y cant, neu 8.09 diwrnod gwaith y person ar gyfartaledd. Rydym yn cadw llygad strategol ar reoli absenoldeb ac yn cynnig cefnogaeth i bobl sy'n absennol drwy gymorth rheolwyr llinell, adnoddau dynol ac iechyd galwedigaethol.

### Anabledd

Mae gennym fesurau ar waith i gefnogi cyflogeion sy'n nodi bod ganddynt anabledd. Mae ein polisi llenwi swyddi gwag yn cyfeirio at y ffaith ein bod yn gwarantu cyfweliad i ymgeiswyr sy'n bodloni isafswm gofynion y rôl, ac mae hyn hefyd yn berthnasol yn fewnol i weithwyr sy'n ceisio cael dyrchafiad.

Gwneir addasiadau rhesymol, lle bo hynny'n bosibl, yn dilyn trafodaethau rhwng cyflogeion a rheolwyr ar gyfer staff mewn swyddi neu sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl anaf neu ar ôl cael salwch a allai effeithio ar eu gallu i wneud eu gwaith.

### Ymgynghori â chyflogeion

Rydym yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Gwybodaeth ac Ymgynghori â Chyflogeion ac yn ymgynghori â chyflogeion, yn uniongyrchol a thrwy undebau cydnabyddedig, ar newidiadau mawr yn y sefydliad. Cefnogir hyn gan ein Cytundebau Partneriaeth a Chyd-fargeinio.

Rydym yn cynnal cyfarfodydd partneriaeth misol rhwng y rheolwyr ac ochr yr undebau llafur i drafod materion sy'n ymwneud â phob agwedd ar y sefydliad, o newidiadau sy'n effeithio ar delerau ac amodau, tâl a gwobrwyo, i bynciau sy'n berthnasol i bawb. Caiff cofnodion y cyfarfodydd hyn eu rhannu gyda'r Bwrdd Rheoli.

Rydym yn gwahodd ochr yr undebau llafur i ddod i amrywiol gyfarfodydd ffurfiol a gweithio mewn partneriaeth i roi sylwadau ar holl bolisïau a gweithdrefnau'r Cynulliad, gan hwyluso dulliau gweithredu agored a thryloyw.

Eleni, rydym wedi ymgynghori'n ffurfiol â'r undebau llafur ar y canlynol:

- cyflwyno offer amddiffynnol personol (PPE) (Ebrill 2015)
- adolygiad o strwythur ac adnoddau gwasanaeth diogelwch y Cynulliad (parhaus o fis Mehefin 2015)
- cyflwyno gofynion fetio uwch ar gyfer pob swydd (Mehefin 2015)
- polisi teithio a chynhaliaeth (Hydref 2015)
- cynllun ymadael gwirfoddol (VES) (Tachwedd 2015)
- trafodaethau tâl (parhaus o fis Rhagfyr 2015)
- polisi recriwtio (Mawrth 2016)
- polisi tâl a gwobrwyo (Mawrth 2016)
- polisi blaenoriaethu penodiadau (Mawrth 2016)

## Ymgysylltu â chyflogeion

Rydym wedi cyflwyno neu adolygu nifer o bolisïau eleni gyda'r nod y bydd y Cynulliad yn parhau i fod yn gyflogwr o ddewis:

– absenoldeb a rennir gan rieni;

– polisi absenoldeb rhiant;

– absenoldeb mamolaeth;

– proses atgyfeirio gan reolwr i'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol.

Caiff pob polisi ei gyflwyno i ochr yr undebau llafur a'r rhwydweithiau staff i wneud sylwadau arnynt ac mae pob un yn destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Cynhaliodd yr adran adnoddau dynol sesiynau galw heibio, aeth i gyfarfodydd gwasanaeth a chyhoeddodd eitemau newyddion i godi ymwybyddiaeth o'r polisïau a'r newidiadau iddynt.

Mae'r Prif Weithredwr, y cyfarwyddwyr a'r Bwrdd Rheoli yn cyhoeddi gwybodaeth ar ein tudalen newyddion. Mae'r Prif Weithredwr yn cyhoeddi blog sy'n gysylltiedig â gwaith, ac mae ar gael i bob cyflogai ei ddarllen.

### Cyfarfodydd brecwast

Cyn toriad yr haf, cynhaliodd y Prif Weithredwr dair seminar frecwast anffurfiol Rhoddwyd cyfle i'r rhai a oedd yn bresennol ofyn cwestiynau a siarad am weithio yn y Cynulliad a mwynhau brecwast ysgafn. Roedd hyn yn rhan o gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu cyn lansio ein harolwg staff ac roedd hefyd yn gyfle i gyflogeion drafod gwerthoedd craidd y Comisiwn ac edrych eto arnynt. Cynhaliodd y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr dri chyfarfod brecwast ychwanegol ym mis Chwefror i fynd i'r afael â rhai o ganlyniadau allweddol ein harolwg staff, e.e. cyfathrebu, arweinyddiaeth, a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Daeth dros 120 o gyflogeion i'r cyfarfodydd brecwast ac roedd y mwyafrif yn croesawu'r cyfle i drafod materion sy'n gysylltiedig â gwaith gydag uwch arweinwyr mewn amgylchedd llai ffurfiol.

### Yr arolwg staff

Lansiwyd ein pumed arolwg staff ym mis Mai 2016. Roedd yn fwriadol yn adlewyrchu arolwg 2015 er mwyn gallu defnyddio'r deilliannau i gefnogi gweithgareddau busnes parhaus.

Ein lefel ymgysylltu â staff yn 2015, fel y mesurwyd gan yr arolwg, oedd 72 y cant o’i gymharu â chanolrif y Gwasanaeth Sifil o 59 y cant.

Cafwyd cyfanswm o 402 o ymatebion i Arolwg Staff 2015. Roedd y gyfradd ateb uchel iawn o 93 y cant yn gynnydd sylweddol o gymharu â'r blynyddoedd diwethaf (77 y cant ym mis Awst 2013 a 52 y cant ym mis Gorffennaf 2012). Y gyfradd ymateb ganolrifol ar gyfer y Gwasanaeth Sifil ac ar gyfer Llywodraeth Cymru oedd 62 y cant yn 2014.

Mesur arall o lwyddiant ein harolwg yn 2015 oedd y cynnydd a welwyd mewn gweithgareddau ymgysylltu. Trefnwyd nifer o gyfarfodydd brecwast a dyddiau perfformiad uchel i dimau er mwyn mynd i'r afael â themâu fel arweinyddiaeth, cyfathrebu a lles. Mae ymrwymiad y Bwrdd Rheoli i fynd i'r afael â chanlyniadau arolygon blaenorol wedi ein helpu i ddatblygu a pharhau i ofyn am adborth adeiladol gan staff.

# Moderneiddio'r siambr drafod

Gosodwyd y system gynadledda, y system bleidleisio a'r dechnoleg sain a ddefnyddir yn Siambr y Senedd, sef y siambr drafod lle cynhelir Cyfarfod Llawn y Cynulliad, yn 2006. Ar y pryd, roedd y rhain yn systemau arloesol o'r radd flaenaf. Mae'r dechnoleg wedi diwallu anghenion sawl Cynulliad yn dda. Fodd bynnag, 10 mlynedd yn ddiweddarach, dechreuwyd cael problemau sylweddol o ran dibynadwyedd a chymorth a dechreuodd yr Aelodau gwestiynu pa mor gynaliadwy oedd y dechnoleg.

Mewn ymateb, ymgymerodd y Comisiwn â phrosiect cymhleth i ddewis, caffael a gosod systemau newydd yn y Siambr. Achubwyd ar y cyfle i wella ergonomeg gweithfannau'r Aelodau a gwella hygyrchedd. O ganlyniad, mae bellach gan yr Aelodau ddesgiau fflat newydd. Gosodwyd panel pleidleisio/cyfieithu ar y pryd newydd ar y desgiau, yn ogystal â chyfleusterau gwefru ar gyfer dyfeisiau symudol. Mae seinyddion a meicroffonau pob desg wedi'u huwchraddio hefyd, er mwyn gwneud y sain yn gliriach ym mhob rhan o'r Siambr.

Mae bellach gan yr Aelodau a'r staff sgriniau llydan manylder uchel. Ar y ddesg flaen, lle y mae'r Llywydd a'r swyddogion yn eistedd, mae modd symud y sgriniau o'r ffordd fel na fyddant yn amharu ar ddigwyddiadau arbennig fel yr Agoriad Brenhinol.

Gosodwyd system meddalwedd gynadledda newydd ar gyfer rheoli busnes y Cyfarfod Llawn. Gellir defnyddio'r system i weld yr agenda, y rhestr siaradwyr a'r wybodaeth weithdrefnol, ac i bleidleisio ac anfon negeseuon.



## Elwa ar drefniadau TGCh mewnol

Gwnaed sawl darn o waith i uwchraddio ein gallu o ran technoleg gwybodaeth a chyfathrebu eleni. Cyflwynwyd system ffonau newydd ym mis Gorffennaf, sydd wedi'i hintegreiddio'n llawn â'r rhwydwaith TGCh ac sy'n defnyddio meddalwedd negeseuon a chyfathrebu Skype for Business. Fel rhan o'r prosiect, darparwyd seilwaith newydd, ffonau newydd i bob defnyddiwr ar ystâd y Cynulliad a chanolfannau galwadau newydd ym Mae Colwyn a Thŷ Hywel. Mae'r system yn fwy datblygedig ac yn gadarnach na'r un flaenorol. Mae llawer yn rhatach i'w rhedeg hefyd, gan arbed tua £180,000 y flwyddyn i'r Cynulliad.

Aed ati i wella'r ddarpariaeth TGCh yn swyddfeydd etholaeth yr Aelodau yn ystod yr haf. Gosodwyd llinellau newydd yn lle'r hen gylchedau band eang ym mhob swyddfa er mwyn sicrhau'r cyflymder gorau posibl ym mhob ardal. Gosodwyd llwybryddion newydd fel bod defnyddwyr yn gallu defnyddio'r we yn ddi-wifr, uwchraddiwyd cof pob cyfrifiadur a gliniadur a chyflwynwyd Microsoft Office 2013. Yn ogystal â sicrhau bod y systemau'n fwy hyblyg ac ymatebol, disgwylir i'r gwaith hwn arbed tua £40,000 i'r Cynulliad bob blwyddyn.

Yn dilyn proses dendro gystadleuol, dyfarnwyd contract darlledu'r Cynulliad i gwmni teledu Bow Tie ar gontract pum mlynedd o 1 Medi 2015 ymlaen. Bydd y contract newydd yn ein galluogi i gyflwyno prosiectau newydd, fel datblygu'r systemau clyweledol ym mhob rhan o'r ystâd, yn ogystal â pharhau i ddarparu gwasanaeth darlledu o safon uchel ar gyfer trafodion y Cynulliad.

## Gwella ein hystâd eiconig

Yn ogystal â dathlu 10 mlynedd ers agoriad adeilad y Senedd a moderneiddio'r Siambr (gweler tudalen 52), cafodd llawer o offer ei uwchraddio yn y Pierhead, sef ein hatyniad hanesyddol i dwristiaid a gofod digwyddiadau ac yn Nhŷ Hywel, ein prif swyddfa. Roedd y prosiectau hyn yn rhan o'n rhaglen fuddsoddi (dreigl) hirdymor wedi'i blaenoriaethu ar gyfer yr ystâd.

Yn y Pierhead roedd yr unedau aerdymheru wedi cyrraedd diwedd eu hoes ac roedd angen eu hatgyweirio yn fwy aml. Gosodwyd unedau newydd ym mhob rhan o'r Pierhead er mwyn gwella'r system oeri a gwresogi a'i gwneud yn fwy effeithlon. Y disgwyl yw y byddwn yn defnyddio o leiaf 25 y cant yn llai o ynni.

Yn Nhŷ Hywel roedd y system a ddefnyddiwyd i reoli prif beiriannau ac offer yr adeilad yn 22 oed, ac wedi parhau i weithio'n hirach na'r disgwyl. Gosodwyd system newydd er mwyn gwella dibynadwyedd a pherfformiad y systemau gwresogi, oeri ac awyru, a rheoli ynni yn well yn unol â'n hamcanion lleihau carbon. Gosodwyd larwm dân newydd hefyd, gan fod yr hen system wedi cyrraedd diwedd ei hoes. Roedd y gwelliannau eraill yn cynnwys gosod synwyryddion tân awtomatig ychwanegol a goleuadau sy'n fflachio yn yr ardaloedd a nodwyd mewn asesiad risg.

## Gwella cydnerthedd o ran pŵer

Er mwyn sicrhau parhad busnes a tharfu cyn lleied â phosibl ar fusnes y Cynulliad, gwnaethom fuddsoddi i wella ein cydnerthedd o ran pŵer. Sicrhaodd prosiect cydamseru generaduron bod modd newid i'r generadur ar y safle a'i gydamseru â'r prif gyflenwad pŵer os bydd y pŵer yn pallu neu'n gorlifo. At hynny, cwblhawyd prosiect ar y cyd â Western Power Distribution i newid yn awtomatig i linell bŵer amgen ym Mae Caerdydd pe bai unrhyw beth yn amharu ar y llinellau sy'n cludo pŵer i'n hadeiladau fel arfer. Mae'r ddau brosiect wedi gwella ein cydnerthedd o ran pŵer yn sylweddol.

## Cynaliadwyedd

Mae gan y Cynulliad ddyletswydd gyfreithiol i hybu datblygu cynaliadwy ym mhob peth a wna yn unol ag adran 212 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Rydym yn llwyr ymrwymedig i'r rôl allweddol yr ydym yn ei chwarae wrth hyrwyddo datblygu cynaliadwy a lleihau effaith amgylcheddol ein gweithrediadau.

Y llynedd, daeth ein strategaeth lleihau carbon flaenorol i ben, a chyflawnwyd gostyngiad sylweddol o 35 y cant mewn allyriadau ynni. Gosodwyd targedau newydd hyd at 2020-21, gan ganolbwyntio ar bedair prif faes: allyriadau ynni, gwastraff, teithio ar fusnes a dŵr.

Er gwaethaf pwysau'r gwaith o baratoi ar gyfer etholiad y Cynulliad, gwaned llawer o welliannau ffisegol (a nodir yn yr adran ar welliannau parhaus isod) sydd eisoes yn ein helpu i sicrhau arbedion o ran defnyddio ynni. Mae ein hallyriadau ynni 11 y cant yn is na'r targed ar gyfer y flwyddyn ac rydym ar y trywydd iawn i fwrw ein targed o 30 y cant.

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw. Cyflwynwyd adroddiadau cyhoeddus gennym ar ddata perfformiad cynaliadwyedd ers 2007-08. Awn ati i fesur ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr a'u nodi mewn Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol.

### Crynodeb o berfformiad

Cyflawnwyd llwyddiannau arwyddocaol yn 2015-16, gan gynnwys lleihau ein defnydd o drydan. Gwnaed gwelliannau i'r dull o gyfrifo ein hallyriadau, gan gynnwys nwyon o'r system aerdymheru ac o sglodion coed.

Mae ein buddsoddiad yn seilwaith yr ystâd wedi talu ar ei ganfed drwy leihau'r galw am gyfleustodau. Rydym yn gweithredu'n unol â system amgylcheddol ffurfiol a gaiff ei harchwilio bob blwyddyn.

### Ardystiad rheolaeth amgylcheddol

Yn dilyn archwiliad llwyddiannus ddechrau 2016, llwyddwyd i gadw ein hardystiad Lefel 5 ar gyfer Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, sef lefel uchaf y safon sy'n uwch na'r lefel ofynnol ar gyfer cynlluniau rhyngwladol fel ISO14001. Roedd yr archwilydd yn fodlon ein bod yn rheoli ein rhwymedigaethau cyfreithiol, yn pennu targedau o ran gwelliant parhaus ac yn gweithredu i'w cyflawni ac yn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'i rôl wrth gynnal cynaliadwyedd yr ystâd. Cafwyd canmoliaeth gan yr archwilydd ar gyfer ein gwaith i ddiweddaru'r system rheoli amgylcheddol i'w gwneud yn gliriach ac yn haws ei harchwilio. Aed ati i ddiweddaru ein holl weithdrefnau a'r ffordd yr ydym yn asesu ein heffaith ar yr amgylchedd i'w gwneud yn haws i staff a rhanddeiliaid eraill eu dilyn.

### Ynni

Ein defnydd o ynni sy'n cyfrannu fwyaf o bell ffordd at ein hôl troed carbon. Ein bwriad yw lleihau allyriadau ynni ymhellach (gan fod hynny'n ddangosydd da o ba mor effeithlon yr ydym yn defnyddio trydan a nwy) a gosod targed i'w lleihau 30 y cant ymhellach erbyn 2020-21. Oherwydd y gwelliannau effeithlonrwydd a wnaed eleni, er gwaetha'r cynnydd yn nifer y personél sy'n defnyddio ein hadeiladau a blwyddyn olaf brysur i'r Pedwerydd Cynulliad, llwyddwyd i ddefnyddio llai o gyfleustodau. Defnyddiwyd 7 y cant yn llai o drydan a dros 6 y cant yn llai o nwy. Gostyngodd ein hallyriadau ynni 7.6 y cant. Defnyddiwyd ein boeler biomas i wresogi'r Senedd lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl. Felly, er i ni ddefnyddio mwy o wres eleni, cafwyd llai o effaith amgylcheddol na phe baem wedi defnyddio ein boeleri nwy wrth gefn.

### Teithio

Amcangyfrifwyd y gwnaed ychydig mwy o deithiau busnes na'r llynedd (yn amodol ar ffigurau terfynol ar gyfer mis Mawrth 2016, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl isod), ond cynyddodd ein defnydd o drenau i fwy na chwarter o'r holl hawliadau teithio, a defnyddiwyd llai o geir preifat. Roedd mwy yn defnyddio'r cynllun beicio i'r gwaith, a mwy yn defnyddio ein cyfleusterau storio beiciau ar eu newydd wedd.

Ein targed hirdymor ar gyfer teithiau busnes yw lleihau effaith y teithiau dan sylw heb leihau gallu'r Aelodau i ymgysylltu â'u hetholwyr, ymgymryd â gwaith pwyllgor a hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol.

### Gwastraff

Mae ein ffigurau ar gyfer rheoli gwastraff yn 2015-16 yn debyg iawn i'r flwyddyn flaenorol. Cynyddodd rhai costau am fod costau gweithredu ein contractwyr wedi cynyddu ac oherwydd newidiadau i'r system storio a chasglu wedi o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rydym bellach yn defnyddio llestri storio mwy ar gyfer anfon gwastraff swmpus i'w ailgylchu. Mae gennym gyfleusterau ailgylchu helaeth ar draws ein hystâd ac rydym yn annog staff ac ymwelwyr i'w defnyddio. Buom yn gweithio gyda thimau arlwyo i gynyddu compostio eleni a hefyd yn darparu biniau compostio mewn ceginau newydd eu hadnewyddu. O ganlyniad, rydym yn cynnal lefel uchel iawn o ddargyfeirio rhag tirlenwi, sydd erbyn hyn yn sefyll ar 96 y cant. Ein nod yw adeiladu ar y llwyddiant hwn y flwyddyn nesaf.

### Dŵr

Eleni, sicrhawyd arbedion o 15 y cant wrth ddefnyddio dŵr oherwydd y gwelliannau ffisegol a wnaed i ystafelloedd ymolchi Tŷ Hywel yn y flwyddyn flaenorol.  Oherwydd i ni gael cryn dipyn o law a dim problemau cynnal a chadw roedd modd defnyddio mwy o ddŵr llwyd yn y Senedd a lleihau ein defnydd o'r prif gyflenwad dŵr 50 y cant. Yn y Pierhead, bu gostyngiad bach o ran defnyddio dŵr. Er bod y defnydd yn yr adeilad hwn, gyda'i deiliadaeth staff isel, yn dibynnu bron yn llwyr ar niferoedd ymwelwyr, rydym yn bwriadu gwneud arbedion pellach dros y flwyddyn nesaf.

### Gwella'n barhaus

Ochr yn ochr â mentrau ymwybyddiaeth ymddygiadol, rydym yn gwneud gwelliannau ffisegol i ein hystâd. Rydym ni wedi:

– disodli'r gwresogyddion dŵr cyddwyso hŷn ag unedau Ecoflow fwy effeithlon;

– adnewyddu cyfleusterau cegin Tŷ Hywel, gan gynnwys gosod synwyryddion golau isgoch goddefol (PiR) ac amseryddion ar y boeleri dŵr;

– gwella ein cyfleuster storio beiciau er mwyn annog staff i adael eu ceir a theithio i'r gwaith ar eu beiciau;

– disodli'r unedau tymheru aer a gwresogi cyfunol yn adeilad y Pierhead i ddarparu gwres yn fwy effeithlon fel rhan o ymgyrch i wresogi ystafelloedd pan fo angen yn unig;

– parhau â rhaglen dreigl o osod unedau mwy effeithlon newydd yn lle'r systemau aerdymheru a ffaniau coil yn Nhŷ Hywel;

– cwblhau'r gwaith o adnewyddu ystafelloedd ymolchi Tŷ Hywel, gan osod tapiau awtomatig er mwyn lleihau'r defnydd o ddŵr a goleuadau LED (deuodau allyrru golau) â synwyryddion golau isgoch goddefol (PiR) i wella effeithlonrwydd ynni;

– gosod unedau LED yn lle'r hen oleuadau lefel uchel yn y Senedd er mwyn lleihau'r defnydd o drydan a chostau cynnal a chadw;

– gosod goleuadau LED yn ffreutur y staff, ar y grisiau ac yn ystafelloedd y gweinyddion, fel rhan o raglen dreigl;

– uwchraddio'r system boeler biomas i roi cyflenwad mwy dibynadwy ac effeithlon o wres i adeilad y Senedd; a

– gosod system newydd ar gyfer rheoli'r adeilad, sy'n fwy hygyrch ac yn rheoli'r ffordd y caiff ein swyddfeydd eu gwresogi a'u hoeri mewn ffordd fwy effeithlon.

## Ein data

Caiff y ffigurau ynghylch allyriadau yn yr adroddiad hwn eu cyfrifo drwy ddefnyddio Ffactorau Trosi 2012 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), sy'n berthnasol i'r DU yn unig. Yn unol â chanllawiau Defra, nid yw'r allyriadau nwyon tŷ gwydr a nodir yn cael eu haddasu i ystyried ffactorau sy'n ymwneud â'r tywydd. Caiff ein technegau monitro ac adrodd ar gyfer data cynaliadwyedd cysylltiedig eu hasesu fel rhan o'n harchwiliad amgylcheddol allanol blynyddol.

Datblygwyd y wybodaeth a geir yn y tablau isod yn unol â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer adrodd ynghylch cynaliadwyedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16. Defnyddiwyd ffactorau trosi Defra ar gyfer 2015-16 i gyfrifo'r ffigurau carbon deuocsid a'i gyfatebol (CO2e). Mesuriad cyffredinol yw CO2e a ddefnyddir i gymharu potensial gwahanol nwyon tŷ gwydr i achosi cynhesu byd-eang. Caiff allyriadau eu hadrodd yn seiliedig ar y dull rheoli ariannol a ddefnyddir ar gyfer yr ystâd graidd weinyddol yn unig.

Mae crynodeb llawn o'n perfformiad amgylcheddol i'w gweld yn ein Hadroddiad Amgylcheddol Blynyddol.

| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (tCO2e) | Cyfanswm allyriadau gros cwmpas 1 | 292 | 329 | 273 | 561 | 248 |
| | Cyfanswm allyriadau gros cwmpas 2 | 1,501 | 1,470 | 1,366 | 1,480 | 1,367 |
| | Cyfanswm allyriadau gros cwmpas 3 | 439 | 432 | 427 | 465 | 375 |
| | Cyfanswm yr allyriadau sydd y tu allan i gwmpas | 313 | 298 | 167 | 130 | 7 |
| | Cyfanswm allyriadau gros | 2,548 | 2,588 | 2,287 | 2,636 | 1997 |
| | **Cyfanswm yr allyriadau net** | **2,235** | **2,290** | **2,120** | **2,506** | **1990** |
| | Gwariant ar fentrau gwrthbwyso achrededig (e.e. Cronfa Gwrthbwyso'r Llywodraeth) | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Dangosyddion ariannol (£) | Gwariant gros yr ymrwymiad lleihau carbon | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. |

| Defnyddio ynni[1], [2] | | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (kwh) | Trydan (anadnewyddadwy) | 3,320,599 | 3,194,890 | 3,067,778 | 2,995,138 | 2,791,282 |
| | Nwy | 1,203,866 | 1,741,299 | 1,431,017 | 1,295,506 | 1,214,901 |
| | Biomas (adnewyddadwy) | 885,500 | 840,438 | 470,750 | 372,225 | 535,050 |

[1] Mae'n cynnwys costau trydan ac aerdymheru ar gyfer 'fferm weinyddwyr' oddi ar y safle ers 2010.
[2] Mae'r holl ddata ynghylch ynni yn cynnwys yr allyriadau trawsyrru a dosbarthu cyfredol ac ôl-weithredol ac allyriadau o'r ffynnon i'r tanc lle y bo'n berthnasol.

| Defnyddio ynni[1, 2] | | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (tCO2e) | Cyfanswm yr allyriadau ynni | 1,885 | 1,956 | 1,786 | 1,881 | 1,736 |
| Dangosyddion ariannol (£) | Cyfanswm gwariant ar ynni | 445,005 | 458,168 | 459,093 | 448,586 | 407,442 |

| Teithio swyddogol[3, 4] | | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (milltiroedd) | Teithio ar fusnes | 811,842 | 858,809 | 884,176 | 1,061,374 | 875,999 |
| | Cerbydau sy'n eiddo i'r Cynulliad a cherbydau ar log | 36,434 | 25,707 | 31,949 | 26,440 | 27,368 |
| Dangosyddion ariannol (£) | Gwariant ar deithiau busnes swyddogol | 265,217 | 266,576 | 349,775 | 393,509 | 292,142 |

| Gwastraff | | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (tunelli) | Cyfanswm y gwastraff a grëwyd | 156 | 121 | 118 | 125 | 123 |
| | Ailgylchu / ailddefnyddio | 116 | 103 | 111 | 119 | 118 |
| | Tirlenwi | 39 | 17 | 6.4 | 4.7 | 3.7 |
| | Compostio gwastraff | 14.2 | 11.3 | 5.5 | 5.5 | 12.5 |
| | Gwastraff peryglus | 0.05 | 0.29 | 0.5 | 1 | 0.4 |
| | Papur a brynwyd (A4 ac A5) (fesul miliwn o ddalenni) | 2.17 | 2.77 | 2.7 | 2.6 | 13.8 |
| Dangosyddion ariannol (£) | Gwariant ar waredu pob math o wastraff | 28,271 | 21,312 | 26,561 | 26,930 | 33,266 |

| Defnyddio dŵr | | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (m3) | Defnyddio dŵr: | | | | | |
| | Cyflenwyd (uniongyrchol) | 7,669 | 9,449 | 7,315 | 6,117 | 5,174 |
| | Casglwyd (anuniongyrchol) | 747 | 2,407 | 1,301 | 1,554 | 2,551 |
| | Tynnwyd (anuniongyrchol) | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Dangosyddion ariannol (£) | Gwariant ar gyflenwi a charthffosiaeth | 22,777 | 31,773 | 23,681 | 22,245 | 18,954 |

**Claire Clancy**

Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dyddiad: 11 Gorffenaf 2016

---

[3] Yn cynnwys costau teithio staff cymorth Aelodau'r Cynulliad o 2011-2012 ymlaen a theithiau y talwyd amdanynt gan ddefnyddio'r cerdyn credyd corfforaethol.

[4] Mae'r holl ddata ynghylch teithio bellach yn cynnwys ffigurau'r holl allyriadau o'r ffynnon i'r tanc cyfredol ac ôl-weithredol ar gyfer defnyddio tanwydd.



**10 mlynedd o’r Senedd: 2006-2016**
Teuluoedd yn mwynhau digwyddiad i ddathlu 10 mlynedd ers agor y Senedd.

# Ein hatebolrwydd: llywodraethu corfforaethol

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae'r adroddiad hwn, sydd wedi cael ei lofnodi gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, a hynny fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn unol â rheolau'r Trysorlys, yn cynnwys gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol uwch-reolwyr a'r drefn archwilio berthnasol.

## Y Comisiynwyr a deiliaid swyddi eraill

Mae gwybodaeth am y Llywydd, y Dirprwy Lywydd, y Comisiynwyr a Phrif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad wedi'i chynnwys yn yr adran sydd â'r pennawd, **Ein perfformiad: trosolwg**.

## Y cynghorwyr annibynnol

Mae gwybodaeth am y Cynghorwyr Annibynnol ac aelodau'r Pwyllgor Annibynnol wedi'i chynnwys yn yr adran sydd â'r pennawd, **Ein perfformiad: trosolwg**.

## Pwyllgor Taliadau

Mae gwybodaeth am y Pwyllgor Taliadau wedi'i chynnwys yn yr **Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a'r staff**.

## Yr uwch-reolwyr

Mae gwybodaeth am gyfrifoldebau'r uwch-reolwyr o ran cyfarwyddo prif weithgareddau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn wedi'i chynnwys yn yr **Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a'r staff**.

## Buddiannau sylweddol sydd gan yr Aelodau

Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau'r Cynulliad ar gael yn **www.cynulliad.cymru** a **www.assembly.wales**.

## Trafferthion yn ymwneud â data personol

Nid oedd unrhyw achosion o drafferthion yn ymwneud â data personol na cholli data personol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016.  Roedd dau fân achos o dorri'r rheolau ar ddata personol neu doriadau posibl yn fewnol, a gafodd eu hymchwilio a'u rheoli yn fewnol. Gan fod y tebygolrwydd o achosi niwed neu ofid i wrthrych y data yn yr achosion hyn yn isel, barnwyd nad oedd angen cymryd camau pellach.

## Archwilydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio cyfrifon Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.  Mae Adroddiad yr Archwiliad i'w weld ar dudalen 96.

Y gost archwilio allanol a amcangyfrifwyd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol hyn yw £66,250 (£66,250 yn 2014–15). Mae hyn yn cynnwys £2,650 (£3,636 yn 2014-15) ar gyfer gwaith archwilio anstatudol ychwanegol yn 2015–16..

## Datgelu gwybodaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyn belled ag y gwn:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilydd yn ymwybodol ohoni; ac
- rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i gadarnhau bod ein harchwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Y cyfarwyddyd o ran cyfrifon

Paratowyd y cyfrifon a geir rhwng tudalennau 100 a 127 yn unol â Chyfarwyddyd y Trysorlys a gyhoeddwyd o dan Adran 137 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae’r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi, ac mae nodiadau esboniadol yn eu hategu.  Mae’r cyfrifon hyn yn nodi effaith ariannol penderfyniadau’r Comisiwn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a’r blynyddoedd ariannol blaenorol.

Mae gwybodaeth am y Cynulliad a’r Comisiwn hefyd ar gael ar wefan y Cynulliad: **www.cynulliad.cymru** a **www.assembly.wales.**

**Claire Clancy**
Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dyddiad: 11 Gorffenaf 2016



**10 mlynedd o'r Senedd: 2006-2016**
Côr Dynion Hoyw De Cymru yn perfformio yn y digwyddiad 'Adeiladu ar gyfer democratiaeth', a gynhaliwyd i nodi deng mlynedd ers agor y Senedd.

# Datganiad o gyfrifoldebau’r Comisiwn a’r Prif Swyddog Cyfrifyddu

## Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, drwy rinwedd Adran 138 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, yw Prif Swyddog Cyfrifyddu’r Comisiwn.

Mae Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad wedi paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â'r Cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi a'r egwyddorion cyfrifyddu a’r gofynion datgelu sydd wedi’u nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Paratoir y Cyfrifon Adnoddau ar sail cyfrifyddu croniadau. Maent yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiwn ar ddiwedd y flwyddyn; yr alldro adnoddau net; yr adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni amcanion; datganiad o'r gwariant net cynhwysfawr; datganiad o’r sefyllfa ariannol; llif arian, a datganiad o'r newidiadau i ecwiti trethdalwyr yn ystod y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi’r cyfrifon, mae Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad wedi:

– cydymffurfio â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi o ran cyfrifon;

– cydymffurfio â’r gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu gwybodaeth ac wedi bod yn gyson o ran gweithredu polisïau cyfrifyddu priodol;

– gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol a gofalus;

– nodi a yw'r safonau cyfrifyddu priodol wedi’u dilyn, yn amodol ar unrhyw eithriadau a gaiff eu datgelu a’u hegluro yn y cyfrifon; a

– pharatoi’r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae cyfrifoldebau perthnasol y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys bod yn gyfrifol am gywirdeb a chysondeb cyllid y Comisiwn ac am gadw cofnodion priodol, wedi’u nodi mewn memorandwm a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

**Claire Clancy**

Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dyddiad: 11 Gorffenaf 2016

# Datganiad llywodraethu

Mae'r datganiad hwn, sydd wedi'i lofnodi gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn nodi ar ba sail y sefydlwyd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sut y caiff ei lywodraethu a'i reoli, a sut y mae'n atebol am yr hyn y mae'n ei wneud.

## Rôl y Comisiwn

Cafodd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) ei sefydlu fel corff corfforaethol o dan Adran 27 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Ei brif rôl yw darparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen at ddibenion y Cynulliad, neu sicrhau bod y rhain yn cael eu darparu ar ei gyfer. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Comisiwn yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli ei faterion, hwyluso'r dull o arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, a rheoli risg.

## Y fframwaith llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo a rheoli'r sefydliad a'r gweithgarwch sy'n ei wneud yn atebol i'r Cynulliad a phobl Cymru ac sy'n ei ymgysylltu â hwy. Mae'n cynnwys fframweithiau ar gyfer: cynllunio strategol a gweithredol; rheoli risg a pherfformiad; llywodraethu gwybodaeth; caffael; a rheolaeth ariannol. Mae gennym bolisïau a chodau ymddygiad corfforaethol sy'n sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn y Comisiwn, neu gyda'r sefydliad, yn ymwybodol o'r angen i weithredu'n unol â'r safonau llywodraethu uchaf. Mae gennym bolisïau clir hefyd yn ymwneud â thwyll, llygredigaeth, llwgrwobrwyaeth a chwythu'r chwiban. Mae'r fframwaith llywodraethu yn caniatáu i'r Comisiwn gynllunio at ddibenion cyflawni ei amcanion strategol, ac i fonitro'r sefyllfa honno. Mae hefyd yn caniatáu iddo ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau cost-effeithiol a phriodol.

## Y strwythur llywodraethu

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd, sy'n Gadeirydd arno, ynghyd â phedwar Aelod Cynulliad arall a benodir gan y Cynulliad. Y Comisiynwyr sy'n gyfrifol am drefniadau llywodraethu'r sefydliad ac maent yn atebol i'r Cynulliad. Maent yn pennu nodau strategol y sefydliad, yn darparu'r arweinyddiaeth i'w rhoi ar waith ac yn goruchwylio ac yn adrodd ar yr hyn a gyflawnir.

Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn yw Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad. Mae'n atebol i'r Comisiwn am gyflawni ei nodau strategol. Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, hi sy'n atebol i'r Cynulliad am drefn ac ansawdd y gwaith rheoli yng Nghomisiwn y Cynulliad, gan gynnwys ei ddefnydd o arian cyhoeddus a sut y mae'n gwarchod ei asedau. Cyflogeion y Comisiwn yw staff y Cynulliad.

Fel rhan o fframwaith llywodraethu'r sefydliad, mae gan y Comisiwn Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Ansawdd a Phwyllgor Taliadau. Mae rhagor o wybodaeth am y pwyllgorau hyn ar dudalennau 68 ac 78 yn y drefn honno. Mae Bwrdd Taliadau annibynnol yn pennu cyflogau a chymorth ariannol arall ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

## Gwneud penderfyniadau a rheoli busnes

Mae'r Comisiwn yn cwrdd yn rheolaidd i roi cyfeiriad ac i oruchwylio'r modd y cyflawnir strategaeth ac amcanion y Comisiwn. Mae'r Comisiwn wedi dirprwyo llawer o'i swyddogaethau rheoli o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr a'r Clerc. Mae eithriadau i'r trefniant dirprwyo ffurfiol hwn wedi'u nodi, ynghyd â manylion am feysydd y mae'n rhaid i'r Prif Weithredwr a'r Clerc ymgynghori â'r Comisiwn yn eu cylch.

Mae gweinyddiaeth y Comisiwn wedi'i rhannu rhwng pum Cyfarwyddiaeth, sy'n adrodd i'r Prif Weithredwr. Mae'r Cyfarwyddiaethau hynny wedi'u hisrannu i feysydd gwasanaeth, sy'n cael eu harwain gan y Penaethiaid Gwasanaeth. Mae’r Bwrdd Rheoli, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr a’r uwch Benaethiaid Gwasanaeth, yn cwrdd yn rheolaidd, a hynny'n ffurfiol ac yn anffurfiol, i adolygu a chydgysylltu materion polisi a materion gweithredol. Mae'n ofynnol i aelodau'r Bwrdd Rheoli weithredu'n gorfforaethol er budd y Cynulliad yn ei gyfanrwydd. Mae cylch gorchwyl y Bwrdd yn datgan bod angen iddo sicrhau bod perfformiad, gwelliannau a chamau gweithredu'r Comisiwn yn cyd-fynd â'i weledigaeth a'i werthoedd.

Mae'r Prif Weithredwr wedi sefydlu system lywodraethu o awdurdodau dirprwyedig at ddibenion rheoli adnoddau, sy'n cynnwys cyllid, staffio a chyfrifoldebau eraill sy'n ymwneud ag adnoddau, fel caffael.

Mae'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, yn rhoi cyfeiriad i brosiectau a mentrau newid pwysig a roddir ar waith ar draws y Comisiwn, ac yn goruchwylio'r drefn lywodraethu ar gyfer y prosiectau hynny. Mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau cyllido, y gallu i ddarparu gwasanaethau a'r modd y caiff adnoddau eu dyrannu. Mae hefyd yn penderfynu a ddylid cymeradwyo achosion busnes ar gyfer recriwtio.

Mae prosesau ffurfiol ar waith ar gyfer darparu gwybodaeth i'r Comisiwn, y Bwrdd Rheoli, a'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau, a hynny er mwyn sicrhau bod y wybodaeth honno'n cael ei darparu mewn modd amserol ac i safon a gytunwyd. Mae dulliau adolygu ac adrodd sefydledig ar waith. Cânt eu cydgysylltu a'u cefnogi gan dimau cymorth canolog.

## Cynllunio a mesur perfformiad

Diweddarwyd y cynllun strategol ar sail adolygiad y Comisiwn o'i nodau a'i flaenoriaethau strategol, ac mae'r cynllun hwnnw wedi'i adlewyrchu mewn cynlluniau gwasanaeth ac amcanion perfformiad unigol diwygiedig.

Mae'r Bwrdd Adnoddau a Chynllunio, sy’n cynnwys aelodau’r Bwrdd Rheoli, yn craffu ar gynlluniau gwasanaeth a chynlluniau capasiti ddwywaith y flwyddyn. Bwriad y drefn hon yw sicrhau bod cynllunio effeithiol yn digwydd mewn perthynas â gofynion y Comisiwn ar hyn o bryd, ynghyd â'i ofynion at y dyfodol.

Mae'r Comisiwn wedi parhau i gyhoeddi Adroddiadau Perfformiad Corfforaethol, gan ymgorffori Dangosyddion Perfformiad Allweddol ynddynt. Mae'r dangosyddion hyn yn dangos perfformiad uchel parhaus mewn nifer o wasanaethau, a gwelliannau mewn meysydd penodol lle gwnaed ymdrechion arbennig. Mae'r Comisiynwyr a Phwyllgor Cyllid y Cynulliad wedi parhau i gael budd o'r adroddiadau hyn. Byddwn yn ystyried y strategaeth a gaiff ei sefydlu gan y Comisiwn newydd fel rhan o adolygiad cynhwysfawr o'r mesurau perfformiad ar gyfer y Pumed Cynulliad.

## Cynnydd a pherfformiad

Yn Natganiad Llywodraethu 2014-15, nodwyd y dylid canolbwyntio ar y meysydd canlynol a'u datblygu:

### a. Parhad busnes

O ran digwyddiadau mawr, gwnaethom gynnal ymarfer i brofi gallu'r Comisiwn i ymateb i amrywiaeth o faterion cymhleth. Rydym yn ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd o'r ymarfer hwnnw yn yr holl ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â pharhad busnes. Gwnaethom baratoadau i gynnal ymarfer arall yn gynnar yn y Cynulliad newydd, ac i gynnwys Aelodau yn yr ymarfer hwnnw.

### b. Llywodraethu gwybodaeth

Mae Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth y Comisiwn yn awr yn weithredol. Yn dilyn ymgyrch ymwybyddiaeth, rydym yn rhoi'r fframwaith hwn ar waith ar draws y sefydliad. Rydym hefyd wedi'i rannu gyda deddfwrfeydd eraill, a hynny fel enghraifft o arfer da. Mae'r fframwaith yn cynnwys diogelwch gwybodaeth, diogelu data a rheoli gwybodaeth.

Rydym yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth drwy adroddiadau cydymffurfio sy'n cael eu llunio bob dwy flynedd gan Berchnogion yr Asedau Gwybodaeth (y Penaethiaid Gwasanaeth). Nid oedd unrhyw achosion o golli data personol yn ystod 2015-16 lle bu'n ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gwnaethom ymchwilio i nifer o fân ddigwyddiadau o dorri'r rheolau ar ddata personol neu achosion posibl o dorri'r rheolau a'u rheoli'n fewnol, yn unol â pholisi'r Comisiwn.

Mae'r rhaglen y mae'r Comisiwn yn ei datblygu parthed ei weledigaeth ar gyfer statws y Cynulliad fel senedd ddigidol yn dod â chyfleoedd newydd i wella'r drefn lywodraethu drwy fabwysiadu dull mwy strategol o reoli gwybodaeth.

### c. Rheoli prosiectau a rhaglenni, a gwireddu buddion

Rydym wedi cynnal ymarferion recriwtio allanol i ddenu staff newydd at ddibenion ehangu capasiti'r Comisiwn yn y maes hwn. Rydym wedi defnyddio sgiliau a phrofiad y staff newydd i wneud trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu a rheoli prosiectau strategol a rhaglenni newid.

Rydym wedi ymestyn rôl y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau i gynnwys y gwaith o reoli mentrau a phrosiectau newid mawr. Mae'r cam hwn wedi cryfhau'r dull strategol o ddyrannu adnoddau i raglenni a phrosiectau.

Yn ogystal, mae ein Dadansoddwyr Busnes wedi gweithio gyda rheolwyr prosiectau a rhanddeiliaid pwysig i'w helpu i ddadansoddi buddion prosiectau. Mae'r broses hon wedi llywio'r broses o bennu cwmpas prosiectau ac wedi cryfhau achosion busnes. Bydd y dadansoddwyr yn parhau i weithio gyda'r rheolwyr prosiectau wedi i'r prosiectau gael eu gweithredu, hyd at y broses o gynnal ymarferion sy'n ymwneud â gwireddu buddiannau.

### d. Cynllunio capasiti

Mae'r cam o gyflwyno proses ffurfiol o gynllunio capasiti sy'n gysylltiedig â chynllunio gwasanaethau wedi ategu technegau a dulliau'r Comisiwn o reoli a chynllunio mewn modd cadarnhaol. Daeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'r casgliad bod y fenter cynllunio capasiti a'r gweithlu wedi sicrhau bod y Comisiwn yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau, gan roi ystyriaeth briodol i'r gofynion a'r newidiadau a ddaw yn y dyfodol.

## Cyflawni ein nodau strategol

Mae ein trefniadau llywodraethu cryf wedi cyfrannu'n uniongyrchol at nifer o lwyddiannau mewn perthynas â'n nodau strategol, sydd wedi'u nodi yn **Ein perfformiad: dadansoddiad**, ar dudalennau 23 i 57 o'r adroddiad hwn. Er enghraifft:

- cynllunio capasiti cadarn a arweiniodd at waith craffu effeithiol ar ddeddfwriaeth y Cynulliad a Bil Cymru drafft;
- adolygiad Archwilio Mewnol o wasanaethau dwyieithog a nododd feysydd i'w cryfhau ymhellach; a'r
- broses diwydrwydd dyladwy sylweddol a oedd ynghlwm wrth y gwaith o gynllunio ar gyfer y Pumed Cynulliad.

## Rheolaeth a pherfformiad ariannol

Mae ethos gwelliant parhaus y Comisiwn wedi'i adlewyrchu ym maes rheolaeth a pherfformiad ariannol. Rydym wedi gwella ymhellach y broses o lunio adroddiadau a rhagolygon ariannol, sydd wedi rhoi'r hyblygrwydd inni wneud y defnydd gorau o'r gyllideb sydd ar gael inni.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi atgyfnerthu ein rheolaeth a'n rheolaethau ariannol, a'n trefniadau ar gyfer adrodd arnynt. Rydym wedi:

- cynyddu capasiti, sgiliau a gwytnwch y tîm cyllid;
- lleihau'r amser a gymerir i gyhoeddi adroddiadau;
- gwella ein prosesau cysoni; a
- bodloni dangosyddion perfformiad allweddol.

Roedd y tîm Cyfrifon Ariannol a'r tîm Polisi, Cynllunio a Pherfformiad yn destun adolygiad Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn. Cafwyd sgôr sicrwydd cryf o ganlyniad i'r ddau adolygiad, a oedd yn dystiolaeth o'r gwaith cynhwysfawr a wnaed i gynnal amgylchedd rheolaeth fewnol y Comisiwn.

Yn ystod 2015-16, rydym wedi cydweithio â Swyddfa Archwilio Cymru mewn modd adeiladol er mwyn mynd i'r afael â meysydd a nodwyd mewn blynyddoedd blaenorol fel rhai sydd angen eu gwella. Rydym wedi ymgysylltu mewn modd cadarnhaol â'r tîm archwilio er mwyn cytuno ar driniaethau cyfrifyddu sy'n briodol mewn nifer o feysydd technegol.

Rydym hefyd wedi cynhyrchu datganiadau ariannol interim o fewn wythnos i ddiwedd cyfnod mis Tachwedd. Cafodd yr arfer da hwn ei groesawu gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Gwnaethom bennu'r dangosydd perfformiad ariannol allweddol ar yr un lefel heriol â'r targed a bennwyd ar gyfer y blynyddoedd blaenorol, sef tanwario i lefel sy'n cyfateb i 1 y cant o'r gyllideb neu lai. Parhaodd y Comisiwn i ganolbwyntio ar sicrhau gwerth am arian. Am y bumed flwyddyn yn olynol, gwnaethom ragori ar ein targed o ran arbedion, a gwnaethom gynyddu'r cyfraniad sy'n deillio o wariant gweithredol ac eithrio gwariant ar staff.

Yn ystod 2015-16, gwnaeth y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus waith craffu ar gyllideb a pherfformiad y Comisiwn. Croesawodd y ddau bwyllgor dull gweithredu agored a thryloyw'r Comisiwn.

## Cydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu

Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu cyfres o egwyddorion llywodraethu a darpariaethau cefnogol sy'n gyson â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU a'r Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus. Cânt eu defnyddio i lywio gwaith y Comisiwn a'i staff. Mae'r Comisiwn wedi cydymffurfio â’r egwyddorion hyn. Mae'r adran ar sicrwydd yn disgrifio sut y cafodd tystiolaeth yn y maes hwn ei chasglu drwy ddatganiadau sicrwydd a thrwy ddefnyddio'r fframwaith sicrwydd.

## Nodi a rheoli risg

Mae’r system rheoli mewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu risgiau a allai effeithio ar allu’r Comisiwn i gyflawni ei nodau a’i flaenoriaethau, ac i gydymffurfio â'i bolisïau a'i weithdrefnau. Mae'r broses hon yn cynnwys ystyried pa mor debygol yw’r risgiau hynny o gael eu gwireddu a’r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a sut y gellir rheoli’r risgiau’n effeithlon, yn effeithiol ac mewn modd darbodus.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Bwrdd Rheoli'r Comisiwn ymarfer drylwyr ar gyfer nodi risgiau. O ganlyniad, ychwanegwyd nifer o risgiau newydd at y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Roedd rhai o'r risgiau hyn yn fwy statig o ran natur, fel risgiau diogelwch ffisegol a risgiau cydymffurfiaeth. Er bod y risgiau hyn yn cael eu rheoli'n effeithiol gan feysydd gwasanaeth y Comisiwn, nid oeddent eisoes yn ddigon gweladwy. Mae'r perchnogion risg yn adrodd yn rheolaidd ar ba mor ddigonol yw'r rheolaethau presennol, statws risgiau gweddilliol ac unrhyw gamau gweithredu pellach y mae eu hangen i wella'r rheolaethau.

Mae asesiadau manwl o'r risgiau diogelwch ffisegol a seiber, a gynhaliwyd gan ddefnyddio arbenigedd allanol, wedi rhoi sicrwydd cryf inni ynghylch y rheolaethau sydd ar waith yn y Comisiwn. Rydym wedi nodi camau gweithredu ar gyfer atgyfnerthu'r rheolaethau hyn, a byddwn yn eu hasesu drwy'r adolygiadau Archwilio Mewnol a gynhelir yn ystod y flwyddyn.

Mae rheoli risgiau'n ofalus wedi chwarae rhan bwysig yn y broses o helpu'r Comisiwn i gynllunio ar gyfer newidiadau gwleidyddol, deddfwriaethol a chyfansoddiadol, ac ar gyfer trosglwyddo i'r Cynulliad Pumed. Mae'r dull a fabwysiadwyd o ran reoli risg hefyd wedi arwain at ddatblygu system gadarn o gynllunio capasiti, a hynny er mwyn sicrhau bod gan y Comisiwn ddigon o adnoddau i gyflawni ei nodau strategol a'i flaenoriaethau corfforaethol, a sicrhau ei fod yn cael y defnydd gorau o'i adnoddau.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi cynnal trosolwg o effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer rheoli risg ac wedi ystyried risgiau corfforaethol penodol mewn mwy o fanylder drwy gydol y flwyddyn. Croesawodd y Pwyllgor y drefn barhaus ar gyfer asesu risg a'r ffaith bod y risgiau mwy sefydlog y mae'r Comisiwn yn eu hwynebu yn awr yn fwy gweladwy.

Mae nodau'r Comisiwn wedi datblygu yn ystod y Trydydd a'r Pedwerydd Cynulliad. Mae'n debygol y byddant yn parhau i fod yn berthnasol o ran llywio amcanion y Comisiwn newydd ar gyfer y Pumed Cynulliad. Yn nyddiau cynnar y Pumed Cynulliad, bydd amrywiaeth o heriau a risgiau yn wynebu'r sefydliad, gan gynnwys mwy o ansicrwydd ynghylch cyllidebau yn y dyfodol, o gofio bod strategaeth tymor hir y gyllideb, a bennwyd yn 2011, wedi dod i ben. Bydd y Comisiwn yn parhau i ddylanwadu ar y broses o sicrhau newidiadau cyfansoddiadol, gan gynnwys sicrhau bod ei flaenoriaethau ar gyfer diwygio sefydliadol yn cael eu cyflawni. Ar yr un pryd, bydd angen i'r Comisiwn sicrhau bod y Cynulliad mewn sefyllfa dda ar gyfer cychwyn y pwerau ariannol newydd a ddaw i rym wrth weithredu *Deddf Cymru 2014*. Yn fewnol, bydd prosiectau pwysig yn cael eu cynnal, fel datblygu senedd ddigidol. Bydd angen rheoli risg yn effeithiol mewn perthynas â'r holl amcanion hyn.

## Sicrwydd

Mae gan y Comisiwn Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg sy'n cynnwys dau ymgynghorydd annibynnol, un aelod annibynnol arall a Chomisiynydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros gyllid a llywodraethu. Un o'r ymgynghorwyr annibynnol yw Cadeirydd y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn cyflawni swyddogaeth ymgynghorol, ond nid oes ganddo bwerau gweithredol. Cyfarfu bum gwaith yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd ar adroddiadau archwilio mewnol ac allanol, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu argymhellion, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad, adroddiadau ar reoli risg, a'r trefniadau llywodraethu a rheoli mewnol. Mae'r Pwyllgor wedi ymestyn hyd ei gyfarfodydd er mwyn caniatáu iddo ymdrin â busnes yn ddigon manwl.

Mae dogfennaeth ffurfiol fframwaith sicrwydd y Comisiwn wedi dod â rhagor o eglurder a dealltwriaeth ynghylch sut y mae'r Comisiwn yn cael sicrwydd bod ei reolaethau mewnol yn gadarn ac yn effeithiol. Defnyddir y ddogfennaeth hon bellach i gasglu tystiolaeth ynghylch lefelau sicrwydd at ddibenion llywio cynnwys datganiadau sicrwydd ar lefel gwasanaeth, sydd, yn eu tro, yn llywio datganiadau sicrwydd ar lefel cyfarwyddiaeth. Ychwanegodd un o'n cynghorwyr annibynnol haen arall o sicrwydd drwy graffu ar y broses o gasglu tystiolaeth ar sicrwydd, yn ogystal â'r datganiadau canlyniadol, a'u herio.

Daeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'r casgliad bod y fframwaith yn dangos cryfder cyffredinol ffynonellau sicrwydd y Comisiwn.

Mae'r Pwyllgor wedi bod yn fodlon â'r trefniadau archwilio mewnol, ac yn benodol: y sicrwydd a roddir gan y Pennaeth Archwilio Mewnol; y protocol cydweithio sy'n bodoli rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r gwasanaeth archwilio mewnol, sy'n sail i'w perthynas waith gref; lefel yr ymgysylltu â'r broses archwilio mewnol drwy'r Comisiwn; a'r ymrwymiad gan reolwyr i weithredu argymhellion yr Archwiliad Mewnol. At ei gilydd, mae'r gwasanaeth archwilio a sicrwydd yn wasanaeth trylwyr a chydlynol.

Yn y cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2015-16, ceisiwyd taro cydbwysedd rhwng rhoi sicrwydd mewn perthynas â systemau a phrosesau allweddol fel caffael a rheolaethau ariannol pwysig, a rhoi sicrwydd i'r Comisiwn mewn perthynas â meysydd o bwysigrwydd strategol, fel ymgysylltu â'r cyhoedd a darparu gwasanaethau dwyieithog gwell.

Mae'r adroddiadau Archwilio Mewnol wedi nodi nifer o feysydd lle mae'r Comisiwn yn dangos sut y mae'n glynu wrth arfer da o ran y systemau a'r rheolaethau y mae wedi'u sefydlu. Fodd bynnag, mewn meysydd lle mae gwendidau neu broblemau'n dod i'r amlwg, mae rheolwyr yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag argymhellion yr archwiliad.

Ar sail y rhaglen archwilio, nododd Adroddiad Blynyddol a Barn y tîm Archwilio Mewnol ar gyfer 2015-16 fod gan Gomisiwn y Cynulliad brosesau digonol ag effeithiol ar gyfer rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu er mwyn cyflawni ei amcanion.

Yn ystod 2015-16, adolygodd y Pennaeth Archwilio Mewnol bolisïau'r Comisiwn mewn perthynas â thwyll a chwythu'r chwiban er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn berthnasol. Yn ogystal, aeth i ddigwyddiadau a drefnwyd gan yr elusen Public Concern at Work a Swyddfa Archwilio Cymru ar y mater o chwythu'r chwiban. Cafodd polisi'r Comisiwn ei feincnodi yn erbyn polisïau cyrff sector preifat a chyrff sector cyhoeddus. Roedd polisi'r Comisiwn yn cymharu'n ffafriol â'r polisïau eraill. Mae staff sy'n ymdrin â materion cyllid hefyd wedi cael rhagor o hyfforddiant ymwybyddiaeth twyll yn ystod 2015-16.

Ni fu unrhyw achosion o dwyll neu chwythu'r chwiban yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Comisiwn yn monitro'n ffurfiol lefelau o gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddio. Mae'r adroddiadau cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn. Mae'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb, yr Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol a'r Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol yn enghreifftiau o'r drefn hon.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau sicrwydd allanol. Mewn blwyddyn o newid sylweddol, mae'r Comisiwn wedi ymgysylltu â'i gynghorwyr annibynnol a nifer o unigolion eraill er mwyn sicrhau her allanol i'w brosesau ac er mwyn cael sicrwydd ynghylch ei drefniadau blaengynllunio.

Mae cydnabyddiaeth allanol annibynnol hefyd yn bwysig i'r Comisiwn wrth iddo ystyried y diwylliant a'r amgylchedd y mae staff y Comisiwn yn gweithio ynddynt. Mae'r Comisiwn:

– yn parhau i feddu ar achrediad aur Buddsoddwyr mewn Pobl;

– yn drydydd, yn 2016, ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall o'r cyflogwyr gorau yn y DU, ac wedi'i enwi'n Gyflogwr Gorau'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru am y drydedd flwyddyn yn olynol;

– yn parhau i feddu ar farc siarter 'Yn Uwch na Geiriau' Action on Hearing Loss, ac wedi ennill gwobr arian Rhagoriaeth Cymru;

– wedi cadw Gwobr Fynediad y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol;

– wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobrau Arbennig y Cyflogwyr Gorau 2015 am y tro cyntaf am roi system gweithio hyblyg ar waith, ac wedi bod yn destun erthygl yng nghylchgrawn Equal Opportunities Review; ac

– wedi'i enwi'n un o 30 o gyflogwyr gorau Teuluoedd sy'n Gweithio.

Mae'r Comisiwn hefyd wedi ennill tystysgrif Lefel 5 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd unwaith eto, yn dilyn archwiliad llwyddiannus yn gynnar yn 2016. Mae'r dystysgrif hon yn cydnabod ei bolisïau amgylcheddol a gwelliannau amgylcheddol parhaus.

Rydym hefyd yn defnyddio meincnodi allanol i fesur effeithiolrwydd ein prosesau mewnol. Gwnaethom ail-lansio ein harolwg staff blynyddol eleni er mwyn cefnogi ein hegwyddorion allweddol, sef tryloywder, meincnodi ac ymgysylltu. Y sgôr ymgysylltu a gafwyd yn yr arolwg oedd y sgôr uchaf a gafwyd ymhlith ein cymaryddion yn y Gwasanaeth Sifil yn Nghymru.

## Adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol

Canolbwynt yr adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu oedd proses hunan-adolygu a gwblhawyd gan y Bwrdd Rheoli ym mis Chwefror 2016.  Cymerodd yr adolygiad hwn ganlyniadau ymarfer mapio manwl ynglŷn â sicrwydd, yn ogystal â datganiadau sicrwydd gan Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth, i ystyriaeth. Roedd yn cynnwys sicrwydd ar:

– y cynnydd a wnaed o ran y llwyddiannau allweddol;

– ymwybyddiaeth o egwyddorion, rheolau a gweithdrefnau llywodraethu, a chydymffurfio â hwy, ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu;

– rheoli risgiau;

– y cynnydd a wnaed o ran y meysydd gwella a nodwyd; a

– sut y mae'r broses o gyflawni amcanion y cynllun gwasanaeth wedi cael ei monitro.

Defnyddiwyd canlyniadau'r adolygiad i lywio cynnwys y datganiad hwn, a chafodd ei drafod gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyn y cafodd y datganiadau ariannol eu llofnodi.

Cynhaliwyd adolygiad o ddull y Comisiwn o sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a gwerth am arian ar draws y sefydliad. Cyflwynwyd toreth o dystiolaeth i ddangos bod y Comisiwn yn sefydliad sy'n cael ei reoli'n ofalus ac sy'n defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, a bod effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn elfen annatod o ddarparu gwasanaethau rhagorol. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i sicrhau bod pob menter newid newydd yn cael ei darparu ar sail asesiad cost a budd, bod adolygiadau o'r trefniadau ar gyfer cynllunio gwasanaethau a chynllunio capasiti yn cael eu cynnal ar sail gwneud y defnydd gorau o adnoddau er mwyn gweithredu strategaeth ac amcanion y Comisiwn, a bod y broses o ddangos gwerth am arian yn cael ei herio'n gyson.

O ran effeithiolrwydd y Comisiwn fel bwrdd llywodraethu, roedd adroddiad a gyhoeddwyd gan Bennaeth Archwilio Mewnol y Comisiwn ym mis Ionawr 2016 yn crynhoi casgliadau'r tri adolygiad effeithiolrwydd a gynhaliwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y dulliau effeithiol y mae'r Comisiwn presennol wedi'u defnyddio i gyflawni ei swyddogaethau. Mae'n cynnwys nifer o awgrymiadau ar gyfer y Comisiwn newydd, a'u bwriad yw cefnogi'r Comisiwn yn ei ddatblygiad parhaus fel bwrdd llywodraethu sy'n gweithredu'n dda ac yn effeithiol yn y Pumed Cynulliad.

## Meysydd ffocws a datblygu ar gyfer 2016-17

Gan ystyried canlyniadau'r gwaith archwilio a sicrwydd, a chan adeiladu ar y cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf, bydd y meysydd ffocws a datblygu ar gyfer 2016-17 yn cynnwys y canlynol:

– ffocws parhaus ar gynllunio capasiti a gwasanaethau er mwyn ein galluogi i ymateb yn hyblyg i'r gofynion sy'n dod i'r amlwg, o ystyried faint o newidiadau y byddwn yn eu hwynebu;

– ffocws parhaus ar gapasiti a gallu mewn perthynas â gwasanaethau dwyieithog; ac

– ymateb i'r ffyrdd gwahanol y mae'r cyhoedd yn eu defnyddio i ymgysylltu â'r Cynulliad.

Byddwn yn paratoi cynllun yn nodi’r camau sydd eu hangen i fynd i’r afael â’r meysydd hyn, a byddwn yn cyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wneir i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

## Datganiad i gloi

I grynhoi, rwy'n hyderus ein bod wedi datblygu trefn lywodraethu sydd o safon uchel iawn ac sy'n cynnwys elfennau enghreifftiol ar gyfer sefydliadau eraill. Rwy'n hyderus ein bod wedi mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn ein prosesau sicrwydd, neu wrthi'n mynd i'r afael â'r rhain. Rwyf hefyd yn fodlon ein bod wedi gweithredu a datblygu'r systemau a'r prosesau yn ein fframwaith llywodraethu yn effeithiol yn ystod y flwyddyn.

**Claire Clancy**

Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dyddiad: 11 Gorffenaf 2016



**10 mlynedd o'r Senedd: 2006-2016**
Y gynulleidfa yn mwynhau 'Noson o sgwrs gyda'r Arglwydd Richard Rogers', digwyddiad a gynhaliwyd i ddathlu 10 mlynedd ers agor y Senedd.

# Ein hatebolrwydd: cydnabyddiaeth ariannol a'r staff

# Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a'r staff

## Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth ariannol a sylwebaeth sy'n ymwneud â deiliaid swyddi'r Comisiwn, staff ac eraill sy’n cael eu talu gan y Comisiwn.

### Y Polisi Cydnabyddiaeth Ariannol

Mae’r Bwrdd Taliadau (y Bwrdd), a sefydlwyd gan Fesur Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010, yn gyfrifol am bennu cyflogau a lwfansau'r Aelodau. Daeth y Bwrdd yn weithredol ym mis Medi 2010. Roedd pedwar aelod y Bwrdd (Mary Carter, Stuart Castledine, yr Athro Monojit Chatterji a'r Athro Laura McAllister) yn cael £185 y diwrnod.  Roedd Cadeirydd y Bwrdd, Sandy Blair CBE DL, yn cael £243 y diwrnod. Fel rheol, caiff unigolion eu penodi i'r Bwrdd am dymor o bum mlynedd. Fodd bynnag, cafodd yr Athro Laura McAllister ei phenodi am flwyddyn yn unig ym mis Gorffennaf 2014 er mwyn sicrhau bod pob contract yn dod i ben yn ystod 2015.

Gwnaed penodiadau newydd yn ystod y cyfnod hwnnw, a throsglwyddwyd yr awenau ym mis Medi 2015. Mae pedwar aelod y Bwrdd (y Fonesig Jane Roberts, Roger Williams, Trevor Reaney a Michael Redhouse) yn cael £267 y diwrnod. Mae Cadeirydd y Bwrdd, y Fonesig Dawn Primarolo, yn cael £333 y diwrnod. Bydd pob un o'r contractau hyn yn dod i ben yn 2020.

Cyhoeddwyd adroddiad y Bwrdd, Addas i'r Diben, ym mis Mawrth 2011. Daeth i’r casgliad y dylai’r cyflog o £53,852 a bennwyd i Aelodau'r Cynulliad ar gyfer 2010-11 barhau am bedair blynedd o ddechrau’r Pedwerydd Cynulliad. Mewn Penderfyniadau dilynol a gyhoeddwyd ar gyflogau a lwfansau'r Aelodau, cafwyd cadarnhad mai dyna fyddai lefel y cyflog. Fodd bynnag, yn y Penderfyniad a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015, pennwyd cyflog sylfaenol o £54,391 i Aelodau'r Cynulliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16. Roedd gan y swyddi canlynol hawl i gael cyflogau ychwanegol fel a ganlyn:

| | O<br>1 Ebrill 2015 | O<br>1 Ebrill 2011 |
|---|---|---|
| Y Llywydd | £41,949 | £41,949 |
| Y Dirprwy Lywydd | £26,385 | £26,385 |
| Comisiynwyr y Cynulliad | £12,420 | £12,420 |
| Cadeiryddion y pwyllgorau[5] | £12,420 | £12,420 |
| Cadeiryddion pwyllgorau eraill[6] | £8,280 | £8,280 |

Mae’r tabl hwn yn destun archwilio

O fis Mai 2011, roedd Arweinydd grŵp gwleidyddol nad oedd ganddo swyddogaeth weithredol yn cael lwfans deiliad swydd ychwanegol a oedd wedi’i gyfrifo gan ddefnyddio lefel sylfaenol o £12,420,

[5] Y Pwyllgorau oedd: Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; Amgylchedd a Chynaliadwyedd; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol; Menter a Busnes; Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol; Cyllid; a Chyfrifon Cyhoeddus.
[6] Y pwyllgorau eraill oedd: Deisebau a Safonau Ymddygiad.

ynghyd â £1,000 ychwanegol am bob Aelod o'r grŵp, hyd at uchafswm cyflog o £41,949. O ganlyniad, amrediad lwfans y deiliaid swyddi oedd £17,420 - £26,420.

O fis Ebrill 2011, ar gyfer dechrau'r Pedwerydd Cynulliad, penodwyd Rheolwyr Busnes gan y grwpiau gwleidyddol. Roedd y Rheolwyr Busnes yn cael lwfans deiliad swydd ychwanegol, a hynny wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio lefel sylfaenol o £6,210, ynghyd â £250 ychwanegol am bob Aelod o'r grŵp, hyd at uchafswm cyflog o £12,420. O ganlyniad, amrediad lwfans y deiliaid swyddi oedd £7,460 - £12,420.

O ran yr Aelodau yr oedd ganddynt hawl i gael cyflogau ychwanegol yn 2015-16, ni hawliodd un ohonynt gyfanswm yr arian yr oedd ganddi hawl iddo ar gyfer y flwyddyn gyfan (yn 2014-15 ni hawliodd tri Aelod y cyfanswm llawn am y flwyddyn).

Nid yw'r Comisiwn yn rhoi buddion mewn nwyddau. Mae Aelodau'r Cynulliad yn aelodau o Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a chaiff cyfrifon blynyddol eu cyhoeddi ar wahân ar gyfer y cynllun hwn ar wefan y Cynulliad **www.cynulliad.cymru.**

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, ac maent yn cael eu codi ar gyfrifon adnoddau'r Comisiwn er hwylustod gweinyddol. Mae Cyfrifon Adnoddau Cyfunol Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth y datgeliad.

Yn ei adolygiad o'r pecyn cydnabyddiaeth ariannol sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad yn y Pumed Cynulliad, adolygodd y Bwrdd y cyflog sylfaenol a nododd nad oedd y cynnydd sylweddol yng nghyfrifoldebau'r Aelodau cyffredin wedi'i adlewyrchu yn y Penderfyniad blaenorol. Yn ei Benderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2015, daeth y Bwrdd i'r casgliad y dylai'r cyflog sylfaenol fod yn £64,000 o fis Mai 2016 ymlaen. Mae wedi pennu lefel y cyflogau i adlewyrchu'r cynnydd yng nghyfrifoldebau'r Aelodau, ac mae wedi cynyddu'r cyflogau a delir i ddeiliaid swyddi yn y ddeddfwrfa ar yr un raddfa â'r rhai yn y Llywodraeth. Bydd y newidiadau y mae'r Bwrdd yn eu gwneud i gynllun pensiwn yr Aelodau yn lleihau amrediad a maint y budd-daliadau y mae'r cynllun yn eu darparu a'r gost i drethdalwyr, a bydd gofyn i'r Aelodau dalu mwy. At ei gilydd, bydd cyfanswm cost y cyflogau ychwanegol a delir i ddeiliaid swyddi yn is.

## Deiliaid swyddi yn y Comisiwn

Sefydlwyd y Comisiwn ym mis Mai 2007 o dan Adran 27 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006). Mae'r Comisiwn yn cynnwys pum Comisiynydd: y Llywydd, sy'n cadeirio'r Comisiwn, a phedwar Aelod arall o Gynulliad Cenedlaethol Cymru a benodir gan y Cynulliad.

| Cafodd y canlynol eu hethol neu eu penodi ym mis Mai 2016: |
|---|
| **Elin Jones AC**<br>Etholwyd ar 11 Mai 2016 |
| **Suzy Davies AC**<br>Penodwyd ar 8 Mehefin 2016 |
| **Joyce Watson AC**<br>Penodwyd ar 8 Mehefin 2016 |
| **Dai Lloyd AC**<br>Penodwyd ar 8 Mehefin 2016 |
| **Caroline Jones AC**<br>Penodwyd ar 8 Mehefin 2016 |

| Y Comisiynwyr yn ystod 2015-16 oedd: | |
|---|---|
| **Y Fonesig Rosemary Butler AC**<br>Etholwyd ar XX Mai 2016<br>Daeth ei chyfnod yn y swydd i ben ar 11 Mai 2016 | Bu Rosemary Butler yn bresennol ym mhob un o'r 10 cyfarfod a gynhaliwyd gan y Comisiwn. |
| **Angela Burns AC**<br>Penodwyd ar 25 Mai 2011<br>Daeth ei chyfnod yn y swydd i ben ar 8 Mehefin 2016 | Bu Angela Burns yn bresennol mewn 8 o'r 10 cyfarfod a gynhaliwyd gan y Comisiwn. |
| **Peter Black AC**<br>Ailbenodwyd ar 25 Mai 2011<br>Daeth ei gyfnod yn y swydd i ben ar 8 Mehefin 2016 | Bu Peter Black yn bresennol ym mhob un o'r 10 cyfarfod a gynhaliwyd gan y Comisiwn. |
| **Sandy Mewies AC**<br>Penodwyd ar 25 Mai 2011<br>Daeth ei chyfnod yn y swydd i ben ar 8 Mehefin 2016 | Bu Sandy Mewies yn bresennol mewn 9 o'r 10 cyfarfod a gynhaliwyd gan y Comisiwn. |
| **Rhodri Glyn Thomas AC**<br>Penodwyd ar 25 Mai 2011<br>Daeth ei gyfnod yn y swydd i ben ar XXX | Bu Rhodri Glyn Thomas yn bresennol ym mhob un o'r 10 cyfarfod a gynhaliwyd gan y Comisiwn. |

Mae gan y Comisiynwyr gyfrifoldebau eraill sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad sy'n eu hatal rhag mynychu cyfarfodydd y Comisiwn o bryd i'w gilydd.

Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau’r Cynulliad ar gael yn **www.cynulliad.cymru** a **www.assembly.wales**.

Mae gan y Comisiwn drefniadau portffolio, gyda'r Comisiynwyr yn cymryd cyfrifoldeb arweiniol dros faterion penodol (gweler tudalen 4 i 5).

Roedd gan Gomisiynwyr y Cynulliad, ac eithrio’r Llywydd, hawl i gyflog blynyddol ychwanegol o £12,420 uwchlaw eu cyflog fel Aelodau’r Cynulliad. Nid yw manylion eu pensiwn wedi’u cynnwys isod gan mai dim ond rhan o’u cydnabyddiaeth ariannol oedd yn berthnasol i’w gwaith fel Comisiynwyr. Ni all eu pensiwn cronedig a'u Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) fel Comisiynwyr gael eu gwahanu o'r cyfansymiau a gronnwyd.

Mae costau cyflogau’r Llywydd a’r Dirprwy Lywydd yn cael eu talu’n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

| Enw a theitl | Cyflog 2015-16 | Cyflog 2014-15 | Gwir gynnydd mewn pensiwn[7] | Cyfanswm y pensiwn cronedig[8] | CETV ar 31/3/16 | CETV ar 31/3/15[9] | Gwir gynnydd mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Rosemary Butler AC – y Llywydd | 95-100 | 95-100 | 2.5-5 | 30-35 | 480 | 456 | 29 |
| David Melding AC – y Dirprwy Lywydd (dechreuodd ar 12/5/2011) | 80-85 | 80-85 | 2-2.5 | 25-30 | 321 | 284 | 20 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwilio.

Roedd y ffigurau a nodwyd ar gyfer y ffigurau CETV a'r gwir gynnydd mewn CETV yn adroddiad y llynedd yn anghywir. Nodwyd mai'r '*CETV ar 31 Mawrth 2014*' ar gyfer y Fonesig Rosemary Butler oedd £428,000. Mae'r ffigur hwn wedi cael ei ailddatgan yn £441,000. Hefyd, nodwyd mai ei '*Gwir gynnydd mewn CETV*' oedd £36,000. Mae'r ffigur hwn wedi cael ei ailddatgan yn £23,000. Nodwyd mai'r '*CETV ar 31 Mawrth 2014*' ar gyfer David Melding oedd £278,000. Mae'r ffigur hwn wedi cael ei ailddatgan yn £280,000. Hefyd, nodwyd mai ei '*Wir gynnydd mewn CETV*' oedd £18,000. Mae'r ffigur hwn wedi cael ei ailddatgan yn £15,000. Mae'r ffigurau CETV ar 31 Mawrth 2014 wedi cynyddu oherwydd eu bod bellach yn adlewyrchu ailbrisiad elfen ohiriedig Deiliad Swydd y pensiwn Aelodau a oedd wedi'i adael allan o ffigurau CETV 2014 yn flaenorol. Mae'r gwir gynnydd yn y ffigurau CETV yng nghyfrifon 2014/15 yn is nag a ddatganwyd o'r blaen oherwydd bod y ffigurau cychwyn h.y. y ffigurau CETV ar 31 Mawrth 2014, wedi cynyddu, gan arwain at gynnydd llai yn y ffigurau CETV rhwng 2014 a 2015.

Clerc y Cynulliad (a benodir o dan Adran 26 o Ddeddf 2006) yw Prif Weithredwr y Comisiwn a'i Brif Swyddog Cyfrifyddu. Yn ymarferol, mae'r Comisiwn wedi dirprwyo'i gyfrifoldebau gweithredol i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, gyda rhai eithriadau. Mae ei staff yn cael eu penodi o dan baragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006. Mae'r Comisiwn yn annibynnol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae gan y Comisiwn ddyletswydd i sicrhau y darperir yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Cynulliad i ymgymryd â'i rwymedigaethau statudol. Mae hyn yn sicrhau y gall y Cynulliad a'i bwyllgorau gynnull. Mae hefyd yn annog ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broses ddemocrataidd ac yn hybu ymgysylltiad â'r broses honno, ac mae'n cefnogi'r uchelgais o wneud y Cynulliad yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru.

[7] Gwir gynnydd mewn pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn

[8] *Cyfanswm y pensiwn cronedig ar oedran pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar 31 Mawrth 2016*

[9] *Cafodd y ffactorau actiwaraidd a ddefnyddir i gyfrifo'r CETV eu newid yn ystod 2015-16. Defnyddiwyd y ffactorau newydd i gyfrifo'r CETV ar 31 Mawrth 2016 a'r CETV ar 31 Mawrth 2015; er cysondeb, mae'r CETV ar 31 Mawrth 2015 felly'n wahanol i'r ffigur cyfatebol yn adroddiad y llynedd, a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r ffactorau blaenorol.*

## Y Cynghorwyr Annibynnol ac Aelodau Annibynnol y Pwyllgorau

Mae'r Comisiwn wedi penodi cynghorwyr i herio Comisiwn y Cynulliad mewn ffordd annibynnol ac adeiladol. Maent yn gwneud hyn drwy fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Taliadau, ynghyd â chyfarfodydd perthnasol y Comisiwn, a thrwy roi mewnbwn ar feysydd eraill o waith y Comisiwn. Ceir pedwar cynghorydd annibynnol ac un aelod pwyllgor annibynnol. Mae'r cynghorwyr yn cael tâl amhensiynadwy o £5,000 y flwyddyn. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cael £7,000 y flwyddyn, ac mae Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau yn cael £6,250 y flwyddyn.

**Y Cynghorwyr Annibynnol**

- **Mair Barnes** (Tachwedd 2007 - Tachwedd 2016)
- **Eric Gregory** (Tachwedd 2012 – Hydref 2018) Bu Eric Gregory yn bresennol ym mhob un o bum cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ac yn bresennol hefyd yn unig gyfarfod y Pwyllgor Taliadau
- **Helena Feltham** (Tachwedd 2012 – Hydref 2018) Bu Helena Feltham yn bresennol yn unig gyfarfod y Pwyllgor Taliadau
- **Keith Baldwin** (Tachwedd 2012 – Hydref 2018) Bu Keith Baldwin yn bresennol mewn pedwar o'r pum cyfarfod a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ac yn bresennol hefyd yn unig gyfarfod y Pwyllgor Taliadau

  Nid yw'r cynghorwyr annibynnol yn mynychu holl gyfarfodydd y Comisiwn. Maent yn mynychu'r cyfarfodydd sy'n cyfateb i'w cyfrifoldebau unigol hwy.

### Aelod Pwyllgor

- **Hugh Widdis** (Tachwedd 2013 – Hydref 2016) Bu Hugh Widdis yn bresennol ym mhob un o bum cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

## Pwyllgor Taliadau

Mae gan y Comisiwn Bwyllgor Taliadau sy'n cynnwys o leiaf dri aelod sy'n annibynnol ar Gomisiwn y Cynulliad a'i staff, ac nid oes ganddynt fuddiannau personol neu fusnes sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Pwyllgor. Rhaid i un neu ddau ohonynt fod yn aelodau o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor Taliadau yn sicrhau bod y Comisiwn yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cywirdeb ac atebolrwydd yn y modd y defnyddir arian cyhoeddus ac, yn benodol, yn ei bolisïau a'i systemau arfarnu a thalu.

Aelodau'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 oedd:

- **Helena Feltham,** Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau (o fis Ebrill 2014) a Chynghorwr Annibynnol
- **Keith Baldwin,** Cynghorydd Annibynnol
- **Eric Gregory,** Cynghorydd Annibynnol

Cyfarfu'r Pwyllgor unwaith yn ystod y flwyddyn, ar 20 Ebrill 2015.

## Staff uwch y Comisiwn

Penodir staff y Comisiwn, yn unol ag amodau a thelerau a bennir gan y Comisiwn, yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r egwyddorion hyn yn cyd-fynd â threfniadau'r gwasanaeth sifil. Nid yw'r staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Gellir gweld staff uwch y Comisiwn yn y tabl isod. Cytunwyd ar y swyddi cyfarwyddwyr hyn yn unol ag Offeryn Dirprwyo'r Comisiwn. Mae'r Cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti sylweddol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau.

Mae'r uwch-reolwyr y mae'r adroddiad hwn yn berthnasol iddynt yn cael eu penodi am gyfnod penagored. Os terfynir eu cyflogaeth yn gynnar am unrhyw reswm ac eithrio camymddygiad neu ymddiswyddiad, bydd yr unigolyn yn cael iawndal, fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

| Enw | Title |
|---|---|
| **Claire Clancy** | **Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**<br>*Bu Claire Clancy yn bresennol ym mhob un o'r 5 cyfarfod a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, pob un o'r 10 cyfarfod a gynhaliwyd gan y Comisiwn, ac unig gyfarfod y Pwyllgor Taliadau.* |
| **Adrian Crompton** | **Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad** |
| **Dave Tosh** | **Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>*Bu Dave Tosh yn bresennol ym mhob un o'r 5 cyfarfod a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.* |
| **Elisabeth Jones** | **Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol** |
| **Craig Stephenson** | **Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn** |
| **Nicola Callow** | **Y Cyfarwyddwr Cyllid**<br>*Bu Nicola Callow yn bresennol ym mhob un o'r 5 cyfarfod a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.* |

Heblaw Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, nid yw'r cyfarwyddwyr yn mynd i bob un o gyfarfodydd y Comisiwn a'i bwyllgorau. Mae'r cyfarwyddwyr yn mynychu'r cyfarfodydd perthnasol sy'n cyfateb i'w cyfrifoldebau unigol hwy. Oni nodir yn wahanol, mae'r Cyfarwyddwyr yn cael eu penodi am gyfnodau penagored.

## Cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol mewn ffigurau sengl

| Enw | Cyflog (£'000) | | Budd-daliadau pensiwn (i'r £1,000 agosaf)[10] | | Cyfanswm (£'000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015-16 | 2014-15 | 2015-16 | 2014-15 | 2015-16 | 2014-15 |
| Claire Clancy | 145-150 | 145-150 | 59 | 37 | 205-210 | 180-185 |
| Adrian Crompton | 120-125 | 120-125 | 56 | 35 | 175-180 | 155-160 |
| Dave Tosh [11] | 105-110 | 105-110 | 149 | 104 | 150-155 | 205-210 |
| Elisabeth Jones | 95-100 | 95-100 | 36 | 34 | 130-135 | 125-130 |
| Steven O'Donoghue | - | 5-10 | - | 16 | - | 20-25 |
| Craig Stephenson [12] | 80-85 | 70-75 | 61 | 85 | 145-150 | 155-160 |
| Nicola Callow | 65-70 | 60-65 | 43 | 43 | 110-115 | 100-105 |

Mae cyflog yn cynnwys cyflog gros, goramser, a lwfansau recriwtio a chadw.

Gadawodd Steven O'Donoghue ar 25 Ebrill 2014

Cafodd Nicola Callow ei phenodi o 26 Ebrill 2014, a chafodd Craig Stephenson ei benodi o 6 Mai 2014.

Nid yw Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad na'r Cyfarwyddwyr yn cael taliadau bonws na buddion mewn nwyddau.

Gadawodd Nicola Callow Gomisiwn y Cynulliad ar 21 Ebrill 2016 o dan delerau y cytunwyd arnynt, ac mae'r gost o £70,000 wedi'i hadlewyrchu yng nghyfrifon 2015-16 ac wedi'i thalu yn 2016-17.

Roedd y tabl hwn yn destun archwilio.

---

[10] Mae gwerth y budd-daliadau pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y gwir gynnydd mewn pensiwn wedi'i luosi â 20) plws (y gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r gwir gynnydd yn cynnwys unrhyw gynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.
[11] Mae budd-daliadau pensiwn 2014-15 wedi'u hailddatgan oherwydd eu bod yn seiliedig yn flaenorol ar enillion a oedd yn cynnwys lwfans wedi'i ddyblygu.
[12] Mae gwerth budd-daliadau pensiwn a chyfanswm y ffigur sengl o ran cydnabyddiaeth ar gyfer 2014-15 wedi'u hailddatgan o ganlyniad i ddyfarniad cyflog ôl-weithredol.

## Cyflogau staff y Comisiwn

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos y berthynas rhwng y pwynt canol ym mand cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr a oedd ar y cyflog uchaf yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 a chydnabyddiaeth ariannol canolrifol staff y Comisiwn. Mae cyflogau yn cyfeirio at gydnabyddiaeth ariannol flynyddol yr holl staff, a hynny'n gyfwerth ag amser llawn (gan gynnwys staff asiantaethau a staff dros dro), ar 31 Mawrth 2016. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol na Blwydd-daliad y Cyflogwr.  Nid oedd unrhyw fuddion mewn nwyddau na bonysau a oedd yn gysylltiedig â pherfformiad yn daladwy yn 2015-16 nac yn 2014-15.

| | 2015-16<br>Cyflog<br>£ | 2014-15<br>Cyflog<br>£ |
|---|---|---|
| Band cyflog y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf | 145,000-150,000 | 145,000-150,000 |
| Cyfanswm y Gydnabyddiaeth Ariannol Ganolrifol | 31,031 | 29,475 |
| Cymhareb | 4.75 | 5.0 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwilio.

Band cyflog y cyfarwyddwr a oedd ar y cyflog uchaf yng Nghomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 31 Mawrth 2016 oedd £145,000 i £150,000 (£145,000-£150,000 yn 2014-15). Roedd hyn yn 4.75 gwaith (5.0 yn 2014-15) yn fwy na chydnabyddiaeth ariannol ganolrifol y gweithlu, a oedd yn £31,031 (£29,475 yn 2014-15).

Yn 2015-16, ac yn 2014-15, nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth ariannol yn fwy na chyflog y cyfarwyddwr a oedd ar y cyflog uchaf. Roedd y gydnabyddiaeth ariannol yn amrywio o £17,000, lefel a oedd yn sicrhau bod gweithwyr yn cael Cyflog Byw, i £150,000 (£15,000 i £150,000 yn 2014-15).

Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod.

## Pensiynau

### Uwch-reolwyr – Budd-daliadau Pensiwn

| Enw a theitl | Gwir gynnydd mewn pensiwn [13] | Cyfanswm y pensiwn cronedig [14] | CETV ar 31 Mawrth 2016[15] | CETV ar 31 Mawrth 20163 | Gwir gynnydd mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| ***Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad*** | | | | | |
| **Claire Clancy** | 2.5-5 a chyfandaliad o 7.5-10 | 70-75 a chyfandaliad o 210-215 | 1,564 | 1,403 | 57 |
| ***Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad*** | | | | | |
| **Adrian Crompton** | 2.5-5 a chyfandaliad o 0-2.5 | 40-45 a chyfandaliad o 115-120 | 751 | 657 | 29 |
| ***Cyfarwyddwr Adnoddau*** | | | | | |
| **Dave Tosh** | 2.5-5.0 | 30-35 | 441 | 376 | 24 |
| ***Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol*** | | | | | |
| **Elisabeth Jones** | 2.5-5.0 | 30-35 | 624 | 538 | 32 |
| ***Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn*** | | | | | |
| **Craig Stephenson** | 2.5-5 a chyfandaliad o 7.5-10 | 35-40 a chyfandaliad o 105-110 | 690 | 587 | 50 |
| ***Y Cyfarwyddwr Cyllid*** | | | | | |
| **Nicola Callow** | 0-2.5 a chyfandaliad o 0-2.5 | 15-20 a chyfandaliad o 40-45 | 260 | 213 | 24 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwilio

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir budd-daliadau pensiwn i staff y Cynulliad drwy drefniadau cynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ar 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil, sef Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill, neu'r cynllun alpha. O dan y cynllun hwnnw, darparerir budd-daliadau ar sail enillion gyrfa cyfartalog, ac mae'r oed pensiwn arferol yn cyd-fynd ag oed pensiwn yr aelod o dan system bensiwn y wladwriaeth (neu 65 oed, os yw'n uwch). Mae pob gwas sifil a gafodd ei benodi ers y dyddiad hwnnw, yn ogystal â'r rhan fwyaf o weithwyr a oedd eisoes yn rhan o'r Gwasanaeth Sifil, bellach wedi ymuno â'r cynllun alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran. Mae tair ohonynt yn darparu budd-daliadau ar sail cyflog terfynol yr aelod (classic, premium neu classic plus), a hynny'n

[13] Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn
[14] Cyfanswm y pensiwn cronedig ar 60 oed a'r cyfandaliad cysylltiedig ar 31 Mawrth 2016
[15] Cafodd y ffactorau a ddefnyddir i gyfrifo'r CETV eu hadolygu gan actiwari'r cynllun yn ystod 2015. Felly, mae'r tablau o ffactorau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r CETV yn 2015 yn wahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r CETV yn 2016.

gysylltiedig ag oed pensiwn arferol o 60. Mae'r adran arall yn darparu budd-daliadau ar sail gyrfa gyfan yr aelod (nuvos), a hynny'n gysylltiedig ag oed pensiwn arferol o 65.

Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu, a chaiff costau’r budd-daliadau eu talu o swm o arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Bydd pensiynau sy’n daladwy o dan y cynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn cynyddu’n flynyddol yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Mae aelodau o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 wedi parhau i fod yn aelodau o'r PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i'r cynllun alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Bydd budd-daliadau PCSPS pob aelod sy'n newid i'r cynllun alpha yn cael eu 'bancio'. O ran y rhai a gronnodd fudd-daliadau gynt fel aelodau o un o adrannau'r PCSPS a oedd yn darparu budd-daliadau ar sail cyflog terfynol, bydd y budd-daliadau hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael y cynllun alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn rhan o PCSPS neu'r cynllun alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan swyddog fudd-daliadau PCSPS a budd-daliadau alpha, y ffigur a ddangosir yw gwerth cyfunol eu budd-daliadau yn y ddau gynllun.)

Gall yr aelodau sy’n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai’r trefniant budd-daliadau diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid ‘prynu arian’ gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â'u cyflog. Maent yn amrywio, a hynny rhwng 3 y cant ac 8.05 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau o'r cynllun classic (ac aelodau o'r cynllun alpha a oedd yn aelodau o'r cynllun classic yn union cyn ymuno â'r cynllun alpha), a rhwng 4.6 y cant ac 8.05 y cant ar gyfer aelodau o'r cynllun premium, y cynllun classic plus , a'r cynllun nuvos, a phob aelod arall o'r cynllun alpha. Mae budd-daliadau yn y cynllun classic yn crynhoi ar gyfradd o 1/80 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal â hyn, telir cyfandaliad sy’n gyfwerth â’r tair blynedd cyntaf o bensiwn pan fydd rhywun yn ymddeol. Mae budd-daliadau yn y cynllun premium yn crynhoi ar gyfradd o 1/60 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, ni thelir cyfandaliad yn awtomatig. Yn wahanol i'r cynllun classic, ni thelir cyfandaliad yn awtomatig. Yn ei hanfod, cyfuniad yw'r cynllun classic plus gyda’r budd-daliadau sy’n gysylltiedig â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo’n fras fel y gwneir yn y cynllun classic a'r budd-daliadau am wasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel y gwneir yn y cynllun premium. Yng nghynllun nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei gyflog pensiynadwy yn ystod y cyfnod y bu’n aelod o’r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), telir 2.3 y cant o gyflog pensiynadwy aelod yn ystod blwyddyn y cynllun i’w gyfrif pensiwn a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Mae budd-daliadau'r cynllun alpha yn cael eu cronni mewn ffordd debyg i'r cynllun nuvos, heblaw'r ffaith mai'r gyfradd gronni yw 2.32 y cant. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a nodir yn *Neddf Cyllid 2004*.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw’r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae’r cyflogwr wedi talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 3 y cant a 12.5 y cant hyd at 30 Medi 2015, a chyfraniad o rhwng 8 y cant a 14.75 y cant ers 1 Hydref 2015 (yn dibynnu ar oedran yr aelod), i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes yn rhaid i’r cyflogai gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3 y cant o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwr hefyd wedi cyfrannu 0.8 y cant ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015, a 0.5 y cant o'r cyflog pensiynadwy ers 1 Hydref 2015, i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y bydd hawl gan yr aelod i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu os yw'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn aelodau'r cynlluniau classic, premium a classic plus yw 60, a 65 yw'r oedran ar gyfer aelodau'r cynllun nuvos. O ran aelodau'r cynllun alpha, eu hoedran pensiwn yw naill ai 65 neu eu hoedran pensiwn o dan gynllun pensiwn y wladwriaeth – pa un bynnag sy'n uwch. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir ar gyfer staff uwch yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn rhan o PCSPS neu'r cynllun alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan swyddog fudd-daliadau PCSPS a budd-daliadau alpha, y ffigur a ddangosir yw gwerth cyfunol eu budd-daliadau yn y ddau gynllun. Dylid nodi, fodd bynnag, y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy ar oedrannau gwahanol.)

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan a ganlyn: **www.civilservicepensionscheme.org.uk**

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Y CETV yw gwerth cyfalafol y budd-daliadau a gronnwyd gan aelod o'r cynllun pensiwn ar adeg benodol, yn ôl asesiad yr actwari. Y budd-daliadau a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae'r CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu budd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r budd-daliadau a gronnwyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r budd-daliadau a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond y gwasanaeth mewn swydd uwch sy'n destun datgelu.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd-daliadau pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod oherwydd iddynt brynu budd-daliadau pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Cyfrifir y CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid yw'n rhoi ystyriaeth i unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn budd-daliadau o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir budd-daliadau pensiwn.

## Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y Comisiwn. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae'r modd yr ymdrinnir â rhwymedigaethau pensiwn a manylion y cynlluniau pensiwn perthnasol wedi'u nodi yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu yn y cyfrifon hyn.

## Cynllun Ymadael Gwirfoddol

Gellir gweld manylion y rhwymedigaethau sy'n codi o ganlyniad i'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn Nodyn 2D.

## Nifer y staff

### Nifer y staff fesul categori

Caiff yr holl uwch-reolwyr a'r holl staff eu cyflogi gan y Comisiwn. Nifer cyfartalog y bobl cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch-reolwyr) oedd:

| | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---|---|
| Staff a gyflogwyd | 402.27 | 383.17 |
| Staff ar secondiad | 4.00 | 3.5 |
| Staff dros dro/achlysurol | 22.05 | 21.48 |
| Cyfanswm | 428.32 | 408.15 |

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiwn oedd:

| | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2015 |
|---|---|---|
| Staff a gyflogwyd | 413.29 | 391.24 |
| Staff ar secondiad | 2.00 | 6.0 |
| Asiantaeth | 18.98 | 25.12 |
| Cyfanswm | 434.27 | 422.36 |

### Cyfansoddiad y staff yn ôl rhyw a band

| | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2015 |
|---|---|---|
| **Menywod** | | |
| Cyfarwyddwyr | 3 | 3 |
| Staff | 231 | 233 |
| Cyfanswm | 234 | 236 |
| **Dynion** | | |
| Cyfarwyddwyr | 3 | 3 |
| Staff | 213 | 207 |
| Cyfanswm | 216 | 210 |

**Yn y tablau uchod, caiff y staff a gyflogir eu cofnodi fel niferoedd cyfwerth ag amser llawn. Fodd bynnag, defnyddir yr union niferoedd ar gyfer y dadansoddiad yn ôl rhyw.*

*Ni chynhwysir y cynghorwyr annibynnol yn y ffigurau cyfwerth ag amser llawn uchod.*

## Teithio a chynhaliaeth

Gellir gweld yr hawliadau a wnaed gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, ac ar eu rhan, am dreuliau teithio a chynhaliaeth a threuliau busnes eraill yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn Nodyn 15 ar dudalen 138.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Gellir dod o hyd i wybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth yn yr adran **Defnyddio adnoddau yn ddoeth** yn Ein perfformiad: dadansoddiad.

## Iechyd, diogelwch a llesiant

Gellir dod o hyd i wybodaeth am iechyd, diogelwch a llesiant yn yr adran **Defnyddio adnoddau yn ddoeth** yn **Ein perfformiad: dadansoddiad**.

**Claire Clancy**

Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dyddiad: 11 Gorffenaf 2016




**10 mlynedd o'r Senedd: 2006-2016**
Sioe Cyw S4C yn perfformio ar gyfer teuluoedd yn y Senedd.



**10 mlynedd o'r Senedd: 2006-2016**
Ivan Harbour yn annerch cynrychiolwyr o Gymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru yn y Pierhead mewn digwyddiad i ddathlu 10 mlynedd ers agor y Senedd.

# Ein hatebolrwydd: atebolrwydd ac archwilio

# Datganiad cyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a nodiadau ategol

## a) Crynodeb o alldro 2015–16

| | | Y gyllideb | | | Alldro | | | 2015-16 £'000 | Alldro 2014-15 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | Gwariant | Incwm | Cyfanswm | Gwariant | Incwm | Cyfanswm | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant / (gorwariant) | |
| Adnoddau i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | SOS 01 | 36,900 | (300) | 36,600 | 37,472 | (190) | 37,282 | (682) | 37,211 |
| Adnoddau mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau | SOS 01 | 14,500 | | 14,500 | 13,453 | | 13,453 | 1,047 | 13,325 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | SOS 01 | 1,200 | | 1,200 | 1,495 | | 1,495 | (295) | 932 |
| | | 52,600 | (300) | 52,300 | 52,420 | (190) | 52,230 | 70 | 51,468 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwilio

## b) Gofyniad arian parod net 2015-16

| | Nodyn | Y gyllideb | Alldro | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant / (gorwariant) | Alldro |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 2015–16 | 2014–15 |
| | | | | £'000 | £'000 |
| Gofyniad arian parod net | SOS 03 | 46,500 | 46,255 | 245 | 45,804 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwilio

Ceir eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb a gymeradwywyd a'r alldro yn SOS 01 ac yn yr Adroddiad o Berfformiad.

## c) Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

Mae'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru yn cynnwys llog banc sy'n dderbyniadwy ac incwm dros ben y swm a awdurdodwyd.

Yn 2015-16 nid oedd unrhyw incwm dros ben na llog banc yn dderbyniadwy. (£0 2014-15).

# Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau (Datganiad Cyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru)

## SOS 01.Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net 2015-16

| | Alldro £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb £'000 | Alldro 2014–15 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| *Gwariant refeniw* | | | | |
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 18,653 | 18,550 | (103) | 17,664 |
| Costau adeiladau a chyfleusterau | 8,833 | 7,509 | (1,324) | 9,356 |
| Costau TGCh | 2,559 | 2,758 | 199 | 3,343 |
| Costau eraill | 1,652 | 1,198 | (454) | 1,568 |
| Costau hyfforddi a datblygu | 273 | 380 | 107 | 370 |
| Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth | 296 | 368 | 72 | 286 |
| Costau teithio a chynhaliaeth staff | 163 | 134 | (29) | 159 |
| Costau eraill Adnoddau Dynol | 740 | 103 | (637) | 119 |
| Costau etholiad | 427 | 500 | 73 | 0 |
| Taliadau dibrisiant ac amorteiddiad | 3,340 | 4,700 | 1,360 | 4,009 |
| Addasiad* | **0** | (300) | (300) | 0 |
| **Gwariant refeniw gros** | **36,936** | **35,900** | **(1,036)** | **36,874** |
| *Incwm refeniw* | | | | |
| Gwerthiant – Siop y Cynulliad | (15) | 0 | 15 | (13) |
| Incwm rhentu adeiladau | (79) | 0 | 79 | (80) |
| Incwm amrywiol | (96) | (300) | (204) | (130) |
| **Incwm refeniw gros wedi'i gymhwyso** | (190) | (300) | (110) | (223) |
| **Gwariant refeniw** | **36,746** | **35,600** | **(1,146)** | **36,651** |
| **GWARIANT CYFALAF (Creu asedau sefydlog)** | 536 | 1,000 | 464 | 560 |
| **ALLDRO ADNODDAU NET (gwariant y Comisiwn)** | **37,282** | **36,600** | **(682)** | **37,211** |
| Cyflogau a lwfansau Aelodau a chostau cysylltiedig | 13,453 | 14,500 | 1,047 | 13,325 |
| Costau Cyllid Pensiwn yr Aelodau | 1,495 | 1,200 | (295) | 932 |
| **CYFANSWM ALLDRO ADNODDAU NET** | **52,230** | **52,300** | **70** | **51,468** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwilio

*Mae esboniad o'r addasiad hwn i'w weld ar y dudalen ganlynol.

## Dadansoddiad o alldro adnoddau net – nodiadau

Yr alldro adnoddau net ar gyfer 2015-16 oedd £52.23 miliwn o'i gymharu â chyllideb o £52.30 miliwn, gan arwain at danwariant o £0.07 miliwn (0.1 y cant).

Ein nod oedd darparu'r tanwariant alldro diwedd blwyddyn o fewn 1.0 y cant o gyfanswm y gyllideb a darparu arbedion gwerth am arian o £500,000 fel rhan o ddull rhagweithiol ac effeithiol o reoli'r gyllideb.

Un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at reolaeth agos o'r fath ar y cyllid yw'r defnydd o flaengynlluniau gwaith ar gyfer gwasanaethau sydd â dyraniadau mawr o'r gyllideb – yn bennaf Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau, a TGCh. Mae gan y ddau wasanaeth gylch gwaith mawr ac ymrwymiadau cyllidebol parhaus a helaeth. Trwy weithio gyda'r gwasanaethau hyn i flaenoriaethu eu cynlluniau, llwyddwyd i reoli gwariant yn hyblyg fel y gellid defnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf priodol.

Yn sgil yr ymarfer cynllunio capasiti, a gynhaliwyd i asesu'r adnoddau staff presennol o'i gymharu â'r pwysau gwaith presennol ac yn y dyfodol, canfuwyd bod angen buddsoddi ymhellach yng ngweithlu'r Comisiwn. Cymeradwywyd amryw o swyddi newydd parhaol a dros dro yn ystod y flwyddyn i gefnogi gwaith y Comisiwn. Bydd effaith ariannol y rhain i'w theimlo fwy yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf yn sgil y cynnydd yn rolau a chyfrifoldebau'r Comisiwn yn y Pumed Cynulliad.

Y tanwariant ar gyllideb cyflogau a lwfansau'r Aelodau yw £1.047 miliwn (7.2 y cant). Defnyddiwyd y tanwariant hwn i hybu gwariant, yn enwedig o ran cynnal a chadw'r ystâd, lle mae rhaglen dreigl gynhwysfawr ac eang o waith.

Trwy newid o ddarparwr TGCh allanol i dîm mewnol, llwyddwyd i ostwng costau gweithredol sylfaenol y gwasanaethau TGCh yn ystod 2015-16. Drwy'r gostyngiad hwn llwyddwyd i ailfuddsoddi £840,000 yn y gwasanaeth i wella'r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae gan y Comisiwn wasanaeth TGCh mewnol sy'n gadarn, yn addas i'r diben ac yn gallu ymateb i newidiadau yn anghenion y Comisiwn mewn modd amserol ac effeithlon gan sicrhau gwerth am arian gwirioneddol ar gyfer y sefydliad.

Roedd y dibrisiant ar gyfer y flwyddyn yn is na'r disgwyl, yn bennaf oherwydd bod y gwariant ar TGCh wedi'i ailddosbarthu o gyfalaf i refeniw. Roedd hyn yn deillio o'r newid busnes sylweddol yn y gwasanaeth TGCh gyda'r symud llwyddiannus i wasanaeth a ddarperir yn fewnol.

## Addasu'r Gyllideb

Roedd dogfen cyllideb Comisiwn y Cynulliad 2015-16 yn cynnwys gwall trosi. Roedd cyfanswm y ffigur alldro net yn y ddogfen honno £300,000 yn uwch na'r ffigur yng nghynnig ffurfiol y gyllideb ar gyfer 2015-16. Mae'r gwahaniaeth o £300,000 wedi cael ei gynnwys fel addasiad uchod i sicrhau bod y cyfanswm yng ngholofn y gyllideb yn cyfateb â'r adnoddau yr awdurdododd y Cynulliad yn ffurfiol. Nid yw hyn yn effeithio ar y gofyniad arian parod net.

## SOS 02.Cysoni'r alldro â'r gwariant gweithredu net

| | Nodyn | 2015-16<br>£000 | 2014-15<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Alldro adnoddau net | SOS 01 | 52,230 | 51,468 |
| GWARIANT CYFALAF | (4,700) | (536) | (560) |
| Taliadau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru | | 682 | 645 |
| c) Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | SOS 05 | - | - |
| **Gwariant gweithrediadau net** | | **52,376** | **51,553** |

Roedd y tabl hwn yn destun archwilio

Mae'r taliadau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, sef **£682,045** (£645,340 yn 2014-15) yn deillio o gostau cyflogau'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiynydd Safonau, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r cyflogau hyn yn cael eu talu gan y Comisiwn ond, gan eu bod yn daliadau uniongyrchol o'r Gronfa, nid ydynt yn cael eu cynnwys yn yr alldro adnoddau net.



**10 mlynedd o'r Senedd: 2006-2016**
David Melding AC yn clywed neges flynyddol Dydd Gŵyl Dewi gan ddisgyblion o Ysgol Dewi Sant, Tŷ Ddewi.

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Cynulliad

Rwy’n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Mae’r rhain yn cynnwys Datganiad Cyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian, y Datganiad o’r Newidiadau yn Ecwiti’r Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio’r wybodaeth yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol y nodir yn yr adroddiad hwnnw iddi gael ei harchwilio.

## Cyfrifoldebau perthnasol y Prif Swyddog Cyfrifyddu ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau’r Prif Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy’n gyfrifol am baratoi’r Adroddiad Blynyddol, sy’n cynnwys yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a’r datganiadau ariannol yn unol â *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* a chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi a wnaed o dan y ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra’r trafodion ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, arsdytio ac adrodd ar y datganiadau ariannol a’r rhan honno o’r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol sydd i'w harchwilio’n unol â’r gyfraith berthnasol a’r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae’r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol fy mod yn cydymffurfio â’r Safonau Moesegol i Archwilwyr a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd ar Faterion Ariannol.

## Cwmpas archwilio’r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu casglu tystiolaeth am y symiau a’r hyn a ddatgelir yn y datganiadau ariannol sy’n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, pa un a achosir hynny gan dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw’r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Comisiwn ac wedi cael eu cymhwyso’n gyson a’u datgelu’n ddigonol; pa mor resymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Comisiwn; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Yn ogystal, rhaid imi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a’r incwm wedi’u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â’r awdurdodau sy’n eu rheoli.

Yn ogystal, rwyf wedi darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol rhag ofn bod anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd, ac i nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a gefais wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n anghyson â hi. Os byddaf yn dod ar draws unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol tebygol, byddaf yn ystyried goblygiadau hyn ar gyfer fy adroddiad.

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiwn ar 31 Mawrth 2016, a'r gofyniad arian parod net, yr alldro adnoddau net, a'r costau gweithredu net, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Mawrhydi a gyhoeddwyd o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol sydd i gael ei harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Mawrhydi a wnaed o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*; ac
- mae'r wybodaeth a gaiff ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt fel eithriad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau ar y materion a ganlyn, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i:

- nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi;
- nad yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn gytûn â'r cofnodion a'r adroddiadau cyfrifyddu;
- nad yw gwybodaeth a nodir yn benodol gan Drysorlys Ei Mawrhydi am gydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Huw Vaughan Thomas**

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Dyddiad: 12 Gorffenaf 2016




**10 mlynedd o'r Senedd: 2006-2016**
Teuluoedd yn mwynhau digwyddiad i ddathlu 10 mlynedd ers agor y Senedd.

# Ein Datganiadau Ariannol

# Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016

| | Nodyn | 2015–16<br>£'000 | 2014–15<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm gweithrediadau** | | | |
| Incwm gwerthu nwyddau a gwasanaethau | SOS 05 | 190 | 223 |
| **Cyfanswm incwm gweithrediadau** | | **190** | **223** |
| Costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | 2a. | 24,716 | 23,604 |
| Costau eraill yr Aelodau | 2b | 8,149 | 8,030 |
| Costau Cyllid Pensiwn yr Aelodau | 2a a 9 | 1,495 | 932 |
| Dibrisiant, a thaliadau lleihad yn y gwerth | 3 | 3,340 | 3,974 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | 14,866 | 15,236 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithrediadau** | | 52,566 | 51,776 |
| **Gwariant gweithrediadau net** | | **52,376** | **51,553** |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth** | | **52,376** | **51,553** |

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Nid oes unrhyw enillion na cholledion sylweddol ac eithrio'r rhai a gynhwysir o fewn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

## Ar 31 Mawrth 2016

| | Nodyn | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | |
| 01.2 Eiddo, Offer a Chyfarpar | 4 | 63,210 | 65,646 |
| Asedau anniriaethol | 5 | 263 | 631 |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | 63,473 | 66,277 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Stoc | | 27 | 23 |
| Symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn | 6 | 1,590 | 1,608 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | 7 | 236 | 119 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | 1,853 | 1,750 |
| **Cyfanswm yr asedau** | | 65,326 | 68,027 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 8 | (5,338) | (4,012) |
| Darpariaethau | 9 | (23) | (37) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | (5,361) | (4,049) |
| **Asedau anghyfredol ynghyd â rhwymedigaethau cyfredol net** | | 59,965 | 63,978 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau | 9 | (8,683) | (9,216) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | (8,683) | (9,216) |
| **Asedau heb gynnwys rhwymedigaethau** | | **51,282** | **54,762** |
| **Ecwiti Trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill** | | | |
| Y gronfa gyffredinol | | 47,490 | 51,434 |
| Y gronfa bensiwn wrth gefn | | (8,683) | (9,147) |
| Y gronfa ailbrisio wrth gefn | | 12,475 | 12,475 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **51,282** | **54,762** |

**Claire Clancy**

Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad

Dyddiad: 11 Gorffennaf 2016

Mae'r nodiadau ar dudalennau 106 i 131 yn rhan o'r cyfrifon hyn 

# Datganiad Llif Arian

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016

| | Nodyn | 2015-16<br>£'000 | 2014-15<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithrediadau** | | | |
| Costau gweithrediadau net | SOS 02 | (52,376) | (51,553) |
| **Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod:** | | | |
| Dibrisiad, amorteiddiad a lleihad yn y gwerth | (4,700) | 3,340 | 4,009 |
| Gwaredwyd | 4 | 0 | 316 |
| (Cynnydd) mewn stoc | | (4) | (4) |
| Gostyngiad mewn symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn | 6 | 18 | 818 |
| *(Gostyngiad) / cynnydd mewn darpariaeth* | *9* | (39) | 3 |
| (Gostyngiad) / cynnydd mewn symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 8 | 1,326 | (194) |
| *(Gostyngiad)/Cynnydd mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr* | | (117) | 135 |
| Defnyddio darpariaeth | 9 | (44) | (37) |
| Costau cyllid pensiynau | 9 | 1,495 | 932 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithrediadau** | | **(46,401)** | **(45,575)** |
| | | | |
| **Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 4 | (536) | (874) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(536)** | **(874)** |
| | | | |
| **Llif arian parod o weithgareddau cyllido** | | | |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (cyflenwad) | | 46,491 | 45,923 |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (taliadau uniongyrchol) | | 682 | 645 |
| Taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | | (119) | (223) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau cyllido** | | **47,054** | **46,345** |
| | | | |
| Cynnydd/gostyngiad net mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | SOS 03 | 117 | (104) |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | 7 | 119 | 223 |
| **Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | 7 | **236** | **119** |

 Mae'r nodiadau ar dudalennau 106 i 131 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016

| | Nodyn | Y gronfa gyffredinol | Y gronfa ailbrisio wrth gefn | Cronfa bensiwn wrth gefn | Ecwiti'r trethdalwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | | 55,575 | 12,475 | (4,772) | 63,278 |
| Addasiad ar gyfer blwyddyn flaenorol cyflenwad Cronfa Gyfunol Cymru | | 31 | - | - | 31 |
| **Cost y Gronfa Bensiwn** | 9 | - | - | (3,443) | (3,443) |
| **Cyfanswm incwm a gwariant cydnabyddedig ar gyfer 2014-15** | | (51,553) | - | - | (51,553) |
| **Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn** | 9 | 932 | - | (932) | - |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | | | | | |
| – Cyflenwad | SOS 03 | 46,448 | - | - | 46,448 |
| - Taliadau uniongyrchol | | 645 | - | - | 645 |
| **Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru** | | | | | |
| – Cyflenwad | | (644) | - | - | (644) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | | 51,434 | 12,475 | (9,147) | 54,762 |
| | | | | | |
| **Cost y Gronfa Bensiwn** | 9 | - | - | 1,959 | 1,959 |
| **Cyfanswm incwm a gwariant cydnabyddedig ar gyfer 2015-16** | | (52,376) | - | - | (52,376) |
| **Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn** | 9 | 1,495 | - | (1,495) | - |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | | | | | |
| – Cyflenwad (wedi'i awdurdodi) | SOS 3 | 46,500 | - | - | 46,500 |
| – Cyflenwad (heb ei ddefnyddio) | SOS 3 | (9) | - | - | (9) |
| - Taliadau uniongyrchol | | 682 | - | - | 682 |
| **Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru** | | | | | |
| – Cyflenwad | | (236) | - | - | (236) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | | 47,490 | 12,475 | (8,683) | 51,282 |



**10 mlynedd o'r Senedd: 2006-2016**
Sali Mali yn difyrru plant yn y Senedd.

# Nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon

# 01. Datganiad ar y polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn ar sail croniadau yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2015–16 *(*FReM*)* a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae'r polisïau cyfrifyddu a geir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) i'r graddau eu bod yn ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus.

Pan fo'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiwn er mwyn cyflwyno darlun cywir a theg. Cafodd polisïau cyfrifyddu'r Comisiwn eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon. Yn ogystal â'r datganiadau a baratowyd o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cynulliad Cenedlaethol yn paratoi dau ddatganiad cyflenwad ychwanegol.

Cwblhawyd adolygiad o bob safon a dehongliad newydd a gyhoeddwyd ac a ddaeth i rym yn 2015-16 gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) a'r Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) yn ystod y flwyddyn, a chanfuwyd nad effeithir ar Ddatganiadau Ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i ystyried asedau sefydlog a ailbrisiwyd yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

## Eiddo, offer a chyfarpar

Y lefel sylfaenol ar gyfer cyfalafu ased diriaethol yw £5,000 gan gynnwys TAW na ellir ei adennill.

Mae'r trothwy TG (a oedd gynt yn £5,000 ar gyfer gwerth cyfunol yr asedau) bellach yn £5,000 ar gyfer eitem unigol, gan gynnwys TAW na ellir ei adennill.

Mae'r newid polisi, a gyflwynwyd yn 2014–15, o ganlyniad i wasanaethau TGCh yn dod yn fewnol, gan arwain at newid mewn arferion gweithio. Y rheswm am newid y polisi, a gyflwynwyd yn 2014–15, yw bod y gwasanaethau TGCh bellach yn fewnol, gan achosi newid yn yr arferion gwaith. Mae'r gwasanaeth newydd yn gweithredu drwy ddarparu gwelliannau busnes parhaus yn hytrach na'r newidiadau mawr a welwyd yn flaenorol o dan y contract allanol. Cafodd eitemau a brynwyd fesul grŵp mewn blynyddoedd blaenorol eu dibrisio'n llawn yn ystod 2014–15, sef y flwyddyn y daethom allan o'r contract. Cafodd yr eitemau hyn eu dadgydnabod.

Caiff tir ac adeiladau eu prisio gan gwmni proffesiynol bob tair blynedd o leiaf. Ni chaiff asedau diriaethol eraill eu hailbrisio, ond cedwir hwy ar werth teg, gan na fyddai'r symiau dan sylw yn arwyddocaol, ym marn y Comisiwn.

### Dibrisio asedau

Caiff eiddo, offer a chyfarpar eu hadolygu bob blwyddyn i sicrhau na phriodolir gwerth uwch i asedau na'r symiau y gellid eu hadennill. Os yw'r symiau hyn yn llai na gwerth llyfr net yr asedau, fe'i nodir yn golled amhariad yn y Datganiad Gwariant Net.

### Asedau sy'n cael eu hadeiladu

Caiff gwerth asedau sy'n cael eu hadeiladu ei nodi yn seiliedig ar gost hanesyddol gan yr ystyrir bod hyn yn cyfateb mewn modd derbyniol â gwerth teg. Pan ddechreuir defnyddio'r ased, fe'i trosglwyddir i'r categori priodol a chaiff ei chynnwys mewn adolygiadau ailbrisio ac amhariad dilynol.

### Asedau anniriaethol

Caiff trwyddedau meddalwedd eu cyfalafu fel asedau sefydlog anniriaethol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddisgwyliedig yr ased (tair neu bum mlynedd).

### Asedau a geir yn rhodd

Caiff asedau a gafwyd yn rhodd eu cyfalafu ar sail eu gwerth cyfredol pan gânt eu rhoi ac fel arfer cânt eu hailbrisio yn yr un modd ag asedau a brynwyd. Caiff gwerth asedau a gafwyd yn rhodd ei gredydu â gwerth y rhodd wreiddiol a'r ailbrisiadau dilynol.  Caiff gwerth asedau a gafwyd yn rhodd ei gynnwys yn y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol yn unol â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi o dan y Rhaglen Clear Line of Sight.

### Dibrisiant

Nid yw tir rhydd-ddaliadol, asedau sy'n cael eu hadeiladu, dogfennau neu gofnodion hanesyddol na gwaith celf yn cael eu dibrisio.  Cyfrifir dibrisiant ar gyfradd a fydd yn lleihau gwerth adeiladau ac asedau diriaethol eraill drwy randaliadau cyfartal dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Caiff asedau eu dadansoddi yn ôl eu helfennau perthnasol i adlewyrchu eu hoes economaidd amrywiol.  Ni chânt eu dibrisio yn ystod y flwyddyn y cawsant eu caffael.  Isod, rhestrir oes arferol asedau:

| Ased | Oes ased |
|---|---|
| Adeiladau: | 50 mlynedd neu gyfnod arall a bennir gan brisiwr cymwysedig (RICS) |
| Offer sefydlog: | 10 mlynedd, neu gyfnod arall a bennir gan y cyflenwr pan gaiff ei brynu neu ei brisio. |
| Cyfarpar TGCh, clyweledol a darlledu: | pedair - chwe mlynedd |
| Seilwaith TGCh: | 10 mlynedd |
| Asedau anniriaethol (meddalwedd): | tair neu bum mlynedd |
| Cerbydau modur: | pedair blynedd |
| Asedau a gafwyd yn rhodd: | I'w hasesu ar ôl eu cael |

### Yr elfen ddibrisiant a wireddir o'r gronfa ailbrisio wrth gefn

Bydd gwerth asedau ar ôl eu hailbrisio yn destun dibrisiant. Gall elfen o'r dibrisiant ddod i law, felly, oherwydd cynnydd yn y prisiad, a byddai'n fwy na'r dibrisiant a fyddai'n cael ei gyfrifo o ddefnyddio cost hanesyddol yr asedau.  Byddai'r swm dan sylw'n elw a wireddwyd ar y prisiad a chaiff ei drosglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Gronfa Gyffredinol, os yw'n arwyddocaol.

### Cydrannau asedau

Caiff asedau eiddo eu hadolygu drwy'r prisiadau proffesiynol bob tair blynedd i gadarnhau a oes unrhyw ran o'r asedau sydd â bywyd defnyddiol sylweddol wahanol. Lle bo hyn yn wir, bydd yr ased yn cael ei rannu'n gydrannau a bydd y gwahanol rannau yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol briodol.

Caiff asedau a brynwyd yn y cyfnod interim eu hadolygu gan y tîm Cyllid a Rheolwyr Asedau. Caiff asedau TGCh eu "grwpio" i TGCh, cyfarpar clyweledol a darlledu, isadeiledd TGCh ac asedau anniriaethol, a chaiff y gwahanol rannau eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol briodol.

## Datganiad Gwariant Cynhwysfawr

Incwm a chostau gweithredu sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau'r Comisiwn. Mae incwm yn cynnwys costau nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd am gost lawn i gwsmeriaid allanol. Dangosir incwm a chostau heb gynnwys TAW os gellir ei adennill.

Mae'r Comisiwn yn ad-dalu Aelodau mewn perthynas â threuliau neu gostau yr eir iddynt ym mhob blwyddyn ariannol yn unol â'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau, yn amodol ar yr amrywiol derfynau ar dreuliau neu gostau a nodir yn y Penderfyniad.

## Stoc

Nodir y stoc, gan gynnwys nwyddau i'w hailwerthu yn siop y Comisiwn, yn ôl y gost neu'r pris gwerthadwy net, pa un bynnag yw'r isaf.

## Cyfnewid arian tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi i sterling yn ôl y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion dan sylw.  Trosir imprestau arian cyfred tramor i sterling ar sail y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar y pryd.

## Pensiynau

### Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS)

Mae staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Comisiwn a staff sydd ar secondiad gyda'r Comisiwn yn gymwys i fod yn aelodau o'r Cynllun.  Cynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr yw hwn ac felly ni all y Comisiwn nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cwblhawyd y gwaith o brisio'r Cynllun ar ddiwedd mis Mawrth 2012 ar 17 Gorffennaf 2014. Mae symiau sy'n daladwy i'r Cynllun yn cael eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan fyddant yn ddyledus.

Ceir y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet:  Cyfrifon Pensiwn Sifil ( **http://www.civilservice.org.uk/about-us/resource-accounts/**).

### Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad

Sefydlwyd cynllun pensiwn i Aelodau'r Cynulliad yn wreiddiol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac mae'n parhau i fod mewn grym o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.  Cynllun buddion diffiniedig yw, ac mae'n gymwys i gyflogau'r Aelodau a chyflog deiliaid swyddi. Telir cost pensiynau Aelodau'r Cynulliad drwy gyfrwng taliadau a gyfrifir ar sail gronnus, a chaiff y rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol ei rhoi ar gyfrifon y Cynllun. Bydd unrhyw ddyledion yn y gronfa sy'n codi oherwydd diffyg o ran asedau yn cael eu talu drwy gynyddu'r swm y mae'r Comisiwn yn ei dalu.  Wrth gyflwyno adroddiad ar asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun, mae'r Comisiwn wedi cadw at Safon Ryngwladol Cyfrifo 19. Yn unol â Safon 19, mae gofyn i Ymddiriedolwyr y Cynllun gynnal dadansoddiad sensitifrwydd ar gyfer pob rhagdybiaeth actiwaraidd sylweddol ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ddangos sut yr effeithir ar y rhwymedigaeth ddiffiniedig o ran buddiant gan newidiadau yn y rhagdybiaeth actiwaraidd berthnasol ar y dyddiad hwnnw.

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn paratoi ei gyfrifon blynyddol ei hun, sydd ar wahân i Gyfrifon y Comisiwn, ac mae'r rhain i'w gweld ar **wefan y Cynulliad.**

## Cost les weithredol

Caiff rhenti sy'n daladwy o dan les weithredol eu cynnwys yn y datganiad o wariant cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

## Treth ar Werth

Caiff y Comisiwn ei drin fel un o Gyrff y Goron at ddibenion *Deddf Treth ar Werth 1994* a, chan hynny, at ddibenion Adran 41 o'r Ddeddf honno (cymhwyso i'r Goron), caiff ei drin fel un o adrannau'r llywodraeth, a gellid adennill TAW ar nwyddau a gwasanaethau a ddarperir i'r Cynulliad.  Codir TAW ar y Comisiwn yn ôl y gyfradd safonol yng nghyswllt ei weithgareddau masnachol, fel siop y Cynulliad.

## Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a balansau cyfredol yn y banc a Citibank, y gellir eu trosi'n hawdd yn symiau penodol o arian parod ac nid oes risg sylweddol y bydd eu gwerth yn newid.

## Buddion i gyflogeion

Mae cyflogau, taliadau a chost yr holl fuddion sy'n ymwneud â chyflogaeth, gan gynnwys rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â gwyliau blynyddol nad ydynt yn cael eu hawlio, yn cael eu cydnabod yn ystod cyfnod gwasanaeth cyflogeion.

## Cyflwyno adroddiadau

Rydym wedi adolygu ein hadroddiadau rheoli ac rydym yn fodlon nad oes gennym, o dan ofynion IFRS 8, unrhyw ddatgeliadau ychwanegol i'w gwneud.

## Darpariaethau

Er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol mae angen gwneud amrywiaeth o amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y modd y cymhwysir polisïau cyfrifyddu a'r symiau a nodir. Mae'r Comisiwn yn cydnabod darpariaeth yn llawn yn y flwyddyn y bu'r digwyddiad arwyddocaol. Mae pob amcangyfrif a dyfarniad o'r fath yn cael eu hadolygu yn barhaus a chaiff unrhyw ddiwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ynddo ac mewn unrhyw gyfnod yr effeithir arnynt yn y dyfodol. Y meysydd mwyaf arwyddocaol o amcangyfrifon a dyfarniadau allweddol yw:

- Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad.  Mae manylion am y rhagdybiaethau actiwaraidd yn nodyn 02. A a'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar gyfer y cynllun pensiwn.
- Mae'r darpariaethau ar gyfer talu iawndal i staff yn seiliedig ar ragamcanion o'r taliadau pensiwn a ddisgwylir yn y dyfodol. Rydym yn defnyddio'r gyfradd ddisgownt berthnasol fel y'i pennir gan Drysorlys EM.
- Darpariaeth ddadfeilio yw'r asesiad o'r gost debygol o gywiro dadfeilio o dan delerau les Tŷ Hywel. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr adeilad a brydlesir ganddo yn cael ei gadw i'r fath safon fel nad oes angen gwneud darpariaeth ar gyfer dadfeilio ar hyn o bryd, gan ystyried yr ychydig o waith cynnal a chadw a'r adolygiad blynyddol a chytuno â'r flaenraglen waith 10 mlynedd.

# 02. A – Costau sy'n gysylltiedig ag Aelodau a staff

Gellir cael gwybodaeth am Aelodau a niferoedd staff (a datgeliadau perthnasol eraill) yn yr Adran Atebolrwydd - Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff.

## Costau Aelodau a chostau staff cysylltiedig

### Mae costau staff yn cynnwys:

| | Staff | Aelodau a deiliaid swyddi | Cyfanswm 2015–16 | Cyfanswm 2014–15 |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cyflogau | | | | |
| Staff, Aelodau a deiliaid swyddi | 14,518 | 4,465 | 18,983 | 18,183 |
| Staff ar secondiad | 203 | - | 203 | 278 |
| Costau nawdd cymdeithasol | | | | |
| Staff, Aelodau a deiliaid swyddi | 1,158 | 488 | 1,646 | 1,588 |
| Costau pensiwn eraill | | | | |
| Staff, Aelodau a deiliaid swyddi | 3,007 | 1,033 | 4,040 | 3,677 |
| Is-gyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | **18,886** | **5,986** | **24,872** | **23,726** |
| Llai yr adenillion am y secondiadau allanol | (156) | - | (156) | (122) |
| Cyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | **18,730** | **5,986** | **24,716** | **23,604** |

Caiff yr holl gostau staff eu codi yn erbyn costau gweinyddol

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru, fel y noda'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol yn y cyfrifon hyn. Caiff y symiau a delir i Weinidogion Cymru eu datgelu yng nghyfrifon adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru. Ar 31 Mawrth 2016, roedd 60 Aelodau Cynulliad. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 25 deiliad swydd (ar wahân i'r Gweinidogion), un Prif Weinidog, saith Gweinidog Cymru, pedwar Dirprwy Weinidog ac un Cwnsler Cyffredinol.

### Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Yn ystod 2015–16, roedd £2.996 miliwn o gyfraniadau cyflogwr (£2.697 miliwn yn 2014–15) yn daladwy ar sail un o bedair cyfradd yn yr amrediad rhwng 20 y cant a 24.5 y cant o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Bydd actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn proses brisio lawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu'r buddion wrth iddynt gronni, yn hytrach na phryd yr eir i'r costau, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol.

Ers 1 Ebrill 2015 caiff cyflogeion newydd ymuno â naill ai alpha neu bartneriaeth. Cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig gyrfa cyfartalog yw alpha; cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig yw'r cynllun partneriaeth.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Pan baratowyd y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, roedd cyfraniadau o £3,147 (£3,020 yn 2014–15) yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth. Nid oedd dim cyfraniadau wedi'u rhagdalu ar y dyddiad hwnnw.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan a ganlyn: **www.civilservicepensionscheme.org.uk**

### Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad.

Mae cynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn darparu buddion yn seiliedig ar dâl pensiynadwy terfynol. Mae asedau'r cynllun yn cael eu cadw ar wahân i asedau Comisiwn y Cynulliad a phenodir Rheolwr Buddsoddi i'w rheoli. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn ar 1 Ebrill 2014 gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Mae'r cynllun yn cael ei ariannu ac mae cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn ddigyfnewid ar 23.8 y cant yn dilyn y prisiad.

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae manylion y cyflogau a lwfansau yn cael eu cynnwys ym Mhenderfyniad y Bwrdd a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015.

Yn ystod 2015–16 mae'r Bwrdd wedi cwblhau ei waith ar Gynllun Pensiwn Enillion Gyrfa Cyfartalog Ailbrisiedig newydd Aelodau'r Cynulliad ac, ym mis Mawrth 2015, cyhoeddodd y Bwrdd ei Benderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad. Cymeradwywyd Cynllun Pensiwn Gyrfa Cyfartalog newydd gan Drysorlys EM yn unol â'r *Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013* ac fe'i cyflwynwyd ar 6 Mai 2016. Mae gan y Cynllun gyfradd gronnol o 1/50fed ac mae'r oed pensiwn yn gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Cyfradd gyfrannu'r aelodau yw 10.5 y cant ar gyfer aelodau newydd ac ar gyfer y rhai sy'n symud i'r cynllun CARE ar 6 Mai 2016. Bydd aelodau 55 oed neu drosodd ar 1 Ebrill 2012 yn ddarostyngedig i'r 'Amddiffyniad Trosiannol' ac yn parhau i gael eu budd-daliadau wedi'u cyfrifo ar sail cyflog terfynol am bum mlynedd ychwanegol tan 5 Mai 2021. Bydd yr aelodau hyn yn parhau i gyfrannu yn ôl eu cyfradd bresennol o naill ai 10 y cant neu 6 y cant ar gyfer croniad o 40fed neu 50fed yn ôl eu trefn. Cyfradd cyfraniad y cyflogwr fydd 15.6 y cant a bydd yn destun cap.

Y prif amcan ariannu yw cynnal cronfa o asedau y disgwylir iddi fod yn ddigonol i ddarparu'r buddiannau a addawyd i aelodau a'u buddiolwyr. Caiff yr amcan hwn ei nodi gan Ymddiriedolwyr y Cynllun, gan ystyried cyngor gan yr Actiwari. Y nod yw sicrhau bod buddion sy'n cronni yn cael eu talu yn ystod y cyfnod y mae aelodau'n rhan o Gynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad a bod y taliadau a delir gan y Cynulliad ar gyfer cronni buddiannau yn weddol sefydlog dros amser. Eir i'r afael â'r amcanion hyn drwy bennu cyfradd gyfrannu a fynegir fel canran lefel o gyflog pensiynadwy a elwir yn y Gyfradd Cyfraniad Safonol. Mae'r gyfradd safonol hon yn golygu y byddai'n ddigonol i gyllido'r buddiannau o dan y Cynllun, ar yr amod bod profiad yn unol â'r tybiaethau actiwariadd a wnaed. Yn dibynnu ar faint y gronfa gronedig a phrofiad gwirioneddol y Cynllun fel a ddatgelwyd ym mhob prisiad actiwaraidd bob tair blynedd, efallai y bydd yn rhaid talu cyfraniadau uwch neu is am gyfnod er mwyn caniatáu, yn benodol, ar gyfer gwargedion a diffygion amorteiddio.

Sefydlwyd y cynllun pensiwn ym 1999 ac mae'n anaeddfed, gydag incwm cyfraniadau yn parhau i ragori'n sylweddol ar yr alldaliadau rheolaidd. Hyd cyfartaledd pwysedig rhwymedigaethau'r cynllun yw oddeutu 20 mlynedd.

### Dyma'r symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

| | Nodyn | 31 Mawrth 2016<br>£'000 | 31 Mawrth 2015<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun | | (38,352) | (38,175) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | | 29,669 | 29,028 |
| Rhwymedigaeth net | | (8,683) | (9,147) |
| | | | |
| Swm yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | | | |
| Rhwymedigaethau | | (8,683) | (9,147) |
| Asedau | | - | - |
| Rhwymedigaeth net | 9 | (8,683) | (9,147) |

### Dadansoddiad o'r swm a drosglwyddwyd i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| | 2015-16<br>£'000 | 2014-15<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 2,146 | 1,710 |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 1,290 | 1,343 |
| Llog ar asedau'r cynllun | (970) | (1,142) |
| | 2,466 | 1,911 |
| | | |
| Dyrannwyd yn y cyfrifon fel a ganlyn: | | |
| Costau pensiwn eraill | 971 | 979 |
| Costau cyllid pensiynau | 1,495 | 932 |
| | 2,466 | 1,911 |

### Dadansoddiad o'r swm a gydnabyddir yn y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr (SCITE)

| | 2015-16<br>£'000 | 2014-15<br>£'000 |
|---|---|---|
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | (1,041) | 1,478 |
| Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn | 338 | 1,306 |
| Newidiadau mewn tybiaethau | 2,662 | (6,227) |
| (Colledion)/enillion actiwaraidd net a gydnabyddir yn SCITE | **1,959** | **(3,443)** |

### Newidiadau yng ngwerth y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn

| | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau ar 1 Ebrill | 38,175 | 30,258 |
| Cost bresennol y gwasanaeth (heb gynnwys cyfraniadau'r Aelodau) | 2,146 | 1,710 |
| Cyfraniadau'r Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 429 | 431 |
| Buddion a dalwyd yn ystod y flwyddyn | (688) | (488) |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 1,290 | 1,343 |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd | (3,000) | 4,921 |
| **Rhwymedigaethau ar 31 Mawrth** | **38,352** | **38,175** |

### Newidiadau mewn asedau yn ystod y flwyddyn

| | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau ar 1 Ebrill | 29,028 | 25,486 |
| Llog ar asedau'r cynllun | 970 | 1,142 |
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | (1,041) | 1,478 |
| Cyfraniadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 971 | 979 |
| Cyfraniadau gan yr Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 429 | 431 |
| Buddion a dalwyd a threuliau | (688) | (488) |
| **Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau'r cyfrifon ar 31 Mawrth** | **29,669** | **29,028** |

Mae'r Comisiwn yn disgwyl cyfrannu £730,138 at Gynllun Pensiwn yr Aelodau yn ystod 2016-17.

Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun:

| | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---|---|
| Ecwitïau | 44.52 y cant | 46.33 y cant |
| Buddsoddiadau amgen | 21.25 y cant | 22.44 y cant |
| Llog sefydlog ac arian parod | 34.23 y cant | 31.23 y cant |

Ar 31 Mawrth 2016 roedd 6.2 y cant o bortffolio'r Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol wedi'i fuddsoddi mewn eiddo. Mae asedau'r cynllun yn cynnwys, yn anuniongyrchol drwy fuddsoddi mewn cronfeydd cyfunol, giltiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU a chanddynt werth teg o £2,827,137 yn 2015–16 (£2,817,702 yn 2014–15).

Y gwir enillion o asedau'r cynllun yn 2015–16 oedd colled o £0.068 miliwn (cynnydd  o £2.619 miliwn yn 2014–15).

### Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

| | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2015 |
|---|---|---|
| Cyfradd y gostyngiad | 3.55 y cant | 3.3 y cant |
| Cynnydd mewn cyflogau yn y dyfodol | -0.6 y cant | -0.9 y cant |
| Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol | 1.3 y cant | 1.1 y cant |
| Hyd oes ddisgwyliedig ar ôl 65 oed (blynyddoedd) | | |
| Dynion | 25.2 | 25.5 |
| Menywod | 26.8 | 27.5 |

### Sensitifrwydd ynghylch y prif dybiaethau

Os bydd y gyfradd elw a dybir ar ben enillion yn newid 0.5 y cant y flwyddyn, byddai cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd yn newid tua 2 y cant a byddai cyfanswm y rhwymedigaethau yn newid tua £0.8 miliwn.

Os bydd y gyfradd elw wirioneddol ar ben pensiwn yn newid 0.5 y cant, byddai cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd yn newid tua 10 y cant a byddai cyfanswm y rhwymedigaethau yn newid tua £3.8 miliwn

Pe bai hyd oes yn ystod ymddeoliad yn cael ei dybio i fod ddwy flynedd yn hwy, byddai hyn yn cynyddu cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd tua 6 y cant ac yn cynyddu cyfanswm y rhwymedigaeth tua £2.3 miliwn

### Y symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol:

| | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 | 31 Mawrth 2014 £'000 | 31 Mawrth 2013 £'000 | 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhwymedigaeth buddion diffiniedig | 38,352 | 38,175 | 30,258 | 29,011 | 23,984 |
| Asedau'r cynllun | 29,669 | 29,028 | 25,486 | 23,960 | 20,298 |
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | (8,683) | (9,147) | (4,772) | (5,051) | (3,686) |
| Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn | 338 | 1,306 | 720 | 1,125 | (436) |
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | (1,041) | 1,477 | (282) | 1,524 | (497) |

Mae rhagor o wybodaeth am **Gynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad** ar gael yn adroddiad blynyddol a chyfrifon y cynllun am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016.

# 02. B – Costau eraill yr Aelodau

Mae costau eraill yr Aelodau, sef £8.149 miliwn (£8.030 miliwn yn 2014-15), yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys:

| | 2015-16<br>£'000 | 2014-15<br>£'000 |
|---|---|---|
| Costau swyddfa | 817 | 791 |
| Costau ychwanegol | 219 | 218 |
| Costau staff yr Aelodau | 6,862 | 6,768 |
| Costau teithio | 251 | 253 |
| **Costau eraill yr Aelodau** | **8,149** | **8,030** |

Nid yw costau staff yr Aelodau yn cynnwys taliadau diswyddo. (tri â chyfanswm o £22,000 yn 2014–15).

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gynllun grŵp cyfranddeiliaid (cyfraniad diffiniedig) gydag AVIVA ac mae'r Comisiwn yn gwneud cyfraniad misol o 10 y cant o'u cyflog gros ar gyfer staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Hefyd, gall y cyflogai ddewis gwneud cyfraniad misol rheolaidd. Mae'r Cynllun yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gofrestru awtomatig, a dyddiad ailgofrestru'r cynllun fydd 1 Ionawr 2017. Yn ystod 2015–16, talwyd £584,077 mewn cyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

# 02. C – Y Comisiynydd Safonau

Yn unol â thelerau Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, y Comisiwn sy'n talu cyflog y Comisiynydd ac unrhyw gostau cysylltiedig y mae'n eu hysgwyddo. Y Comisiwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyflogau a'r lwfansau y cytunwyd arnynt yn y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â phenodi'r Comisiynydd, ac mae unrhyw rwymedigaethau rhesymol a ysgwyddir wrth iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau, yn cael eu rhoi ar gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru.

Ar 9 Tachwedd 2010, penodwyd Gerard Elias QC yn Gomisiynydd Safonau. Mae rhagor o wybodaeth am Gerard Elias QC a'i waith ar gael yn **http://comisiynyddsafonaucymru.org/**

Yn ystod 2015–16, ysgwyddwyd cyfanswm o £23,600 mewn costau (£21,985 yn 2014–15) mewn perthynas â gwaith y Comisiynydd.

Cafodd 251.5 awr â chost o £19,858 (241 awr â chost o £18,984 yn 2014–15) am waith y Comisiynydd ar gyfer 2015–16 eu rhoi ar gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru.

Ysgwyddwyd 111 awr â chost o £3,742 (91.5 awr â chost o £3,001 yn 2014–15) o ran costau staff i gynorthwyo'r Comisiynydd.

# 02. D – Cynllun Ymadael Gwirfoddol

Lansiodd Comisiwn y Cynulliad Gynllun Ymadael Gwirfoddol ar draws yr holl feysydd gwasanaeth ar 19 Tachwedd 2015. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 8 Ionawr 2016. Cafodd cyfanswm o 24 o bobl gymeradwyaeth i adael, a phenderfynodd chwech o'r rhain wedi hynny beidio â derbyn y cynnig. Ar 31 Mawrth 2016, roedd dau o'r staff a gafodd eu cymeradwyo wedi gadael ac roedd rhwymedigaeth ar y Comisiwn i wneud taliadau i'r 17 aelod o staff. Cyfanswm cost y rhwymedigaeth hon ar 31 Mawrth 2016 oedd £557,000. Cytunwyd ar y setliad sy’n weddill ar ôl 31 Mawrth 2016 a bydd yn cael ei dalu yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17.

| Band cost y pecyn ymadael | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost |
|---|---|
| £0 - £20,000 | 8 |
| £20,001 - £40,000 | 7 |
| £40,001 - £60,000 | - |
| £60,001 - £80,000 | 4 |
| £80,001 - £100,000 | - |
| £100,000 a mwy | 1 |
| **Cyfanswm y pecynnau ymadael** | 20 |
| **Cyfanswm y gost (£miloedd)** | 661 |

Yn ogystal â’r Cynllun Ymadael Gwirfoddol, gwnaed taliadau ymadael arbennig ar ben telerau safonol y Cynllun gwerth cyfanswm o £93,000 i ddau aelod o staff fel rhan o becynnau y cytunwyd arnynt. Roedd un o’r taliadau hyn o £70,000 i Gyfarwyddwr ac felly wedi’i ddatgelu yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a’r staff. (Gwnaed dau daliad diswyddo gwerth cyfanswm o £19,000 yn 2014–15.)

# 03. Costau gweinyddol eraill

Mae'r costau gweinyddol eraill gwerth £18.207 miliwn (£19.210 miliwn yn 2014–15) yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr yn cynnwys:

| | 2015-16<br>£'000 | 2014-15<br>£'000 |
|---|---|---|
| | | |
| Lesau – adeiladau | 2,828 | 2,830 |
| Lesau – arall | 108 | 132 |
| Costau adeiladau a chyfleusterau | 6,351 | 6,394 |
| Costau TGCh | 2,561 | 3,343 |
| Treuliau gweinyddol | 1,842 | 1,854 |
| Costau cysylltiedig â staff | 1,176 | 648 |
| ***Costau gweinyddol eraill*** | **14,866** | **15,201** |
| Dibrisiant, amorteiddiad a thaliadau lleihad yn y gwerth | 3,340 | 4,009 |
| | **18,206** | **19,210** |

Y gost archwilio allanol a amcangyfrifwyd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol hyn yw £66,250 (£66,250 yn 2014–15). Mae hyn yn cynnwys £2,650 (£3,636 yn 2014-15) ar gyfer gwaith archwilio anstatudol ychwanegol yn 2015–16.

Mae rhagor o esboniad o'r gwahaniaeth rhwng 2015–16 a 2014–15 wedi'i gynnwys yn SOS 01 Dadansoddiad o alldro adnoddau net ar dudalen 92 i 35.

# 04. Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Tir ac adeiladau | Technoleg gwybodaeth | Dodrefn a gosodiadau * | Cerbydau | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | 2015–16 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2015** | **63,464** | **13,685** | **1,674** | **80** | **267** | **79,170** |
| Ychwanegwyd | - | 164 | 6 | - | 366 | 536 |
| Gwaredwyd | - | (17) | - | - | - | (17) |
| Ailddosbarthwyd | - | 246 | 21 | - | (267) | - |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **63,464** | **14,078** | **1,701** | **80** | **366** | **79,689** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2015** | **(1,657)** | **(10,847)** | **(940)** | **(80)** | **-** | **(13,524)** |
| Taliadau yn ystod y flwyddyn | (1,657) | (1,216) | (99) | - | - | (2,972) |
| Gwaredwyd | - | 17 | - | - | - | 17 |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **(3,314)** | **(12,046)** | **(1,039)** | **(80)** | **-** | **(16,479)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2016** | **60,150** | **2,032** | **662** | **-** | **366** | **63,210** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2015 | 61,807 | 2,838 | 734 | - | 267 | 65,646 |

* Mae dodrefn a gosodiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y byrllysg a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

DS Gibbon FRICS o GVA Grimley International Property Advisers a ailbrisiodd y tir a'r adeiladau hyn, yn ôl eu gwerth ar 31 Mawrth 2014, yn unol â Safonau Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Cafodd y Senedd a'r Pierhead eu hailbrisio yn unol â'u cost adnewyddu dibrisiedig fel procsi ar gyfer y gwerth cyfredol. Roedd dull gwaith y prisiwr yn cynnwys cyfrifo cost codi adeiladau modern cyfatebol a dibrisio'r gost i roi cyfrif am oed yr adeiladau a'u hoes economaidd yn y dyfodol.

Ni welwyd unrhyw arwyddion o leihad yn y gwerth ar 31 Mawrth 2016, wrth gynnal adolygiadau lleihad mewn gwerth, ac felly nid oes unrhyw leihad yn y gwerth wedi cael ei gydnabod.

| | Tir ac adeiladau | Technoleg gwybodaeth | Dodrefn a gosodiadau * | Cerbydau | Asedau sy’n cael eu hadeiladu | 2014–15 Cyfanswm £’000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2014** | **63,140** | **13,636** | **1,876** | **80** | **798** | **79,530** |
| Ychwanegwyd | 116 | 106 | 71 | - | 267 | 560 |
| Ailddosbarthwyd | 208 | 370 | 185 | - | (763) | - |
| Dadgydnabuwyd | - | (427) | (458) | - | (35) | (920) |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **63,464** | **13,685** | **1,674** | **80** | **267** | **79,170** |
| | | | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2014** | **-** | **(9,490)** | **(991)** | **(80)** | **-** | **(10,561)** |
| Taliadau yn ystod y flwyddyn | (1,657) | (1,784) | (126) | - | - | (3,567) |
| Lleihad yn y gwerth | - | - | - | - | - | - |
| Dadgydnabuwyd | - | 427 | 177 | - | - | 604 |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **(1,657)** | **(10,847)** | **(940)** | **(80)** | **-** | **(13,524)** |
| | | | | | | |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2015** | **61,807** | **2,838** | **734** | **-** | **267** | **65,646** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2014 | 63,140 | 4,146 | 885 | - | 798 | 68,969 |

Mae'r tâl dadgydnabod o £427,000 yn 2014–15 yn deillio o gwblhau'r broses o newid o wasanaethau TGCh gan gwmni allanol i wasanaeth mewnol, yn ogystal â gwall o ran dosbarthu dodrefn a gosodiadau lle bu raid codi £281,000 o'r gwerth llyfr net ar dreuliau gweinyddol eraill er mwyn cywiro'r sefyllfa.

# 05. Asedau anniriaethol

Mae'r asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd ar gyfer y prif systemau a ddefnyddir gan y Comisiwn:

| | Meddalwedd | 2016 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | |
| Ar 1 Ebrill 2015 | 2,367 | 2,367 |
| Ychwanegwyd | - | - |
| Gwaredwyd | (50) | (50) |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | 2,317 | 2,317 |
| **Amorteiddiad** | | |
| Ar 1 Ebrill 2015 | **(1,736)** | **(1,736)** |
| Taliadau yn ystod y flwyddyn | (368) | (368) |
| Gwaredwyd | 50 | 50 |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **(2,054)** | **(2,054)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2016** | **263** | **263** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2015 | **631** | **631** |

| | Meddalwedd | 2015 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | 2,367 | 2,367 |
| Ychwanegwyd | - | - |
| Ailddosbarthwyd | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | 2,367 | 2,367 |
| **Amorteiddiad** | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | **(1,294)** | **(1,294)** |
| Taliadau yn ystod y flwyddyn | (442) | (442) |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **(1,736)** | **(1,736)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2015** | **631** | **631** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2014 | **1,073** | **1,073** |

# 06. Symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn

| | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2015 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn:** | | |
| Symiau masnachol i'w derbyn | 89 | 40 |
| Symiau eraill i'w derbyn | 13 | 10 |
| Rhagdaliadau | 1,241 | 1,246 |
| TAW y gellir ei hadennill | 247 | 312 |
| | **1,590** | **1,608** |

Nid oedd unrhyw symiau i'w derbyn yn dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

# 07. Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

| | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 119 | 223 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 117 | (104) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **236** | **119** |
| Balansau ar 31 Mawrth a oedd yn cael eu cadw gan: | | |
| Citibank | 110 | 95 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 126 | 24 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **236** | **119** |

# 08. Symiau masnachol taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn** | | |
| TAW | 9 | 20 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 679 | 622 |
| Symiau masnachol taladwy | 588 | 590 |
| Croniadau | 3,826 | 2,661 |
| Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | 236 | 119 |
| | **5,338** | **4,012** |

Nid oedd unrhyw symiau taladwy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

# 09. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

O dan Safon Archwilio Ryngwladol 19, caiff rhwymedigaeth o £8.68 miliwn ei chydnabod ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn Nodyn 2.

| | Cynllun pensiwn yr Aelodau £'000 | Darpariaeth ar gyfer tâl digolledu i staff £'000 | 2015–16 Cyfanswm £'000 | 2014–15 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | **9,147** | **106** | **9,253** | **4,912** |
| (Gostyngiad)/cynnydd | (464) | (39) | (503) | 4,378 |
| Symiau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | - | (44) | (44) | (37) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **8,683** | **23** | **8,706** | **9,253** |

*Mae hyn yn cynnwys cost ariannu'r pensiwn, sef £1.495 miliwn (£.932 miliwn yn 2014–15) a'r elw actiwaraidd net, sef £1.959 miliwn (colled o £3.443 miliwn yn 2014–15).

Cyfanswm y ddarpariaeth yw £8.706 miliwn (£9.253 miliwn yn 2014–15), a disgwylir i dâl digolledu o £0.023 miliwn gael ei dalu o hwn o fewn blwyddyn.

# 10. Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf o dan gontract ar 31 Mawrth 2016 (dim ar 31 Mawrth 2015).

# 11. Ymrwymiadau o dan lesau

### (a) Lesau gweithredol

Yn y tabl isod, nodir yr ymrwymiadau o dan lesau gweithredol i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn ar ôl y cyfnod ariannol hwn, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod yr achosir y taliadau.

| | 31 Mawrth 2016<br>£'000 | 31 Mawrth 2015<br>£'000 |
|---|---|---|
| Mae'r rhwymedigaethau o dan lesau gweithredol yn cynnwys: | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 2,795 | 2,794 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 11,092 | 11,127 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 30,428 | 33,188 |
| | 44,314 | 47,109 |
| Eraill – car, argraffwyr a chopiwyr: | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 84 | 89 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 81 | 158 |
| | 165 | 247 |

Mae'r Comisiwn yn cael incwm mewn cysylltiad â lesau gweithredol tir ac adeiladau. Caiff yr incwm hwn ei ddatgelu fel Incwm rhentu adeiladau o fewn SOS 2.

### (b) Lesau ariannol

Nid oes unrhyw rwymedigaethau o dan lesau ariannol.

# 12. Ymrwymiadau ariannol eraill

Mae gan y Comisiwn gontractau sy'n cyfeirio at derfynu'r contractau'n gynnar ond nid oes taliadau wedi'u pennu ar gyfer hynny. Byddai'r Comisiwn yn mynd yn groes i gontract pe bai'n ei derfynu'n gynnar, a gallai'r contractwr hawlio iawndal am yr elw y byddai wedi'i ennill pe bai'r contract wedi parhau am y cyfnod llawn. Gan fod y ffigur hwn yn wahanol ar gyfer pob contract, nid yw'r contractau hyn wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn.

# 13. Offerynnau ariannol

Nid yw'r Comisiwn yn cyhoeddi offerynnau ariannol fel benthyciadau, nac yn masnachu ynddynt, ac nid yw wedi benthyca arian gan neb arall. Mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru am ei ofynion arian parod, ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd, nid oes ganddo adneuon perthnasol, ac mae'r holl asedau a'r rhwymedigaethau perthnasol mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg arian cyfred.

# 14. Rhwymedigaethau amodol

## a) Cyfraniadau pensiwn

Mae gan staff cymorth Aelodau'r Cynulliad hawliau cytundebol i gael cyfraniad sy'n cyfateb i 10 y cant o'u cyflog blynyddol gros tuag at bensiwn, ond nid ydynt i gyd wedi arfer yr hawl hon. Mae'r rhwymedigaeth yn parhau am chwe blynedd wedi i'w cyflogaeth ddod i ben, ac fe'i hamcangyfrifir fel a ganlyn:

| Cyfraniadau pensiwn ar gyfer staff cymorth yr Aelodau sydd: | Swm a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2016 £'000 | Swm a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2015 £'000 | Swm a dalwyd yn 2015–16 £'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd ond nad ydynt yn cyfrannu at gynllun pensiwn | 2 | 2 | - | Eithaf annhebygol |
| Wedi gadael swydd heb ymuno â chynllun pensiwn erioed | 46 | 49 | - | Eithaf annhebygol |

Nid yw'r Comisiwn wedi ymgymryd ag unrhyw rwymedigaethau amodol mesuradwy nac anfesuradwy drwy roi gwarant, indemniad neu lythyr cysuro.

# 15. Teithio a chynhaliaeth gan gyfarwyddwyr

Dyma'r hawliadau a wnaed gan y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr, ac ar eu rhan, am dreuliau teithio a chynhaliaeth a threuliau busnes eraill yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf:

| | **Claire Clancy** *Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad* | | **Adrian Crompton** *Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad* | | **Dave Tosh** *Cyfarwyddwr Adnoddau* | | **Elisabeth Jones** *Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol* | | **Craig Stephenson2** *Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn (o 6 Mai 2014)* | | **Nicola Callow** *Cyfarwyddwr Cyllid (o 26 Ebrill 2014)* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015–16 | 2014–15 | 2015–16 | 2014–15 | 2015–16 | 2014–15 | 2015–16 | 2014–15 | 2015–16 | 2014–15 | 2015–16 | 2014–15 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Milltiroedd mewn car | 303 | - | - | - | - | - | 81 | 29 | - | - | 110 | - |
| Tacsi / llogi car / costau cysylltiedig | 154 | 95 | - | - | - | 45 | 119 | 108 | 49 | 167 | - | - |
| Teithio awyr / costau cysylltiedig | 139 | 265 | - | - | - | 5,943 | 265 | 243 | 3,848 | 418 | - | - |
| Trafnidiaeth gyhoeddus | 471 | - | 959 | 179 | 107 | 409 | 836 | 305 | 510 | 201 | - | - |
| Llety | 291 | 212 | - | - | 60 | 826 | 452 | 191 | 2,885 | 524 | - | - |
| Cynhaliaeth / treuliau | 5 | - | - | - | | 211 | 171 | 59 | 419 | 189 | - | 211 |
| Cyfanswm | 1,363 | 572 | 959 | 179 | 167 | 7,434[16] | 1,924 | 935 | 7,711 [17] | 1,499 | 110 | 211 |

[16] Mae'r costau teithio yn 2014–15 yn deillio o rannu costau teithio awyr mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau cynghori TG i gyrff seneddol dramor.
[17] Mae costau teithio 2015–16 yn cynnwys cost teithio awyr a llety a gronnwyd wrth gefnogi'r Llywydd ar ymweliad tramor.

# 16. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae'r Comisiwn yn ymgymryd â nifer o drafodion gyda Llywodraeth Cymru ac adrannau eraill y llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Yn ogystal â hyn, ceir trafodion rheolaidd rhyngddo a Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad (gweler **yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a'r staff**). Yn ôl Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'n ofynnol i'r Cynulliad, ar sail cynnig gan y Comisiwn, ethol ymddiriedolwyr i Gynllun Pensiwn yr Aelodau.

Caiff y Cynulliad roi cyfarwyddyd arbennig neu gyffredinol i'r Comisiwn at ddibenion arfer swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad, neu yng nghyswllt hynny.

Nid yw'r Comisiwn wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol uniongyrchol â Chomisiynwyr, uwch-reolwyr nac unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd nac ag unrhyw sefydliad lle mae gan Gomisiynwyr, uwch-reolwyr neu unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd swydd sy'n eu galluogi i reoli neu ddylanwadu ar benderfyniadau.

Roedd y cyn-Ddirprwy Lywydd, David Melding, a Peter Black, un o'r Comisiynwyr ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad, hefyd yn ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad tan 6 Mai 2016. Ar ôl hynny, penodwyd Suzy Davies, un o Gomisiynwyr y Pumed Cynulliad, yn un o gynrychiolwyr y Comisiwn ar y Bwrdd Pensiwn newydd ar 16 Mehefin 2016.

At ddibenion tryloywder, cofnodir y mân drafodion a ganlyn:

– Talwyd £5,295.41 (£4,368.42 yn 2014–15) i Ddinas a Sir Abertawe am wasanaethau a roddwyd e.e. casglu gwastraff ac ardrethi. Mae Peter Black yn un o gynghorwyr Cyngor Dinas a Sir Abertawe.

– Talwyd £11,728.90 (£6,000.00 yn 2014–15) i Brifysgol Abertawe am drwyddedau cymorth Rhwydwaith Fideo Cymru. Mae Peter Black yn aelod o Lys Llywodraethwyr Prifysgol Abertawe.

Sefydlwyd Bwrdd Taliadau annibynnol gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010. Y Bwrdd Taliadau sy'n pennu cyflogau a lwfansau holl Aelodau a deiliaid swyddi'r Cynulliad. Caiff yr Aelodau gyflogi aelodau o'r teulu fel eu staff cymorth. Fodd bynnag, caniateir hyn yn unig pan na fydd yr Aelod Cynulliad yn chwarae unrhyw ran yn y broses ddethol deg ac agored, a gaiff ei chynnal gan staff y Comisiwn ar eu rhan.

Y Comisiwn sy'n penderfynu ar y polisïau ar gyflogau ac amodau staff y Comisiwn. Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran cyflogi aelodau o deuluoedd y Comisiynwyr neu'r uwch-reolwyr i weithio i'r Comisiwn.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau. Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau'r Cynulliad ar gael yn **www.cynulliad.cymru** a **www.assembly.wales**.

# 17. Digwyddiadau ar ôl cyfnod yr adroddiad

## Etholiad y Cynulliad

O ganlyniad i etholiad y Cynulliad ar 5 Mai 2016, bydd angen talu'r costau sy'n gysylltiedig â hawliadau ymaddasu Aelodau'r Cynulliad, taliadau dileu swyddi staff cymorth Aelodau'r Cynulliad a gollodd eu seddi a chostau cysylltiedig eraill. Amcangyfrifir mai £2.5 miliwn fydd y costau hyn.

Mae'r symiau  a dalwyd fel hawliadau newid gyrfa wedi'u cyfrifol fel y'u nodi ym Mhenderfyniad Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Corff annibynnol yw'r Bwrdd Taliadau sy'n gyfrifol am bennu tâl, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff.



**10 mlynedd o'r Senedd: 2006-2016**
'Dewi y Ddraig' o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi 10 mlynedd ers agor y Senedd.

# Atodiad - adroddiadau rheoleidd-dra

# Adroddiadau rheoleidd-dra

Caiff cyllideb Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei hawdurdodau gan y Cynulliad drwy gynigion cyllideb ffurfiol. Mae'r cynigion hyn yn awdurdodi gwariant cyfalaf a refeniw y Comisiwn, yn ogystal â'r incwm i'w gadw a'r swm y gellir ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru.

Paratowyd y Datganiad a'r nodiadau ategol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) ar gyfer 2015–16, wedi'i addasu mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*.

## SOS 3 Cysoni'r gofyniad arian parod net â'r (gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod

| | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 |
|---|---|---|
| Gofyniad arian parod net | (46,255) | (45,804) |
| O'r Gronfa Gyfunol (cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol | 46,500 | 46,450 |
| Symiau sy'n ddyledus o Gronfa Gyfunol Cymru ond sydd heb eu defnyddio | (9) | (527) |
| Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | (119) | (223) |
| **Cynnydd/gostyngiad mewn arian parod** | **117** | **(104)** |

## SOS 4 Cysoni'r Alldro Adnoddau Net â'r Gofyniad Arian Parod

| | Nodyn | Y gyllideb £'000 | Alldro £'000 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant/ (gorwariant) £'000 | Alldro 2014-15 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Alldro adnoddau net | SOS 01 | 52,300 | 52,230 | 70 | 51,468 |
| Addasiadau croniadol | | | | | |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod | Gweler isod | (5,900) | (4,835) | (1,065) | (5,257) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod | | 100 | (1,140) | 1,240 | (407) |
| **Gofyniad arian parod net** | | **46,500** | **46,255** | **245** | **45,804** |

| *Eitemau nad ydynt yn arian parod* | Nodyn | Y gyllideb £'000 | Alldro £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb 2015-16 £'000 | Alldro 2014-15 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dibrisiant ac amorteiddiad a dadgydnabod | (4,700) | (4,700) | (3,340) | (1,360) | (4,325) |
| IAS 19 Cost ariannu pensiynau a newidiadau eraill mewn darpariaethau | | (1,200) | (1,495) | 295 | (932) |
| | | **(5,900)** | **(4,835)** | **(1,065)** | **(5,257)** |

## SOS 05 Dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

| | Y gyllideb 2015-16 £'000 | Alldro 2015-16 £'000 | Alldro 2014-15 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu y gellir ei gadw | **300** | **190** | **223** |
| Is-gyfanswm | 300 | 190 | 223 |
| Swm a gadwyd | 300 | 190 | 223 |
| Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | - | - | - |

Ni chafwyd unrhyw incwm gweithredu arall yn 2015-16 (dim yn 2014-15).